
# CANOL DINAS CAERDYDD



## GWERTHUSIAD O'R ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

2009

cynnwys


Map 1 Ardaloedd Cadwraeth Canol y Ddinas

**CYFLWYNIAD**

- Ardaloedd Cadwraeth
- Gwerthusiadau
- Ardaloedd Cadwraeth a Strategaeth Canol y Ddinas

**PARC CATHAYS**

- Cyflwyniad
- Asesu Cymeriad yr Ardal
- Materion Perthnasol a Chyfleoedd

**HEOL CHARLES**

- Cyflwyniad
- Asesu Cymeriad yr Ardal
- Materion Perthnasol a Chyfleoedd

**FFORDD CHURCHILL**

- Cyflwyniad
- Asesu Cymeriad yr Ardal
- Materion Perthnasol a Chyfleoedd

**HEOL-Y-FRENHINES**

- Cyflwyniad
- Asesu Cymeriad yr Ardal
- Materion Perthnasol a Chyfleoedd

**PLAS WINDSOR**

- Cyflwyniad
- Asesu Cymeriad yr Ardal
- Materion Perthnasol a Chyfleoedd

**FFRAMWAITH AR GYFER GWEITHREDU**


Geirfa

Manylion Cyswllt

Atodiad 1 : Cyd- destun Hanesyddol

Atodiad 2 : Adolygiadau o Ffiniau

# Map 1: Ardaloedd Cadwraeth Canol y Ddinas



## 1.1 Ardaloedd Cadwraeth

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n penderfynu dynodi ardal yn Ardal Gadwraeth, a hynny ar ôl asesu cymeriad yr ardal honno. Mae hyn yn aml yn golygu asesu mwy na'r adeiladau'n unig. Mae cynllun y ffyrdd, golwg y strydoedd, coed a mannau gwyrdd i gyd yn cyfrannu at ansawdd yr ardal. Mae dynodi ardal yn diogelu'r cymeriad hwn, ac er mwyn cyflawni hynny bydd gan y Cyngor ragor o reolaeth dros ddymchwel, mân ddatblygiadau a diogelu coed.

## 1.2 Gwerthusiadau

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i adolygu Ardaloedd Cadwraeth er mwyn penderfynu a oes angen newid y ffiniau a nodi camau posibl ar gyfer gwella a diogelu pob Ardal Gadwraeth. I reoli'r broses hon, mae Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth wedi'i pharatoi. Mae'r Strategaeth yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y Ddinas, a'r meini prawf sydd i'w defnyddio wrth asesu ardaloedd cyfredol a newydd.

## 1.3 Gwerthusiadau o Ardaloedd Cadwraeth a Strategaeth Canol y Ddinas.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o ddatblygiad hanesyddol y ddinas (gweler Atodiad 1) a gwerthusiadau drafft o bum Ardal Cadwraeth yng Nghanol y Ddinas. Wedi iddo gael ei fabwysiadu, bydd canfyddiadau ac argymhellion pob adolygiad yn ategu Strategaeth Canol y Ddinas, a fabwysiadwyd eisoes. Mae'r Strategaeth yn darparu fframwaith ar gyfer twf a datblygiad canol y ddinas rhwng 2007 a 2010 ac ynddo cydnabyddir cyfraniad treftadaeth a diwylliant i'r ddinas. Ailadroddir amcanion allweddol y Strategaeth ar gyfer treftadaeth yn adrannau olaf y ddogfen hon ac maent yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer bwrw ymlaen â chanfyddiadau'r gwerthusiad.

Mae pob gwerthusiad yn cynnwys adolygiad o ffiniau'r Ardal Gadwraeth ac yn rhoi Asesiad o Gymeriad yr Ardal gan ddefnyddio nifer o briodweddau neu feini prawf allweddol. Mae'r meini prawf yn dilyn cyngor gan y llywodraeth a Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth Caerdydd 1997. Dilynir pob asesiad gan adran derfynol yn nodi'r materion sy'n effeithio ar ansawdd yr ardal a'r cyfleoedd ar gyfer gwella. Mae'r canfyddiadau yn adlewyrchu 'gwerthusiadau ardaloedd Canol y Ddinas' sydd wedi'u paratoi i gefnogi Strategaeth Canol y Ddinas.



# Parc Cathays

# Cynnwys


## 1. CYFLWYNIAD..................................................

1.1 Cyflwyniad
1.2 Ardaloedd â Chymeriad Arbennig
- 1.2.1 Y Ganolfan Ddinesig
- 1.2.2 Parc Bute
- 1.2.3 Sgwâr y Frenhines Anne
- 1.2.4 Plas-y-Parc
- 1.2.5 Heol y Gogledd

## 2. ASESU CYMERIAD YR ARDAL..........................

2.1 Ansawdd Nodedig y Lle
- 2.1.1 Grwpiau o Adeiladau
- 2.1.2 Graddfa
- 2.1.3 Patrymau Defnydd
- 2.1.4 Ffurf a Gosodiad y Strydoedd
- 2.1.5 Golygfeydd
- 2.1.6 Symudiad

2.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod
2.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat
2.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun
2.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel
2.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel


## 3. MATERION PERTHNASOL A CHYFLEOEDD...

3.1 Addasiadau i Adeiladau
3.2 Tir y Cyhoedd
3.3 Symudiad
3.4 Tirlunio
3.5 Hunaniaeth Leol

## 1.1 Cyflwyniad

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Parc Cathays yn 1975, ac estynnwyd yr ardal yn 1992 i gynnwys Fferm Blackweir i'r gorllewin, Tŷ Nasareth i'r gogledd ac Adeilad Yswiriant Prudential a Baltic House (Gwesty'r Hilton bellach) i'r de.

### Map1: Ffiniau Ardal Gadwraeth Parc Cathays, dynodwyd 1975, estynnwyd 1992



# 1.2 Ardaloedd â Chymeriad Arbennig

## 1.2.1 Y Ganolfan Ddinesig









- Neuadd y Ddinas a Lawnt Neuadd y Ddinas
- Adeilad Bute
- Mwyngloddio (Cerflun)
- Mynedfa o Heol y Gogledd

Datblygwyd y Ganolfan Ddinesig mor bell yn ôl â dechrau'r 1900au, yn gasgliad o adeiladau mawreddog. Gosodwyd yr adeiladau, gan gynnwys Neuadd y Ddinas, Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru, y Llysoedd Barn a Phrifysgol Caerdydd, ar hyd echelin glir yn arwain o'r dwyrain i'r gorllewin. Er gwaethaf yr amrywiaeth yn arddulliau'r adeiladau, rhoddant argraff gyffredinol o ffurfioldeb a mawredd, a'r brif elfen sy'n uno'r adeiladau yw'r defnydd o garreg Portland ar gyfer gorchuddio arwyneb waliau'r rhan fwyaf o'r adeiladau dinesig. Disgrifia John Newman yr ardal hon fel "Canolfan Ddinesig wychaf Ynysoedd Prydain", sy'n cynnwys "cyfres o adeiladau anferth, rhai ohonynt yn ddarnau ardderchog o bensaernïaeth, [sydd] wedi'u lleoli fel bod modd gwerthfawrogi pob adeilad am ei hunan, ond lle bod cydlyniad ac ysblander y grŵp cyfan yn ychwanegu bri at bob elfen unigol." (Newman, 1995)

Y llinellau o goed ar hyd Rhodfa'r Brenin Edward VII a Rhodfa'r Amgueddfa sydd wedi pennu gosodiad y ffyrdd a'r adeiladau o fewn yr ardal – fe'u plannwyd gan deulu Bute cyn gwerthu'r tir i Gorfforaeth Caerdydd, gyda chyfamod ynghylch eu cadw. Mae'r rhodfeydd hyn, gyda'u lleiniau ymyl llydan a choed stryd aeddfed, yn ychwanegu ar wyrddni'r ardal. Mae'r coed hyn, ynghyd â'r coed yn y parciau a'r mannau gwyrdd o amgylch, yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad yr ardal.

Mae tri phrif fan agored o fewn craidd y Ganolfan Ddinesig: Gerddi Alexandra, Gerddi'r Orsedd a lawnt Neuadd y Ddinas. Mae Gerddi'r Orsedd, a enwyd ar ôl y cylch o Gerrig Gorseddol sydd yno, wedi'u lleoli i'r de o'r Amgueddfa Genedlaethol. Amgaeir y gerddi gan goed aeddfed i'r dwyrain ac mae cyfres o lwybrau troed yn troelli rhwng gwelyau blodau ffurfiol, meinciau a cherfluniau coffaol. Wrth ymyl y gerddi hyn y mae lawnt neuadd y Ddinas, a ddefnyddir trwy gydol y flwyddyn fel man cyfarfod anffurfiol a lleoliad ar gyfer digwyddiadau dros dro. Canolbwynt y lawnt yw'r pwll bas gyda ffynnon tair ffrwd sy'n wynebu'r fynedfa i Neuadd y Ddinas. Mae Gerddi Alexandra, sydd yng Nghanol y Ganolfan Ddinesig, yn ardd wedi'i thirlunio gyda gwrychoedd aeddfed o'i hamgylch a llwybrau ffurfiol, gwelyau blodau, llefydd i eistedd a nifer o gelfweithiau coffaol a chofebion rhyfel.

## 1.2.2 Parc Bute

Parcdir hanesyddol yng nghanol y ddinas yw Parc Bute. Yno, mae llwybrau'n troelli trwy lecynnau o goed enghreifftiol, gwelyau blodau, coetiroedd a mannau agored. Amgaeir y parc i'r dwyrain gan Gamlas Gyflenwi'r Dociau (sydd â deiliant trwchus a choed aeddfed ar hyd ei hymylon). I'r de, Castell Caerdydd a'r Wal Anifeiliaid yw'r terfyn, Afon Taf sydd i'r gorllewin ac i'r gogledd mae'r parc yn agor allan i'r man agored a'r caeau chwarae cyfagos yn Blackweir.

Yn ogystal â bod yn rhan o'r ardal Gadwraeth, mae Parc Bute (ynghyd â Mannau Gwyrdd y Castell) yn Barc a Gardd Gradd 1. Mae'n cynnwys gweddillion y Brodordy Dominicaidd a adwaenir fel Tŷ'r Brodyr Duon, Cofeb Gofrestredig, ac yn darparu lleoliad ar gyfer Castell Caerdydd.

Mae Castell Caerdydd, i'r de o Barc Bute, hefyd yn Gofeb Gofrestredig ac yn cynnwys olion y gaer Rufeinig wreiddiol a adeiladwyd ar y safle, yn ogystal ag elfennau o'r cyfnodau Normanaidd a chanoloesol. Yr addasiadau a gyflawnwyd gan Drydydd Ardalydd Bute a'i bensaer, William Burges, yn niwedd y 19eg ganrif sydd wedi rhoi amlinell mor nodedig i'r castell.

Mae'r Wal Anifeiliaid, sy'n rhestredig, yn rhan o derfyn deheuol y parc, ac ar y cyd â Phorthdy'r Gorllewin a'r gatiau mynediad i'r parc, maent yn gwneud cyfraniad pwysig i'r Ardal Gadwraeth. Gwelir fwltur, arth ac anifeiliaid eraill yn eistedd ar bob yn ail fwliwn y Wal Anifeiliaid. Adeiladwyd y wal yn wreiddiol ymhellach tua'r dwyrain ar hyd Heol y Castell, rhwng Tŵr Cloc y Castell a phorth deheuol y Castell. Yno, byddai'n amddiffyn gardd y dyfrffos ffurfiol rhag y bobl a basiai heibio. Symudwyd y wal i'w safle presennol yn 1930, gan ychwanegu 6 anifail arall.

Lleolwyd Castell Caerdydd mewn safle strategol ym mhen uchaf Heol Eglwys Fair. Mae llain las eang o flaen Waliau'r Castell, ychydig islaw lefel y ffordd a'r palmant, yn debyg i ddyfrffos. Roedd adeiladau yn yr ardal hon tan droad y ganrif ddiwethaf, ond bellach ceir golygfa agored o'r castell yn ei gyfanrwydd ac o'r Ganolfan Ddinesig tu hwnt.

## 1.2.3 Sgwâr y Frenhines Anne

Mae Sgwâr y Frenhines Anne wedi'i leoli oddi ar Heol Corbett i'r gogledd o'r Ganolfan Ddinesig ac mae'n cynnwys tri deg o dai Neo-Sioraidd o frics coch a adeiladwyd yn y 1930au a'r 1950au.

Mae'r tai wedi'u lleoli yn ôl oddi wrth y ffordd, tu ôl i fynedfa fawreddog â dau bâr o golofnau brics coch, colofnau Dorig mewn parau a rheiliau addurnol. Tu hwnt i'r fynedfa, mae'r eiddo wedi'i osod mewn dwy linell baralel ar y naill ochr a'r llall i lawnt hirsgwar gymunol, gyda choed stryd a thramwyfa gymunol i geir o'i hamgylch. Mae'r coed yn barhad o'r rhai sy'n tyfu ar hyd Rhodfa'r Brenin Edward VII.

Trwy gynnal a chadw'r eiddo yn ofalus ac o ganlyniad i ymdrechion cymdeithas preswylwyr weithgar, mae'r sgwâr wedi cadw llawer o'i gymeriad a'i atyniad arbennig. Ni chodwyd unrhyw waliau terfyn i dorri ar yr olygfa agored o'r grŵp hwn o adeiladau.

## 1.2.4 Plas-y-Parc

Lleolir Plas-y-Parc i'r dwyrain o'r Ganolfan Ddinesig, a datblygwyd y stryd yn y 19eg ganrif fel ardal breswyl i Fictoriaid cefnog. Mae'r eiddo i gyd ar ochr ddwyreiniol y stryd, a thai teras a filâu pâr Fictoraidd ydynt yn bennaf. Ni fu fawr o newid yng ngosodiad y filâu ar hyd Plas-y-Parc, a'r unig adeiladau sy'n torri ar eu traws yw Adeilad Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a Gorsaf Rheilfordd Parc Cathays.

Er bod Llwyn y Parc a Maes yr Amgueddfa wedi cadw llawer o'u filâu Fictoraidd gwreiddiol, mae yno rai eithriadau nodedig. I'r gogledd o Faes yr Amgueddfa gwelir Holst House – adeilad swyddfa chwe llawr â tho gwastad o ddiwedd y 1960au/dechrau'r 1970au, ac yn y gyffordd rhwng Llwyn y Parc a Maes St Andrew saif Caradog House, adeilad swyddfa pum llawr mewn brics coch. Ynghyd â 2/4 Llwyn y Parc, adeiladu o ganol yr 20fed ganrif, nid yw'r adeiladau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal gadwraeth, oherwydd eu maint a'u hymddangosiad gormesol yn yr olygfa o'r stryd. Yn Llwyn y Parc, mae rhodfa o goed pisgwydd sy'n arwain trwodd i Blas Windsor a Chilgant St Andrew.









- Camlas Cyflenwi'r Dociau
- Olion Ty'r Brodyr Duon
- Sgwâr y Frenhines Anne
- Filâu Fictoraidd ar hyd Plas-y-Parc

# 1.2.5 Heol y Gogledd









Mae Heol y Gogledd a Boulevard de Nantes yn llwybrau traffig mawr, sy'n arwain i mewn i'r ddinas ac yn dominyddu cymeriad yr is-ardal hon. Yn benodol, mae Boulevard de Nantes yn gwahanu'r Ganolfan Ddinesig oddi wrth ganol y ddinas.

I'r de o Boulevard de Nantes mae hen gamlas gyflenwi'r dociau i'w gweld (cysylltiad gweledol â gorffennol diwydiannol y ddinas) ac wrth ymyl honno mae Gerddi'r Brodordy. Yr oedd yn amod gan Drydydd Ardalydd Bute na fyddai unrhyw ddatblygu'n digwydd yng Ngerddi'r Bordordy ac y byddai rhan ogleddol camlas gyflenwi'r dociau yn cael ei hamgáu â choed. Mae Gerddi'r Brodordy wedi'u rhannu yn ddwy ran wahanol gan Gamlas Gyflenwi'r Dociau; mae'r rhan ddeheuol yn ardd isel gyda llwybrau graean a gwelyau â phren bocs o'u hamgylch, a amgaeir gan reiliau addurnol. I'r gogledd o'r gamlas, mae coed collddail yn tyfu'n drwchus, gan gynnwys sycamorwydd, deri a chastanwydd.

Mae llefydd parcio ar hyd y rhan helaethaf o Heol y Gogledd, ac mae'r rhain, ynghyd â'r traffig trwm sy'n defnyddio'r ffordd hon, yn creu ymyl annymunol i Barc Bute. Ar hyd ochr ddwyreiniol Heol y Gogledd mae llwybr cerdded / seiclo rhwng dwy lain ymyl glas eang, sy'n cynnwys cyfres o goed stryd aeddfed ac yn darparu 'clustog' gwyrdd rhwng y Ganolfan Ddinesig a Heol y Gogledd. Hefyd i'r dwyrain o Heol y Gogledd, ger Adeilad Redwood, mae darn o'r wal ffiniol gerrig a oedd yn nodi ffin wreiddiol hen Ystad Parc Cathays yn dal i fodoli.

Saif Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar derfyn Parc Bute, gyda'r prif adeilad yn wynebu Heol y Gogledd. Ymhellach i'r gogledd, mae cyfres o dai pâr Fictoraidd deniadol sydd wedi cadw llawer o'u manylion gwreiddiol; ac ar ffin ogleddol yr ardal gadwraeth saif Tŷ Nasareth (a adeiladwyd ym 1875 ar orchymyn Trydydd Ardalydd Bute, yn gartref plant amddifaid).

- Camlas Cyflenwi'r Dociau
- Gerddi'r Brodordy
- Prif Lwybr Cerbydau ar hyd Heol y Gogledd
- Eiddo Fictoraidd ar hyd Heol y Gogledd

# 2 asesu cymeriad yr ardal


## 2.1 Ansawdd Nodedig y Lle

### 2.1.1 Grwpiau o Adeiladau

Mae nifer o grwpiau adeiladau wedi'u diffinio'n dda ledled yr Ardal Gadwraeth.

- Y Ganolfan Ddinesig: grŵp unigryw o adeiladau dinesig mawreddog wedi'u gosod mewn tirlun ffurfiol.
- Castell Caerdydd a'i waliau amgylchynol.
- Y tai deulawr yn Sgwâr y Frenhines Anne, sydd wedi'u gosod o amgylch lawnt gomunol ac oddi wrth dir y cyhoedd.
- Plas-y-Parc, Maes yr Amgueddfa a Llwyn y Parc: mae'r ffyrdd yma â phlotiau rheolaidd o'r un lled a pherthynas gref â thir y cyhoedd.

### Map 2: Grwpiau o Adeiladau










- Y Ganolfan Ddinesig
- Castell Caerdydd
- Sgwâr y Frenhines Anne









- Tŵr Cloc Castell Caerdydd
- Graddfa Ddinesig
- Graddfa Ddomestig
- Rhodfa'r Brenin Edward VII

## 2.1.2 Graddfa

Mae Castell Caerdydd yn dominyddu canol y ddinas gyda'i waliau carreg uchel, bylchfuriau, mwnt, gorthwr a'r tyrrau coeth yng nghornel y de-orllewin. Mae maint a lleoliad y castell yn ei wneud yn un o dirnodau mwyaf amlwg ac eiconig Caerdydd. Tu hwnt i'r castell, gwelir dau fath o adeilad yn yr Ardal Gadwraeth – y dinesig a'r domestig. Er mai'r adeiladau yw prif nodwedd y Ganolfan Ddinesig, mae'r strydoedd eu hunain yn cyfrannu llawn cymaint at gymeriad ac awyrgylch yr ardal. Maent yn ategu cyfrannedd glasurol yr adeiladau a'r planhigion stryd toreithiog oddi amgylch.

Tu hwnt i'r Ganolfan Ddinesig a Pharc Bute, adeiladau domestig, llai o faint, sydd i'w cael. Ym Mhlas-y-Parc, Llwyn y Parc ac ym mhen gogleddol Heol y Gogledd, adeiladau dau neu dri llawr a welir yn gyffredinol, mewn plotiau o'r un lled â'i gilydd. Mae Tŷ Nasareth, gyda'i uchder trawiadol a'r wal ffiniol o'i amgylch, yn nodi terfyn y grŵp hwn o adeiladau.

Yn Sgwâr y Frenhines Anne, mae'r adeiladau a'r strydoedd ar raddfa wahanol eto. Yma, mae anheddau deulawr ar wahân mewn plotiau llydan yn wynebu rhodfa eang â choed ar ei hyd, ac yn amgylchynu lawnt gymunedol yn y canol.

## 2.1.3 Patrymau Defnydd

Adeiladau'r Brifysgol a'r Adeiladau Dinesig sy'n dominyddu'r Ganolfan Ddinesig. Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng y swyddogaethau academaidd a dinesig yn creu amrywiaeth fywiog o ran defnydd ac ymwelwyr trwy gydol y dydd a'r nos, gan greu gweithgarwch ar hyd y llwybrau gogledd-de i gerddwyr a cherbydau, yn enwedig Plas-y-Parc.

Datblygwyd y tai Fictoraidd ar hyd Plas-y-Parc a Llwyn y Parc ar gyfer defnydd preswyl yn wreiddiol, ond dros y ganrif ddiwethaf mae'r defnydd a wneir o'r tir yn yr ardal wedi newid ac mae'r eiddo bellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer swyddfeydd gan amlaf. Mae rhai ardaloedd preswyl yn bodoli o hyd, o fewn Sgwâr y Frenhines Anne ac yn y neuadd breswyl i fyfyrwyr, Neuadd Aberdâr.

## 2.1.4 Ffurf a Gosodiad y Strydoedd

Mae'r adeiladau o fewn y ganolfan ddinesig wedi'u gosod o amgylch tirlun ffurfiol Gerddi Alexandra, gyda Rhodfa'r Brenin Edward VII a Rhodfa'r Amgueddfa'n creu echelinau gogledd-de amlwg. Mae holl brif weddluniau'r adeiladau yn wynebu tir y cyhoedd.

Datblygiad sy'n wynebu am i mewn yw Sgwâr y Frenhines Anne, gyda'r eiddo'n amgylchynu lawnt breifat ganolog. Mae mynedfa glasurol â gatiau i'r Sgwâr ar Heol Corbett.

Mae'r holl eiddo domestig yn yr Ardal Gadwraeth yn dilyn patrwm Fictoraidd sy'n gyffredin trwy'r ddinas gyfan, gyda therasau neu dai pâr yn wynebu'r stryd.

## 2.1.5 Golygfeydd

Mae'r golygfeydd pwysicaf oddi mewn i'r Ardal Gadwraeth a thu hwnt wedi'u canoli o amgylch y Ganolfan Ddinesig, y Castell a'r parciau o amgylch. Castell Caerdydd yw'r prif ganolbwynt o fewn yr Ardal Gadwraeth ac mae'n dominyddu'r golygfeydd o bob cyfeiriad.

Wyneb deheuol y Ganolfan Ddinesig, gan gynnwys y Llysoedd Barn, Neuadd y Ddinas ac Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru, yw un o olygfeydd mwyaf adnabyddus y ddinas, a cheir cipolwg o'r adeiladau hyn ac o Erddi'r Orsedd a lawnt Neuadd y Ddinas o'r de, dwyrain a gorllewin. Mae'r golygfeydd mwyaf trawiadol a chyfarwydd i'w gweld o Blas-y-Parc, Boulevard de Nantes, a'r Brodordy.

Wrth ddynesu at Blas-y-Parc o'r gogledd, adeiladau'r brifysgol fydd canolbwynt y golygfeydd tuag at y Ganolfan Ddinesig. Yma, mae tro graddol yn y ffordd, wedi'i fframio gan goed sy'n terfynu wrth adeiladau'r Swyddfa Gofrestru ac Undeb y

Myfyrwyr ar ochr ddwyreiniol y ffordd.


O fewn y Ganolfan Ddinesig mae nifer o olygfeydd pwysig, yn bennaf ar hyd strydoedd llydan, coediog Rhodfa'r Amgueddfa a Rhodfa'r Brenin Edward VII. Cofeb Ryfel Genedlaethol Cymru yw canolbwynt Gerddi Alexandra.

## 2.1.6 Symudiad

Mae hierarchaeth symudiad amlwg yn yr Ardal Gadwraeth.

- Heol y Gogledd, Plas-y-Parc, Boulevard de Nantes, Ffordd y Brenin, Heol Corbett a Heol y Dug / Heol y Castell yw'r prif ffyrdd ar gyfer cerbydau sy'n teithio i'r ardaloedd o amgylch.
- Y ffyrdd eilaidd sy'n darparu mynediad trwy'r Ganolfan Ddinesig yw: Rhodfa'r Brenin VII, Rhodfa'r Amgueddfa, Ffordd y Coleg, Heol Neuadd y Ddinas a Heol Gerddi'r Orsedd.
- Mae rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus a llwybrau seiclo (gan gynnwys Taith Taf) yn pasio trwy'r ardal ac yn darparu mynediad at Heol y Gogledd a Blackweir yn y gogledd, Heol Senghennydd yn y dwyrain, canol y ddinas yn y de a Gerddi Sophia yn y gorllewin. Mae rhai llwybrau yn gyfyngedig i oriau agor y parc.
- Mae tair tanffordd i gerddwyr sy'n cysylltu'r Ganolfan Ddinesig â'r mannau canlynol: Parc Bute (tanffordd Heol y Gogledd), Castell Caerdydd (Tanffordd Ffordd y Brenin) a chanol y ddinas (Tanffordd Boulevard de Nantes).
- Mae glanfa tacsi dŵr ym Mharc Bute yn darparu mynediad i Fae Caerdydd.

## Map3: Symudiad













- Gerddi Alexandra a Th r Cloc Neuadd y Ddinas
- Mynedfa i Sgwâr y Frenhines Anne
- Gerddi'r Orsedd
- Neuadd y Ddinas a Lawnt Neuadd y Ddinas

# 2.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod

At ddibenion y gwerthusiad hwn, adeilad tirnod yw un sydd â chysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol arwyddocaol gyda datblygiad yr ardal ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal.

Er bod rhai adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth yn meddu ar y rhinweddau hyn i ryw raddau, mae nifer o adeiladau lle maent yn fwy amlwg; yr adeiladau hyn a nodwyd fel Adeiladau Tirnod, ac a ddisgrifir yn gryno isod. Mae'r strwythurau hyn yn gyffredinol o'r ansawdd pensaernïol uchaf o fewn yr Ardal Gadwraeth.

## Map 4: Adeiladau Tirnod





## Castell Caerdydd:

Mae wyneb de-orllewinol y castell wedi'i ddominyddu gan y tyrau amrywiol a grëwyd gan William Burges ar gyfer 3ydd Ardalydd Bute



## Porthdy'r Gorllewin:

Alexander Roos a gynlluniodd y porthdy yn 1860-1862, ac yma mae'r fynedfa ddeheuol i Barc Bute.



## Gwesty'r Hilton:

Gyda'r defnydd cynnil o garreg Portland, a'i gromlin osgeiddig, mae Gwesty'r Hilton yn dirnod pwysig rhwng y Ganolfan Ddinesig a chraidd masnachol y ddinas.



## Tŵ Nasareth:

Adeiladwyd yn 1875 gan John Prichard ar gyfer 3ydd Ardalydd Bute, yn gartref plant amddifaid. Mae Carreg Pennant gyda thriniaethau o garreg Caerfaddon yn creu cymeriad gothig i'r adeilad sylweddol hwn.






## Neuadd y Ddinas:

Gyda wyneb o garreg Portland, mae Neuadd y Ddinas (Neuadd y Dref yn flaenorol), gyda'i thŵr a'i tho crwm, yn dirnod coegwych ac yn symbol o hyder Caerdydd ar droad yr 20fed ganrif. Dyluniwyd gan Lanchester, Stewart a Rickards. Adeiladwyd 1901-04.

## Y Llysoedd Barn:

adeilad petryal deulawr mewn arddull Baróc, gyda wyneb o garreg Portland wedi'u haddurno'n helaeth ag architrafau wedi'u mowldio a ffigyrau anferth ar ben bob bae cornel. Dyluniwyd gan Lanchester, Stewart a Rickards. Adeiladwyd 1901-04.





## Amgueddfa Genedlaethol Cymru:

Mae'r amgueddfa'n darparu gweddlun pwerus yn gefndir i Erddi'r Orsedd, gyda grisiau eang yn arwain at bortico Dorig cilannog. Dyluniwyd gan Smith a Brewer. Adeiladwyd o 1901 ymlaen.

## Cofeb Ryfel Genedlaethol Cymru:

colonâd syml mewn cylch yw'r gofeb, wedi'i osod o amgylch ffynhonnau a ffigyrau efydd. Mae'r gofeb wedi'i lleoli yng nghanol y Ganolfan Ddinesig. Dyluniwyd gan Syr Ninian Comper. Adeiladwyd 1924-28.



## Prifysgol Cymru:

Dechreuwyd adeiladu'r Brifysgol yn 1903, ond ni chwblhawyd hi tan y 1960au. WD Caroe oedd y pensaer, a chynlluniodd y Brifysgol yn arddull Wren, gan ddefnyddio llu o gyfeiriadau clasurol ar y ffasâd gorllewinol sy'n wynebu Rhodfa'r Amgueddfa.



## Prifysgol Cymru:

Mae'r ffasâd sy'n wynebu Plas-y-Parc yn fwy plaen, er bod y llyfrgell ganolog gyda'i thyrau ochr a'i phediment cylchog yn rhoi gweddlun trawiadol i'r pedrongl dwyreiniol.



## Y Swyddfa Gymreig:

Mae bloc blaen y Swyddfa Gymreig, o'r 1930au, a'i arwyneb o garreg Portland, yn rhan bwysig o'r casgliad adeiladau o amgylch Gerddi Alexandra. Dyluniwyd gan P.K. Hanton. Adeiladwyd 1934-38.



## Neuadd Aberdâr:

mae'r neuadd hon mewn lleoliad pwysig ym mhen gogleddol y Ganolfan Ddinesig.  Adeiladwyd hi rhwng 1893-95 gan HW Wills, yn neuadd breswyl i ferched a fynychai'r  brifysgol.



## Adeilad Bute:

sefydliad technegol oedd yr adeilad i ddechrau, a daeth yn adeilad UWIST yn ddiweddarach. Percy Thomas oedd y pensaer, a dyluniodd yr adeilad mewn arddull clasurol gan ddefnyddio carreg Portland i greu mynedfa fawreddog o Rodfa'r Brenin Edward VII. Dyluniwyd gan I. Jones a P.Thomas a chwblhawyd y rhan fwyaf ohono yn 1916.



## Y Deml Heddwch:

Adeiladwyd y Deml rhwng 1937 a 1938, i gynllun gan Percy Thomas, gan ddefnyddio carreg Portland i greu adeilad diaddurn, clasurol ei arddull.



## Neuadd Sir Forgannwg gynt:

Adeiladwyd yn yr arddull clasurol beaux arts. Mae'r grisiau a'r cerfluniau ar y naill ochr a'r llall yn creu gweddlun gosgeiddig i'r Ganolfan Ddinesig. Dyluniwyd gan E.V. Harris a T.A. Moodie. Adeiladwyd 1908-1912.



## Cofrestrfa Prifysgol Cymru:

adeilad clasurol arall ag arwyneb o garreg Portland. Dyluniwyd gan H.W. Wills ac Anderson. Adeiladwyd 1903-04

## 2.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

O fewn y Ganolfan Ddinesig, mae graddfa a gosodiad yr adeiladau yn golygu bod pob ochr i'r adeiladau'n wynebu tir y cyhoedd. Mae patrwm grid ffurfiol y ffyrdd a'r llwybrau trwy'r ardal, ynghyd â'r triniaethau cyson o'r waliau ffiniol isel, plinthiau a'r lleiniau glas o amgylch yr adeiladau yn helpu i ddiffinio'r mannau cyhoeddus/preifat gan gadw persbectif agored y Ganolfan Ddinesig.

O flaen y tai pâr a'r terasau Fictoraidd, mae waliau ffiniol a rheiliau yn darparu rhwystr ffisegol rhwng y mannau cyhoeddus a phreifat. Ond mae diflaniad y diffiniadau ffiniau yn amlwg ledled yr ardal, ac yn enwedig y tu ôl i eiddo lle mae gerddi a waliau cefn wedi'u tynnu ymaith i wneud lle ar gyfer parcio ceir.

Yn Sgwâr y Frenhines Anne, mae gatiau mawreddog y fynedfa yn darparu rhwystr gweledol rhwng tir y cyhoedd a'r tir preifat.

## 2.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

Prin iawn oedd y defnydd o garreg Portland yng Nghaerdydd hyd nes yr adeiladwyd Neuadd y Ddinas a'r Llysoedd Barn. Bellach, y garreg hon, yn fwy nag unrhyw nodwedd arall, sy'n rhoi undod a mawredd i'r Ganolfan Ddinesig, ei hadeiladau a'i chofebion cyhoeddus.

Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae Castell Caerdydd yn defnyddio amrywiaeth o garreg. Mae'r calchfaen lias glas Rhufeinig gwreiddiol yn waliau'r Castell wedi'i wahanu oddi wrth y waliau diweddarach gan amlinell o dywodfaen coch. Defnyddiwyd y gwaith maen Rhufeinig i adeiladu'r gorthwr Normanaidd o fewn tiroedd y castell.

Mae mannau eraill arwyddocaol lle defnyddiwyd carreg yng nghyffiniau'r Castell yn cynnwys y Wal Anifeiliaid, Porthdy'r Gorllewin yn Heol y Castell, a Stablau'r Castell ym Mharc Bute.

Mae'r filâu Fictoraidd yn Heol y Gogledd, Plas-y-Parc, Llwyn y Parc a Maes yr Amgueddfa wedi'u hadeiladu o frics coch neu garreg Pennant a naddwyd â morthwyl gyda thriniaethau o garreg Caerfaddon neu stwco a thoeau llechi. Mae rhai o'r tai cynharach ym mhen deheuol Plas-y-Parc ag arwyneb stwco.

Mae'r tai yn Sgwâr y Frenhines Anne yn dilyn arddull Neo-Sioraidd, a'r prif ddeunydd adeiladu yw brics coch.

## 2.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

Mae Castell Caerdydd a'r Ganolfan Ddinesig yn dirnodau amlwg o fewn canol y ddinas. Cynhaliwyd cystadlaethau pensaernïol er mwyn penderfynu ar y cynlluniau ar gyfer yr adeiladau mawr cyntaf yn y Ganolfan Ddinesig, ac mae dyluniad yr adeiladau hynny (Neuadd y Ddinas a'r Llysoedd Barn) wedi bod yn sail ar gyfer datblygiad y ganolfan wedi hynny, gan sefydlu'r defnydd o garreg Portland mewn arddull neo-glasurol yn nodwedd ddiffiniol i'r grŵp hwn o adeiladau. Nid yw'r adeiladau diweddarach a godwyd o 1958 ymlaen yn cyfeirio o gwbl at yr arddull clasurol, heblaw am y ffaith eu bod o'r un uchder a chyfrannedd.

Er bod y filâu Fictoraidd yn Heol y Gogledd, Plas-y-parc, Llwyn y Parc a Maes yr Amgueddfa yn amrywio o ran eu harddull a'r deunyddiau adeiladu, maent yn cadw at yr un raddfa a chyfrannedd. Mynegir cymeriad unigol yr adeilad trwy ddefnyddio amrywiaeth eang o fanylion pensaernïol, gan gynnwys toeau talcennog gydag estyll tywydd wedi'u cerfio, cornisiau addurnol uwchlaw carreg Pennant neu stwco wedi'i baentio. Mae triniaethau carreg syml neu gerfiedig yn addurno baeau, bwâu, cynteddau, canopïau a cholonadau.

Mae'r eiddo yn Sgwâr y Frenhines yn dilyn yr arddull Neo-Sioraidd. Maent wedi'u hadeiladu mewn brics coch gyda thoeau ar oleddf isel, ac mae iddynt gymesuredd cryf gyda ffenestri bae crwm bob ochr i'r mynedfeydd addurnol a balconïau ar y llawr cyntaf. Er bod rhai manylion gwreiddiol wedi diflannu, cadwyd llawer o gymeriad gwreiddiol y datblygiad.









- Bute Park.
- Friary Gardens.
- Alexandra Gardens.
- Fountain at City Hall Lawn.



Neuadd Aberdâr: Brics gyda thriniaethau teracota gyda chymeriad Jacobeaidd cryf.



Defnyddiwyd brics a charreg i addurno'r ddormer dalcennog hon ym Mhlas-y-Parc.



Mae talcennau gyda ffenestri bae ynddynt yn gyffredin ym Mhlas-y-Parc. Mae'r un hon, o frics, yn defnyddio ymyl grisiog serth.



Tyrau a meindyrau wedi'u pentyrru ar gornel dde-orllewinol y castell.



Mae tŵr cloc Neuadd y Ddinas yn llawn gwaith cerfio coeth.



Mae cerfluniau ffigurol yn rhan bwysig o'r Ganolfan Ddinesig.



34 Plas-y-Parc: ffenestr oriel o garreg Caerfaddon yn edrych allan dros Faes yr Amgueddfa.



Twred wedi'i orchuddio â phlwm ar gornel ym Mhlas-y-Parc.



Mae'r grŵp morol hwn yn addurno Neuadd y Ddinas.



Tai pâr ar
Heol y Gogledd.



Cyntedd o garreg Caerfaddon ar Blas-y-Parc gyda charreg Pennant tu cefn iddo.



Corneli amgrwm bargodol Cwad y Brifysgol.



Ffenestri metel yn creu manylion gosgeiddig ar gyfer adeilad.



Bae stwco o ganol y 19eg Ganrif gyda gorffeniad addurnol.



Ffenestri efydd tal tu ôl i 4 piler sgwâr yn y Deml Heddwch.



Mynedfa fwaog gothig
ym Mhlas-y-Parc.




Arysgrifiad 'Villa Cardiff'
yn Neuadd y Ddinas.



Ffenestri plwm o fewn
bae carreg.

# 2.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel









- Coed Stryd Aeddfed a Phlanhigion Dros dro
- Ymylfeini Pennant
- Rheiliau 'Y Ddraig sy'n Cysgu' tu allan i Adeilad y Gofrestrfa
- Cerflun o John Cory yng Ngerddi'r Orsedd

## Tirlunio Meddal

Mae Ardal Gadwraeth Parc Cathays yn manteisio ar nifer o fannau cyhoeddus agored, gan gynnwys Parc Bute, Llain y Castell, Gerddi Alexandra, Gerddi'r Orsedd, Gerddi'r Brodordy a Lawnt Neuadd y Ddinas. Mae'r mannau hyn yn cynnwys amrywiaeth o fannau gwyrdd wedi'u cynnal a chadw yn dda, gyda gerddi lawnt, gwelyau blodau lliwgar a choed aeddfed. Mae llawer o'r ffyrdd a'r rhodfeydd ledled yr ardal â lleiniau glas eang ar hyd eu hymylon, tra bo'r adeiladau o fewn y Ganolfan Ddinesig wedi'i hamgylchynu â lawntiau taclus.

Mae'r coed stryd yn rhan bwysig o gymeriad yr ardal. Plannwyd y coed gan Ystâd Bute cyn i'r Ganolfan Ddinesig gael ei gwerthu i Gorfforaeth Caerdydd, a rhoddwyd cyfamod ar y tir yn mynnu bod y coed hyn yn cael eu cadw.

## Tirlunio Caled

Mae ardaloedd helaeth o gerrig pafin ac ymylfeini pennant hanesyddol yn yr Ardal Gadwraeth, sy'n ychwanegu at ansawdd a gwead y strydluniau. Mae hefyd yn ategu'r defnydd eang a wneir o waliau ffiniol tywodfaen Pennant. Mae'r defnydd o bafin concrit yn fwy cyffredin yn y mannau lle ymgymerwyd â chynlluniau gwella priffyrdd, ac nid yw hyn yn cyfrannu ar gymeriad yr ardal.

Mae celfweithiau cyhoeddus wedi'u lleoli ledled yr ardal. Roedd ymgorffori celf mewn adeiladau yn arbennig o boblogaidd rhwng diwedd yr 1800au a dechrau'r 1900au, ac wrth i'r Ganolfan Ddinesig gael ei datblygu daeth celfweithiau yn rhan annatod o ffasadau adeiladau ledled yr ardal, gan gynnwys Neuadd y Ddinas, y Llysoedd Barn a'r Amgueddfa Genedlaethol. Roedd y celfweithiau cynnar, a welir heddiw yn sefyll ar ben eu hunain, ar ffurf cofebion, gweithiau coffaol a delwau yn cynrychioli ffigyrau a digwyddiadau hanesyddol pwysig, ac maent hwythau hefyd yn rhan bwysig o ffabrig y Ganolfan Ddinesig. Yn ychwanegol at y celfweithiau cyhoeddus hanesyddol, mae cyfres o ddarnau mwy diweddar wedi'u hymgorffori i adeiladau a mannau cyhoeddus, gan gynnwys nifer o gerfiadau pren a welir ledled Parc Bute.

# 3 materion perthnasol a chyfleoedd

## 3.1 Addasiadau i Adeiladau

### Materion

- Oherwydd diflaniad manylion pensaernïol fel ffenestri, balconïau a rheiliau gwreiddiol, collwyd peth o gymeriad ac amharwyd ar ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth ym Mhlas-y-Parc, Maes yr Amgueddfa a Llwyn y Parc.

- Mae nifer o eiddo wedi'u hestyn i'r cefn. Nid yw graddfa ac arddull gwaith newydd bob amser yn cyd-fynd â graddfa a chyd-destun y terasau Fictoraidd a'r grid dinesig tynn y maent wedi'u gosod ynddo.

- Mae parcio masnachol tu ôl i Blas-y-Parc a Maes yr Amgueddfa wedi golygu colli waliau ffiniol a graddfa a rhythm gosodiad y plotiau cynnar.

- Mae colli waliau terfyn blaen wedi cael effaith sylweddol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth ac ar y diffiniad o fannau cyhoeddus a phreifat trwy'r ardal. Mae difrod wedi digwydd i gopin rhai o'r waliau carreg Pennant, ac mae tystiolaeth y byddent wedi cynnal rheiliau yn wreiddiol.

- Collwyd rhai ffenestri gwreiddiol yn Sgwâr y Frenhines Anne, a gosodwyd ffenestri upvc â gwydr dwbl yn eu lle.

- Oherwydd natur y defnyddiau masnachol a chymunedol yn yr ardal, gall fod angen gwella'r mynediad at rai adeiladau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

### Cyfleoedd i Wella

- Sicrhau bod newidiadau i adeiladau (gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â hysbysebu a manylion ffasgia) yn cael eu gwneud gan ystyried dyluniad a chymeriad gwreiddiol yr adeilad.
  Yn benodol, sicrhau bod lloriau gwaelod a lloriau uchaf yn cydweddu o ran cyfrannedd, nodweddion a'r defnydd o ddeunyddiau addas, fel bod y llawr gwaelod yn gydnaws â'r lefelau uchaf a'r adeilad yn cael ei weld fel un uned gyfan.

- Byddai cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4[2] ar gyfer mân newidiadau o fewn Sgwâr y Frenhines Anne yn gymorth ar gyfer cadw gweddill y ffenestri gwreiddiol ac amddiffyn y lawntiau agored o flaen yr eiddo.

- Dylai datblygiadau ac addasiadau i adeiladau fod yn gydnaws â'r eiddo cyfagos (yn enwedig pan fônt yn rhan o grŵp). Dylai unrhyw addasiadau ymgorffori deunyddiau o ansawdd uchel wedi'u cyfuno â nodweddion a chynllunio pensaernïol o ansawdd uchel sy'n gydnaws ag adeiladau hanesyddol a chymeriad yr Ardal Gadwraeth.







- Addasiadau i Ffasadau Adeiladau
- Colli Waliau Terfyn Gwreiddiol
- Colli Waliau Terfyn Gwreiddiol i wneud lle parcio









- Llefydd Parcio ar hyd Heol y Gogledd
- Parcio ar y Stryd ar hyd Rhodfa'r Brenin Edward VII
- Cerflun o Godfrey, Is-iarll Cyntaf Tredegar
- Y fynedfa i Orsaf Rheilffordd Cathays

- Dylid annog ailgyflwyno cyrtiau blaen, waliau terfyn a gerddi wrth i'r cyfleoedd datblygu godi, er mwyn helpu i adfer cymeriad yr Ardal Gadwraeth a lleihau effaith ffisegol llefydd parcio cerbydau mewn mannau a fu gynt yn erddi.

## 3.2 Tir y Cyhoedd

### Materion

- Bu anghysondeb wrth adfer deunyddiau pafin. O ganlyniad, collwyd cerrig pafin/ymylfeini Pennant, a chrëwyd clytwaith o arwynebau tarmac yn y Ganolfan Ddinesig.
- Mae rhai o'r celfi stryd a'r arwyddion i gerddwyr wedi dyddio, yn anghydlynol ac wedi'u lleoli'n wael (mewn mannau) a gall greu annibendod gweledol a ffisegol ar y strydoedd.
- Mae'r ffordd gerbydau brysur ar hyd Heol y Castell/Heol y Dug yn effeithio ar leoliad y brif fynedfa i Gastell Caerdydd ac ar y cysylltiadau i gerddwyr sy'n dod o / mynd i'r ardaloedd o amgylch.
- Mae tir y cyhoedd tu allan i Orsaf Rheilffordd Cathays yn ddisylw, yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau pafin ac yn dioddef gan ddiffyg arwyddion stryd i'w hyrwyddo ym Mharc-y-Plas.
- Ar hyd ochr orllewinol Heol y Gogledd, mae lleoliad y llwybrau troed, llwybrau seiclo a'r defnydd o folardiau concrit yn effeithio ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal ac ar yr amgylchedd i gerddwyr.
- Mae'r cerfluniau coffaol i'r de o Lawnt Neuadd y Ddinas yn agored i ddifrod gan graffiti a fandaliaeth.
- Defnyddir tir y Ganolfan Ddinesig yn helaeth ar gyfer parcio ceir ar y stryd; fodd bynnag, mewn rhai lleoliadau gall effeithio ar leoliad y mynedfeydd i barciau ac adeiladau allweddol.
- Mae rhai o'r mynedfeydd i Barc Bute (ar hyd Heol y Gogledd) yn ddisylw ac wedi'u lleoli oddi wrth y ffordd, tu ôl i lefydd parcio ceir.

### Cyfleoedd i Wella

- Dylai cynlluniau ar gyfer tir y cyhoedd fod wedi'u dylunio'n dda er mwyn diwallu anghenion modern gan ategu adeiladau a chyd-destun hanesyddol yr ardal ar yr un pryd.
- Byddai celfi stryd a deunyddiau pafin o garreg naturiol yn ategu cymeriad hanesyddol ac ymddangosiad y strydoedd o fewn canol y ddinas.
- Dylid gwella tir y cyhoedd tu allan i Gastell Caerdydd a gwella'r cysylltiadau i gerddwyr yn y cyffyrdd rhwng Heol-y-frenhines a Heol Eglwys Fair.
- Gwella'r amgylchedd i gerddwyr ar hyd ochr orllewinol Heol y Gogledd, trwy greu llwybr cerdded/seiclo cyson, lleihau'r annibendod a gwella ffiniau'r maes parcio.

- Amddiffyn cerfluniau hanesyddol ac atal fandaliaeth, (gan gadw cymeriad ac ymddangosiad gwreiddiol y cerfluniau).

- Gwella'r gofod tu allan i Orsaf Rheilffordd Cathays trwy wella'r pafin, ymgorffori gwybodaeth i ymwelwyr a gwella'r arwyddion cyfeirio yn y cyffiniau er mwyn hyrwyddo ei leoliad.

- Lleihau annibendod stryd ledled yr ardal; cael gwared ar unrhyw gelfi stryd diangen ac adolygu lleoliad a gosodiad y celfi stryd presennol.

- Gwella lleoliad mynedfeydd i barciau ac adeiladau allweddol.

- Hyrwyddo, ategu a gwella lleoliad y mynedfeydd cerddwyr i Barc Bute ar hyd Heol y Gogledd.

# 3.3 Symudiad

## Materion

- Nid yw'r arwyddion cerddwyr cyfredol o fewn yr Ardal Gadwraeth yn hyrwyddo llwybrau i ardaloedd ac atyniadau cyfagos.

- Mae diffyg hyrwyddo ar y danffordd rhwng y Llys Barn a Chastell Caerdydd (o dan Heol y Gogledd) sy'n darparu cyswllt rhwng y Ganolfan Ddinesig a Pharc Bute.

- Nid oes digon o hyrwyddo oddi mewn i'r Ganolfan Ddinesig ar y llwybrau trwy Barc Bute i Erddi Sophia a Glanfa Tacsi Dŵr Parc Bute.

- Mae lleoliad yr ynysoedd croesi yn y gyffordd rhwng Plas-y-Parc a Boulevard de Nantes yn effeithio ar symudiad cerddwyr rhwng y Ganolfan Ddinesig a Heol-y-Frenhines.

## Cyfleoedd i Wella

- Adolygu cynnwys a lleoliad arwyddion presennol i gerddwyr a hyrwyddo llwybrau i ardaloedd a chyrchfannau cyfagos trwy wella'r arwyddion a marciau ffordd.

- Gwella ymddangosiad y danffordd sy'n cysylltu'r Ganolfan Ddinesig â Pharc Bute a'i hyrwyddo'n well ar y stryd.

- O fewn y Ganolfan Ddinesig, hyrwyddo Parc Bute, ei atyniadau a'r cysylltiadau oddi yno i ardaloedd eraill megis Gerddi Sophia a Bae Caerdydd (ar y tacsi dŵr).

- Gwella'r cyfleusterau croesi yn y gyffordd rhwng Boulevard de Nantes a Phlas-y-Parc, er mwyn gwella'r cysylltiadau i gerddwyr rhwng y Ganolfan Ddinesig a chanol y ddinas.

# 3.4 Tirlunio

## Materion

- Mae'r rhesi o goed aeddfed ar hyd Rhodfa'r Brenin Edward VII a Rhodfa'r Amgueddfa yn un o'r nodweddion allweddol sy'n diffinio cymeriad a hunaniaeth y Ganolfan Ddinesig.









- Croesfan ar Boulevard de Nantes
- Palmant i gerddwyr ar hyd Heol y Gogledd
- Arwyddion cyfredol o fewn Parc Cathays
- Parcio yn union o flaen Prif Fynedfa Gerddi Alexandra









- Rhesi o Goed Aeddfed
- Lleiniau glas wedi'u difrodi
- Mynedfeydd disylw i Barc Bute
- Adeiliad Toiledau Cyhoeddus Rhestredig sy'n Segur

- Mae'r lleiniau glas ar hyd ymylon Rhodfa'r Amgueddfa a Rhodfa'r Brenin Edward VII yn agored i niwed gan gerbydau sy'n mynd i mewn i gyrtiau blaen a cherddwyr sy'n mynd at geir sydd wedi'u parcio.

- Gall digwyddiadau mawr beri difrod i'r glaswellt ym Mharc Bute, y Ganolfan Ddinesig a Lawnt Neuadd y Ddinas.

### Cyfleoedd i Wella

- Trwy reoli coed a rhaglenni plannu, parhau i gynnal a chadw a gwella'r coed ar hyd Rhodfa'r Brenin Edward VII a Rhodfa'r Amgueddfa.

- Ailosod a chynnal a chadw mannau glas sydd wedi gwisgo neu wedi'u difrodi ledled yr ardal, ac ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer amddiffyn y mannau lle gellid ailadrodd y difrod.

- Bwrw ymlaen â gweithredu argymhellion Cynllun Adfer a Datblygu Parc Bute, a gyllidir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (Mawrth 2005 / diweddarwyd Mawrth 2006) a chynlluniau cynnal a chadw a rheoli cysylltiedig, gan gynnwys y cynllun rheoli digwyddiadau.

- Paratoi a gweithredu cynllun adfer a datblygu ar gyfer parciau Canolfan Ddinesig Parc Cathays yn unol â'r Rhaglen Partneriaeth Parciau (2004).

## 3.5 Hunaniaeth Leol

### Materion

- Ychydig o hyrwyddo ar y stryd sydd o gyd-destun hanesyddol y Ganolfan Ddinesig a'i hadeiladau amlwg.

- Mae'r adeilad toiledau rhestredig yn Rhodfa'r Amgueddfa yn segur bellach, ac yn agored i niwed gan graffiti a fandaliaeth.

- Mae Camlas Gyflenwi'r Dociau ar hyd Boulevard de Nantes wedi'i chuddio tu ôl i ddeiliant sydd wedi tyfu'n wyllt ac mae diffyg hyrwyddo a gwybodaeth ddehongli ar y safle.

- Mae olion Tŷ'r Brodyr Duon o fewn Parc Bute yn agored i niwed ac nid oes gwybodaeth ddehongli ddigonol ar y safle.

- Roedd y waliau hanesyddol ar hyd Heol y Gogledd yn rhan o ffiniau gwreiddiol Parc Bute, ond bellach maent wedi'u hynysu tu ôl i'r briffordd a'r llefydd parcio.

### Cyfleoedd i Wella

- Cadw a gwella nodweddion strydlun hanesyddol yr ardal, megis cerrig pafin Pennant, celfi stryd, waliau ffiniol, lleiniau ymyl glas a rhodfeydd coed.

- Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o dreftadaeth yr ardal, boed yn bensaernïol neu'n naturiol, trwy gyflwyno gwybodaeth ddehongli ac arwyddion / gwybodaeth i dwristiaid ar y safle.

- Ymchwilio i ddefnyddiau eraill posibl ar gyfer bloc toiledau segur Rhodfa'r Amgueddfa a chyfleoedd ar gyfer rhoi defnydd newydd, buddiol iddo.

- Gwella lleoliad/ymddangosiad Camlas Gyflenwi'r Dociau ar hyd Boulevard de Nantes drwy well rheolaeth a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd trwy gyflwyno arwyddion dehongli.

- Cadw a gwella olion Tŷ'r Brodyr Duon o fewn Parc Bute a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd trwy gyflwyno arwyddion dehongli.



# Heol Charles

# cynnwys

## 1. CYFLWYNIAD..............................................

## 2. ASESU CYMERIAD YR ARDAL.......................

2.1 Ansawdd Nodedig y Lle
- 2.1.1 Grwpiau o Adeiladau
- 2.1.2 Graddfa
- 2.1.3 Rhythm
- 2.1.4 Patrymau Defnydd
- 2.1.5 Golygfeydd
- 2.1.6 Symudiad

2.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod
2.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat
2.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun
2.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel
2.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel


## 3. MATERION PERTHNASOL A CHYFLEOEDD...

3.1 Addasiadau i Adeiladau
3.2 Tir y Cyhoedd
3.3 Symudiad
3.4 Hunaniaeth Leol
3.5 Golygfeydd
3.6 Tirlunio

## 1.1 Cyflwyniad

Dynodwyd Heol Charles yn Ardal Gadwraeth ym mis Hydref 1988, gan gydnabod ansawdd hanesyddol a phensaernïol adran ddeheuol y stryd, sy'n dyddio o'r 1850au.

## Map1: Ffin Ardal Gadwraeth Heol Charles, dynodwyd 1988



# 2 asesu cymeriad yr ardal







- Tai tref 3 Llawr
- Teras o ganol y 19eg ganrif
- Eglwys Ebeneser

## 2.1 Ansawdd Nodedig y Lle

### 2.1.1 Grwpiau o Adeiladau

Tynnwyd ffiniau tynn i'r Ardal Gadwraeth, er mwyn cynnwys wynebau blaen cynnar ochr orllewinol y stryd â'r ochr ddwyreiniol, sy'n fwy tameidiog. Mae'n canolbwyntio ar ddau addoldy ac eiddo preswyl gynt, o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Oddi mewn iddi mae nifer o grwpiau nodedig o adeiladau gan gynnwys:

- 31-39 Heol Charles, teras o bedwar tŷ tref tri llawr o ganol a diwedd y 19eg ganrif, sydd wedi'u rendro yn yr arddull Eidalaidd.
- 55-61 Heol Charles a 71 Heol y Bont, teras deulawr o 5 eiddo o'r 19eg ganrif mewn arddull clasurol syml. Mae'r teras hwn yn gorffen gyda chornel daclus yn Heol y Bont.
- 47-53 Heol Charles, datblygiad o ddiwedd yr 20fed ganrif.
- 52-62 Heol Charles, teras tri llawr o dai stwco yn yr arddull Eidalaidd o'r 19eg ganrif.

I'r gogledd o'r ardal gadwraeth mae Eglwys Gadeiriol Gatholig Fetropolitan Dewi Sant a'i hadeilad claeruwchdwr ategol ac Eglwys Ebeneser. Gyda'i gilydd maent yn creu rhaniad effeithiol rhwng stryd siopa brysur Heol-y-Frenhines ac awyrgylch dawelach Heol Charles i'r de.

### 2.1.2 Graddfa

Er bod y ddwy eglwys yn goruchafu ar ran ogleddol yr Ardal Gadwraeth, diffinnir graddfa'r adeiladau yn bennaf gan derasau o 2 neu 3 tŷ tref Fictoraidd.

Er nad yw'n sylweddol, mae amrywiaeth yn uchderau'r adeiladau ar ochr orllewinol y stryd. Pwyslais fertigol pob uned o fewn y teras yw'r nodwedd fwyaf amlwg sy'n clymu'r grwpiau hanesyddol hyn at ei gilydd.

Mae dau adeilad masnachol mawr i'r de o'r stryd; Y Ganolfan Waith, sydd y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, a bloc a adeiladwyd ar ddiwedd y 1990au sy'n ymwthio ymlaen oddi wrth y llinell adeiladu sefydledig.

### 2.1.3 Rhythm

Mae rhythm pendant i'r blociau hanesyddol o derasau ar Heol Charles, a bwysleisir gan led unffurf y plotiau, taldra'r adeiladau a'r defnydd o lin-gyrsiau a pharapetau dyrchafedig wedi'u mowldio. Mae'r manylion clasurol yn cael eu hailadrodd er mwyn ategu cyfansoddiad pob adeilad a chreu pwyslais fertigol ar gyfer pob teras cynnar. Ar y cyfan, maent yn cynnig cipolwg prin ar gymeriad Caerdydd cyn i'r ddinas ehangu ar ddiwedd y 19eg ganrif.

### 2.1.4 Patrymau Defnydd

Datblygwyd Heol Charles yn wreiddiol fel tai yn arwain o Crockherbtown (Heol-y-Frenhines bellach) i'r de tuag at Heol y Bont. Mae cofnodion o'r 1870au ymlaen yn dangos bod presenoldeb busnesau yn cynyddu a rhai o'r tai preswyl gogleddol yn cael eu colli wrth i'r eiddo ar Heol-y-Frenhines ehangu. Nid oes unrhyw eiddo preifat yn yr Ardal Gadwraeth erbyn heddiw, a'r prif ddefnydd o eiddo yno yw swyddfeydd, siopau, bariau, clybiau a thai bwyta.

Mae'r ddwy eglwys a'r Tŷ Cwrdd yn rhan bwysig o gymuned canol y ddinas: Eglwys Dewi Sant yw prif Eglwys Gadeiriol Gatholig Cymru; bellach, defnyddir Eglwys a Neuadd Ebeneser ar gyfer projectau cymunedol a chyfarfodydd.

Y prif newidiadau ffisegol a wnaed oherwydd newid defnydd a chymeriad y stryd yw adeiladu estyniadau tu ôl i rai o'r eiddo a thynnu ffiniau a thrawsnewid gerddi i gael llefydd parcio preifat.

## 2.1.5 Golygfeydd

Yr olygfa bwysicaf o'r Ardal Gadwraeth yw'r un sy'n edrych tua'r gogledd at Heol-y-Frenhines. Mae'r eglwysi yn fframio'r olygfa wrth iddynt gysylltu â Phlas yr Eglwys a Chanolfan Dewi Sant.

Mae pwyslais fertigol i'r terasau ar y naill ochr a'r llall i'r stryd. Yr unig eiddo sy'n tarfu ar y pwyslais hwn yw'r adeiladau masnachol cyfoes i'r de a'r Tŷ Cwrdd a'r ardd o'i amgylch.

## 2.1.6 Symudiad

Er bod Heol Charles yn llwybr pwysig i gerddwyr gyrraedd Heol-y-Frenhines, nid yw cerbydau yn cael teithio mwyach ar ei hyd i gyrraedd Heol-y-Frenhines, ac mae traffig yn terfynu yn y pwynt troi wrth ymyl Plas yr Eglwys. Fodd bynnag, defnyddir Heol Charles ar gyfer parcio, dosbarthu nwyddau a chael mynediad i Lôn Wesley a Phlas yr Eglwys. Mae Heol Charles yn llwybr i gerddwyr o Heol-y-Frenhines i'r ardal i'r de o Heol y Bont i Ganolfan Dewi Sant a Dewi Sant 2 (DS2).

Mae ardal Heol Charles yn ffurfio rhan o lwybr posibl o'r dwyrain i'r gorllewin trwy ganol y ddinas, yn arwain o Ynys yr Aes yn y gorllewin i Orsaf Heol-y-Frenhines yn y dwyrain. Fodd bynnag, mae ansawdd gwael y ffordd/palmant wrth ochr a chefn Eglwys Ebeneser yn effeithio ar hyn, ac mae gosodiad cyson y filâu pâr ar hyd Ffordd Churchill yn rhwystro mynediad i gerddwyr ar hyn o bryd.

## Map 2: Symudiad




## 2.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod

Y ddwy eglwys restredig yw'r adeiladau tirnod yn yr Ardal Gadwraeth. Y rhain yw Eglwys/Capel Ebeneser ac Eglwys Gadeiriol Gatholig Dewi Sant.









- Eglwys Gadeiriol Dewi Sant
- Y Tŷ Cwrdd
- Cyffordd Heol Charles a Heol-y-Frenhines
- Yr Olygfa tua'r gogledd ar hyd Stryd yr Eglwys






## Capel, Ysgoldy a Wal Ffiniol Ebeneser (29 Heol Charles):

Cynlluniwyd Capel Ebeneser gan R G Thomas o Gasnewydd, ac fe'i agorwyd yn 1855. Mae wedi'i adeiladu yn yr arddull Gothig ac mae ei wyneb wedi'i orchuddio gan rwbel amryliw gyda thriniaethau a manylion Carreg Caerfaddon. Mae'r adeilad yn nodedig oherwydd y bwtresi bwaog ar lefel y llawr a'r colfachau haearn gyr addurnol nodedig ar y drysau. Mae'r Ysgoldy yn y cefn a'r wal ffiniol sy'n amgáu'r tir wedi'u hadeiladu mewn arddull tebyg. Mae'r lleiniau glaswelltog sy'n amgylchynu'r eglwys yn lleoliad deniadol ar gyfer eglwys, y gwaith cerrig lliwgar a'r bwtresi cynhaliol.





## Eglwys Gadeiriol Gatholig Dewi Sant (36 Heol Charles):

Fe'i hadeiladwyd yn 1884-1887 gan y Pugin ieuaf o Benseiri Pugin a Pugin, fel eglwys blwyf Gatholig. Dyrchafwyd ei statws i Eglwys Gadeiriol yn 1920. Mae wedi'i hadeiladu o garreg Pennant ag arwyneb creigiog a naddiadau tywodfaen coch. Ailddyluniwyd y tyrau a'r tyredau wedi iddynt gael eu dinistrio gan fom, a chodwyd y twr copr yn lle'r hen glochlofft. Mae'r carregwaith yn glir ac o ansawdd uchel, ond mae'n tywyllu'r strydlun.

## 2.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

Mae'r mannau cyhoeddus a phreifat yn cael eu diffinio'n glir o flaen yr adeiladau, lle mae waliau a rheiliau yn amgáu cyrtiau ac isloriau.

Er bod rhai o'r rheiliau a'r waliau yn wreiddiol, mae nifer wedi diflannu neu'u hamnewid; amnewidwyd y rhain fel rhan o gynllun gwella yn yr 1980au. Yn y cefn, mae pwysau am lefydd parcio wedi golygu colli rhai o'r ffiniau, colli gerddi cefn a chreu mynediad i gerbydau i Blas yr Eglwys a Lôn Wesley.

## 2.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

Mae Heol Charles yn un o'r ychydig ardaloedd yng nghanol y ddinas sydd wedi cadw tai o'r 19eg ganrif wedi'u hadeiladu mewn arddull Eidalaidd syml. Mae wynebau stwco'r adeiladau yn rhan bwysig o gymeriad arbennig yr ardal ac maent yn ein hatgoffa o hanes cynnar y ddinas. Mae'r rhan fwyaf wedi'u cynnal a chadw yn dda er bod nifer o arwyddion a blaen siopau o ddyluniad gwael wedi'u hychwanegu. Mae ychydig o ychwanegiadau diweddarach i'r stryd: Adeiladwyd y Tŷ Cwrdd ym 1888 ac mae arno wyneb carreg Pennant creigiog mewn arddull gothig. Mae datblygiad masnachol diweddarach wedi'i leoli i'r de. Mae ganddo wyneb o friciau melyn a tho 'mansard' trwm gyda manylion clasurol ychwanegol ar y drysau, baeau a ffenestri. Oherwydd maint yr adeilad hwn, a llinell drom y to nid oes iddo'r un graddfa a mynegiant a'r terasau sydd bob ochr iddo.

## 2.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

Heol Charles yw un o strydoedd cynharaf y ddinas ac mae nifer o grwpiau o dai deniadol o ganol y 19eg ganrif yno. Maent wedi'u hadeiladu o frics gan amlaf ac wedi'u rendro gyda stwco a thoeau llechen bas y tu ôl i barapetau addurnedig. Er bod pob tŷ tref neu grŵp o dai yn unigryw, maent yn rhannu nifer o nodweddion cyffredin yr arddull clasurol syml neu Eidalaidd. Maent yn cynnwys cornisiau braced, balconïau a rheiliau haearn gyr a mowldinau a phendrawstiau addurnol o amgylch drysau a ffenestri. Mae'r rhan fwyaf o'r ffenestri yn ffenestri dalennog ac fe'u diogelir gan gornisau braced neu gerrig diddos. Mae rhai wedi cadw eu ffenestri Fenisaidd teir-ran gyda mowldin o'u hamgylch.

Defnyddiwyd ymdriniaeth gymedrol o liw yn y stryd, ac mae'r rhan fwyaf o dai wedi'u paentio mewn lliwiau pastel. Mae'r prif newidiadau i adeiladau wedi'u gwneud ar y lloriau gwaelod. Yma, mae nifer o ffenestri wedi'u hamnewid â blaen siopau neu arddangosfeydd ffenestri neu arwyddion.

Mae'r Tŷ Cwrdd nodweddiadol wedi'i adeiladu gyda charreg Pennant wyneb criegiog mewn arddull gothig, ac fe'i ategir gan naddiadau carreg Caerfaddon a baeau â ffenestri dalennog sy'n llithro.

Mae 42 Heol Charles o gyfnod mwy diweddar ac mae'n anghyffredin yn y stryd gan fod ganddo wyneb bric ac yn rhedeg holl hyd y plot.



Adeilad wedi'i rendro gyda manylion stwco a ffenestri dalennog sy'n llithro.



Ffenestr ddalennog llawr cyntaf gyda 12 cwarel a phendrawst stwco.



Ffenestr Fenisaidd teir-ran.



Ffenestri yn yr arddull Eidalaidd gyda chornis braced a philastrau rhesog.



Balconi haearn gyr ar draws tri drws ffenestr o gan gornisau braced.



Cyntedd agored gyda bandiau pedeirdalen a cholofnau gyda modrwyennau a phennau colofn deiliog.




Cornis braced uwchben ffenestr.



Wyneb haearn amgrwm ar draws ffenestr llawr cyntaf.



Rheiliau haearn o flaen eiddo.

# 2.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

## Tirlunio Caled

Mae'r stryd wedi'i phedestreiddio yn rhannol. O fewn yr Ardal Gadwraeth mae'r cerrig pafin traddodiadol wedi'u hamnewid â deunyddiau synthetig, o ddiwedd yr ugeinfed ganrif sydd wedi dirywio yn eu hymddangosiad. Amlygir hyn gan y defnyddiau naturiol a ddefnyddiwyd mewn dau gynllun diweddar i wella tir y cyhoedd.

Mae'r lonydd cefn mewn cyflwr gwael ac mae'r coblau wedi'u gorchuddio/clytio gan darmac.

## Coed a Thirlunio Meddal

Ychwanegwyd coed at y strydlun ac maent yn gwella ansawdd amgylcheddol y stryd yn sylweddol.

Mae'r ardd o gwmpas y Tŷ Cwrdd yn ychwanegu at anffurfioldeb yr eiddo sengl hwn, ac mae'n doriad hyfryd o'r olygfa stryd ffurfiol, yn yr un modd â'r lleiniau glaswelltog o amgylch Eglwys Ebeneser.









- Cerrig pafin safonol ar hyd Heol Charles
- Cerrig pafin newydd ar Rodfa'r Eglwys Gadeiriol
- Coed yn cyfrannu at gymeriad yr ardal
- Y lleiniau glas o amgylch Eglwys Ebeneser

# 3 materion perthnasol a chyfleoedd







- Blaen adeiliad a newidiwyd ar y llawr gwaelod
- Baner ormesol ac arddangosfeydd ffenestri
- Ffasad gwreiddiol

## 3.1 Addasiadau i Adeiladau

### Materion

- Oherwydd colli manylion pensaernïol fel ffenestri, balconïau a rheiliau gwreiddiol, ac addasiadau, amhriodol collwyd peth o gymeriad ac amharwyd ar ymddangosiad adeiladau hanesyddol a rhannau o'r Ardal Gadwraeth.

- Mae colli ffiniau blaen wedi cael effaith sylweddol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth ac ar y diffiniad o fannau cyhoeddus a phreifat.

- Mae defnyddiau masnachol yn creu galw am arwyddion i hyrwyddo eu presenoldeb; ond mae arwyddion sydd wedi'u cynllunio'n wael yn gallu cael effaith negyddol ar gymeriad ac ymddangosiad yr adeilad a'r Ardal Gadwraeth.

- Oherwydd natur y defnyddiau masnachol a chymunedol yn yr ardal, gall fod angen gwella'r mynediad at rai adeiladau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. O ran Adeiladau 'Rhestredig' yn enwedig, bydd yn rhaid ystyried hyn gyferbyn â'r hyn sy'n 'rhesymol' yn nhermau gwella mynediad ac effaith unrhyw ymyrraeth angenrheidiol ar rinwedd pensaernïol yr adeilad.

### Cyfleoedd i Wella

- Sicrhau bod addasiadau i adeiladau (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â hysbysebu a manylion ffasgia) yn cael eu gwneud gan ystyried cynllun a chymeriad gwreiddiol yr adeilad. Yn benodol, sicrhau bod lloriau gwaelod a lloriau uchaf yn gydnaws â'i gilydd o ran cyfrannedd a nodweddion, a defnyddio deunyddiau addas fel bod y llawr gwaelod yn gydnaws â'r lefelau uchaf a bod yr adeilad yn cael ei weld fel un uned gyfan.

- Sicrhau bod datblygiadau/addasiadau i'r adeilad yn gydnaws â'r eiddo cyffiniol (yn enwedig pan fyddant yn rhan o grŵp), ac â chyd-destun hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.

- Sicrhau bod unrhyw newidiadau yn defnyddio deunyddiau o ansawdd uchel wedi'u cyfuno â nodweddion a chynllunio pensaernïol sy'n gydnaws â'r adeiladau hanesyddol a chymeriad yr Ardal Gadwraeth.

- Sicrhau bod nodweddion gwreiddiol adeiladau hanesyddol yn cael eu cynnal a chadw, eu glanhau a'u hadnewyddu'n sensitif er mwyn amddiffyn a gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

- Ceisio cadw a gwella cymeriad hanesyddol y stryd a'r diffiniad o fannau cyhoeddus a phreifat trwy gadw ac adfer ffiniau cwrt blaen o ansawdd uchel.

- Adolygu'r canllawiau dylunio ar gyfer blaen siopau ac arwyddion adeiladau, yn enwedig arwyddion masnachol, i amddiffyn cymeriad arbennig yr ardal.

- Sicrhau mynediad corfforol i adeiladau hanesyddol heb ddinistrio'u rhinwedd bensaernïol nac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

# 3.2 Tir y Cyhoedd

## Materion

- Mae diffyg cysondeb wrth gynnal a chadw tir y cyhoedd wedi arwain at golli cerrig pafin hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.
- Nid yw ansawdd gwael y palmant a'r ffordd wrth ochr Eglwys Ebeneser yn ychwanegu at yr ardal o amgylch yr adeiladau hanesyddol na chymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Mae lle i wella tir y cyhoedd er mwyn gwella'r cysylltiadau i gerddwyr i Ganolfan Dewi Sant 2 a Heol y Bont, yn ogystal â chyd-destun hanesyddol yr ardal.
- Mae parcio ar y stryd a'r tagfeydd cysylltiedig yn amharu ar gymeriad hanesyddol yr ardal.
- Mae Lôn Wesley mewn cyflwr gwael gyda setiau/arwynebau coblau wedi'u gorchuddio â deunyddiau eraill.

## Cyfleoedd i Wella

- Defnyddio dulliau dylunio sy'n cynnal cynlluniau tir y cyhoedd fel eu bod yn diwallu anghenion modern ac yn ategu adeiladau a chyd-destun hanesyddol yr ardal.
- Annog defnyddio celfi stryd o ansawdd uchel a deunyddiau pafin naturiol, fel carreg pennant, sy'n cyfrannu at, ac yn parchu cymeriad yr Ardal Gadwraeth, y cyd-destun hanesyddol ac adeiladau rhestredig. Yn achos lonydd cefn, cydnabod arwyddocâd setiau/coblau gwreiddiol a chynllun ar gyfer eu cadw.
- Ceisio gwella ardaloedd o dir y cyhoedd sydd wedi dirywio yn eu hymddangosiad/yn amharu ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Sicrhau bod unrhyw gelfi stryd newydd (gan gynnwys arwyddion) yn ategu ac yn briodol ar gyfer pensaernïaeth a lleoliad yr Ardal Gadwraeth.
- Ceisio cael gwared ar unrhyw gelfi stryd diangen a gormodol (gan gynnwys arwyddion), ac adolygu lleoliad a gosodiad y celfi stryd presennol.
- Ceisio sicrhau nad yw unrhyw gelfi stryd (gan gynnwys arwyddion) yn cystadlu'n weledol â'r ffurfiau adeiledig a'r golygfeydd stryd.
- Ceisio gwella tir y cyhoedd i wella'r cyswllt cerddwyr i Ganolfan Dewi Sant 2 ac ailddiffinio cyd-destun hanesyddol yr ardal.
- Ceisio gwella tir y cyhoedd ar y gyffordd â Heol y Bont er mwyn rhoi gwell blaenoriaeth i gerddwyr, gwella'r golygfeydd a gwella darllenadwyedd.
- Ceisio cadw a gwella cymeriad hanesyddol y stryd trwy leihau effaith cerbydau sy'n defnyddio'r ardal.









- Canopi mynedfa
- Deunyddiau ffordd cyfredol
- Cerrig pafin digymeriad
- Y ffordd wrth ochr Eglwys Ebeneser










- Gwelliannau I'r palmant ar hyd Rhodfa'r Eglwys Gadeiriol
- Arwyddion i gerddwyr ar Heol-y-Frenhines
- Pafin hanesyddol o garreg Pennant ym Mhlas Windsor
- Tir y cyhoedd wrth ochr Eglwys Ebeneser

# 3.3 Symudiad

## Materion

- Nid oes llawer o arwyddion yn hyrwyddo cysylltiadau ag atyniadau ac ardaloedd cyfagos.
- Nid yw symudiadau cerddwyr yn cael eu helpu gan y cysylltiadau gwael o'r dwyrain i'r gorllewin i ardaloedd cyfagos fel Ffordd Churchill.

## Cyfleoedd i Wella

- Adolygu cynnwys a lleoliad unrhyw arwyddion cyfredol a hyrwyddo cysylltiadau ag ardaloedd a chyrchfannau cyfagos trwy wella'r arwyddion a marciau ffordd.
- Ceisio gwella'r cysylltiadau rhwng Heol Charles a Ffordd Churchill a mynediad cerbydau i gefn yr eiddo ar hyd Plas yr Eglwys a Lôn Wesley.

# 3.4 Hunaniaeth Leol

## Materion

- Nid yw cyd-destun hanesyddol yr ardal yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol ar y stryd.
- Nid yw llawn botensial pensaernïaeth ddiddorol yr adeiladau yn cael ei gyflawni o ran ei cyfraniad i dir y cyhoedd.

## Cyfleoedd i Wella

- Ceisio gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o dreftadaeth yr ardal a'r adeiladau rhestredig trwy gyflwyno a gwella arwyddion a gwybodaeth i dwristiaid.
- Ystyried goleuo adeiladau tirnod a therasau sy'n bwysig yn bensaernïol er mwyn diffinio'r mynedfeydd i'r ardal a chryfhau hunaniaeth nodedig yr Ardal Gadwraeth, gan bwysleisio'r cysylltiadau rhwng yr ardaloedd.

# 3.5 Golygfeydd

## Materion

- Mae'r ardal yn cynnwys nifer o adeiladau tirnod; ond mae strydlun gwael a'r cheir sy'n aros neu wedi'u parcio yn andwyo golygfeydd allweddol o'r adeiladau hyn.

## Cyfleoedd i Wella

- Ceisio gwneud y mwyaf o'r golygfeydd cyfredol o derasau hanesyddol ac adeiladau tirnod i'r gogledd.

# 3.6 Tirlunio

## Materion

- Coed y stryd ac ardaloedd glaswelltog/gardd Eglwys Ebeneser a'r Tŷ Cwrdd yw unig dirlunio meddal sydd yn yr ardal.

## Cyfleoedd i Wella

- Parhau â'r rhaglen ar gyfer cynnal a chadw coed y stryd, ailblannu coed lle bo angen ac annog cadw mannau gwyrddion preifat.



# Ffordd Churchill

# cynnwys


## 1. CYFLWYNIAD

## 2. ASESU CYMERIAD YR ARDAL

2.1 Ansawdd Nodedig y Lle
- 2.1.1 Grwpiau o Adeiladau
- 2.1.2 Graddfa
- 2.1.3 Rhythm
- 2.1.4 Patrymau Defnydd
- 2.1.5 Golygfeydd
- 2.1.6 Symudiad

2.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod
2.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat
2.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun
2.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel
2.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel


## 3. MATERION PERTHNASOL A CHYFLEOEDD

3.1 Addasiadau i Adeiladau
3.2 Tir y Cyhoedd
3.3 Symudiad
3.4 Hunaniaeth Leol
3.5 Tirlunio
3.6 Golygfeydd

## 1.1 Cyflwyniad

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Ffordd Churchill ar 27 Tachwedd 1991, gan gydnabod ei rhinweddau hanesyddol a phensaernïol yn wyneb pwysau cynyddol ar gyfer ailddatblygu yn yr ardal.

## Map 1: Ffiniau Ardal Gadwraeth Ffordd Churchill, dynodwyd 1991.



# 2 asesu cymeriad yr ardal

## 2.1 Ansawdd Nodedig y Lle


### 2.1.1 Grwpiau o Adeiladau

Mae deg pâr o filâu Fictoraidd yn creu tu blaen nodedig i'r adeiladau yn y stryd, gyda'r cyn Gapel yn angori'r olygfa ym mhen pellaf deheuol yr ardal. Adeiladau domestig oedd y rhain yn wreiddiol, ac nid oes llawer o newid wedi bod arnynt er eu bod bellach yn cael eu defnyddio gan fusnesau. Maent wedi aros yn gyson o ran graddfa, rhythm a deunyddiau ac maent yn rhannu'r un arddull bensaernïol.

### 2.1.2 Graddfa

Filâu Fictoraidd 3 llawr yw mwyafrif yr adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth a'r Capel mawreddog ar ffin ddeheuol y stryd.

Mae graddfa Ffordd Churchill (33m o led) yn creu strydlun agored, mawreddog. Roedd cynllun blaenorol y stryd yn wahanol iawn, gyda dŵr agored Ffos Gyflenwi Dociau Dwyrain Bute gyda'i rheiliau haearn ac offer cysylltiedig yn rhedeg ar hyd y stryd o'r gogledd i'r de. Mae ffurf bresennol y stryd, gyda dwy ffordd gerbydau, ardaloedd parcio a llain gadw yng nghanol y stryd, wedi bod yn eu lle er 1949 ac mae'n rhan bwysig ac arwyddocaol o strydlun Canol y Ddinas.





Ffordd Churchill, tua 1948





Ffordd Churchill, tua 2008

## 2.1.3 Rhythm

Crëir rhythm diffiniedig y datblygiadau yn yr Ardal Gadwraeth gan y plotiau, sydd yn debyg o ran eu maint i gynllun, ffurf a lleoliadau gwreiddiol yr adeiladau, gydag ychydig yn unig o amrywiad yn y pen gogleddol. Atgyfnerthir y rhythm hwn gan osodiad rheolaidd (bron) y drysau a ffenestri yn ffasadau'r filâu. Dim ond ychydig o'u prif nodweddion sy'n amrywio, er iddynt gael eu cynllunio gan nifer o benseiri annibynnol. Mae manylion fertigol y capel tirnod yn fan terfyn amlwg i olygfeydd y stryd ac fe'i cysylltir ag eiddo eraill trwy ddefnyddio'r un math o ddeunyddiau ac elfennau arddulliadol.

## 2.1.4 Patrymau Defnydd

Er bod yr ardal hon wedi ei datblygu'n wreiddiol ar gyfer tai o statws uchel, mae cofnodion o 1888 ymlaen yn dangos cynnydd ym mhresenoldeb busnesau proffesiynol, gan gynnwys warysau, storfeydd ac, erbyn y 1920au, swyddfeydd. Mae'r duedd wedi parhau, ac nid oes un o'r adeiladau yn cael eu defnyddio fel cartref preifat. Swyddfeydd, cynllunwyr harddwch a gwallt a thai bwyta yw'r mwyafrif o'r busnesau. Trowyd y capel yn swyddfeydd yn 1981, ond ar hyn o bryd mae'n wag.

Mae'r prif newidiadau ffisegol oherwydd y newid i ddefnydd swyddfa yn cynnwys estyniadau sylweddol i gefn rhai o'r eiddo a dileu'r ffiniau ôl er mwyn cael llefydd parcio preifat. Yn y blynyddoedd diweddar mae estyniadau anghydnaws i ochrau nifer o adeiladau wedi tanseilio cyfanrwydd y filâu pâr fel adeiladau sy'n sefyll ar wahân.

Defnydd allweddol eraill a wneir ar yr ardal yw parcio cerbydau ar y stryd, ac mae hyn yn dylanwadu'n sylweddol ar ymddangosiad yr ardal, y ffordd gerbydau a'r mynediad i gerddwyr, ar hyd palmentydd sy'n amlwg o lydan.

## 2.1.5 Golygfeydd

Mae golygfeydd pwysig o fewn ac oddi wrth yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys yr olygfa i'r gogledd tuag at Westy'r Park ar Heol-y-Frenhines a'r olygfa i'r de tuag at y cyn Gapel Presbyteraidd Cymreig.

Mae golygfeydd ar hyd y stryd yn amlygu'r gwrthgyferbyniad llwyr ym maint a chymeriad yr eiddo ar ochrau dwyreiniol a gorllewinol Ffordd Churchill.

.









- (1 & 2) Filâu pâr ar hyd Ffordd Churchill
- Cyn Gapel Presbyteraidd Cymreig ar ben deheuol Ffordd Churchill
- Yr olygfa tua'r gogledd ar hyd Ffordd Churchill.

## 2.1.6 Symudiad

Er fod Ffordd Churchill yn parhau'n llwybr bwysig i gerddwyr fynd i Heol-y-Frenhines, ni ellir disgrifio Ffordd Churchill fel ffordd ar gyfer cerbydau mwyach; ers pedestreiddio Heol-y-Frenhines yn y 1970au, mae'r ffordd gerbydau yn terfynu mewn man troi a amgaeir gan arosfannau bysus, ac mae llawer ohoni wedi'i neiltuo ar gyfer parcio ar y stryd. Fodd bynnag, mae'n llwybr pwysig i gerbydau gyrraedd mynedfa maes parcio Canolfan y Capitol ar Stryd Ogleddol Edward.

Er ei bod yn weddol hawdd i gerddwyr symud, gyda phalmentydd llydan, er yn anniben braidd, mae cynllun y plotiau yn rhwystro cerddwyr rhag symud o'r dwyrain i'r gorllewin rhwng Heol Charles a Ffordd Churchill

## Map 2: Symudiad




## 2.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod

Mae'r cyn Gapel Presbyteraidd Cymreig a'r rhes o filâu yn dirnodau yn yr Ardal Gadwraeth. I'r gogledd o'r Ardal Gadwraeth mae Gwesty'r Park yn adeilad tirnod ac yn ganolbwynt.









- Arosfannau bysus ym mhen gogleddol Ffordd Churchill.
- Palmant ar hyd Ffordd Churchill.
- Parcio ar hyd Ffordd Churchill.
- My cynllun plohiau yn rhwystro cerddwyr rhag symued Hoel Charles a Ffordd Churchill





## Y Cyn Gapel Presbyteraidd Cymreig (46 Ffordd Churchill):

Adeiladwyd yn 1877 gan y pensaer Henry C. Harris fel Capel y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig mewn arddull Gothig Ffrengig cynnar, gan arddangos dylanwadau cryf y pensaer William Burges.

## (46 Ffordd Churchill parhad):

Mae'r pensaer wedi defnyddio carreg Pennant mewn arddull Gothig Ffrengig; tyrau; tyredau a thyrau grisiau addurnol yn codi uwchlaw'r islawr.





## Filâu Fictoraidd, 6-44 Ffordd Churchill (Eilrifau):

Mae wynebau'r tai mewn carreg Pennant, â phatrymau naddiadau carreg Caerfaddon yn y baeau, talcenni a drysau bwaog.

## Gwesty'r Park, Plas-y-Parc / Heol-y-Frenhines:

Adeilad yn dyddio o 1884 â thywodfaen Fforest y Ddena (llawr gwaelod) a thywodfaen Pennant, carreg Caerfaddon a theracota (uchod). Mae penseiri blaenllaw lleol wedi'i restru fel gwesty yn arddull y Dadeni Ffrengig sydd wedi'i gadw'n dda. Nodedig: To'r pafiliwn a manylion addurnol.









- Rheiliau ffiniol cwrt blaen
- Diffyg waliau ffiniol yn y cefn
- Arwyddion a chanopiau modern
- Grisiau a rheliau sy'n anghydnaws â chymeriad yr eiddo

## 2.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

O flaen y filâu mae waliau ffiniol a rheiliau yn darparu rhwystr ffisegol rhwng tir y cyhoedd a'r tir preifat. Ond mae'n amlwg bod ffiniau yn diflannu tu blaen a thu ôl i eiddo yn yr Ardal Gadwraeth ac mae nifer o erddi cefn wedi'u hagor i gael llefydd parcio a mynediad at Blas yr Eglwys a Lôn Wesley.

## 2.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

Mae'r adeiladau wedi'u codi yn bennaf o garreg Pennant a charreg Caerfaddon; ond mae manylion/nodweddion pensaernïol yn defnyddio deunyddiau eraill fel brics coch a theils. Er nad ydynt yn anghyffredin o anghenraid, mae'r defnydd a wneir o'r deunyddiau yn effeithiol oherwydd y manylion a'r dylunio pensaernïol.

## 2.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

Mae wynebau tai ar Ffordd Churchill mewn carreg Pennant wedi'u naddu â morthwyl, gyda naddiadau carreg Caerfaddon a ffenestri bae ar oleddf, bwâu yn yr arddull Gothig a thoeau talcennog. Er bod arddull cyffredinol y tai pâr yn debyg, mae amrywiaeth yn y cyfuniadau o elfennau a'r manylion pensaernïol, yn enwedig ar gynteddau, talcenni a ffenestri bae.

Er bod arwyddion, estyniadau a waliau ffiniau'r adeiladau wedi newid dros amser, nid ydynt, hyd at yn ddiweddar, wedi tanseilio cysondeb cyffredinol y grŵp. Mae rhai arwyddion modern ar adeiladau ac ar lefel y stryd yn amhriodol i arddull yr adeilad ac yn creu argraff o annibendod diangen.

Mae blaen y stryd (grisiau a chyrtiau blaen) rhai o'r eiddo wedi'u hadfer yn effeithiol gyda theils a rheiliau priodol. Mae eraill mewn cyflwr gwael iawn; mae rhai grisiau wedi colli eu canllawiau ac wedi cael wyneb newydd mewn teils o gyfnod amhriodol neu ddeunyddiau megis llechen ddu. Mae cewyll diogelwch dros rai ffenestri llawr gwaelod yn amharu ar ansawdd y treflun.

## 2.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

### Tirlunio Caled

Mae'r deunyddiau pafin yn yr ardal o ddiwedd yr ugeinfed ganrif ac mewn arddull cymysg. Mae celfi stryd fel arosfannau bysus, biniau sbwriel a stondinau beiciau yn gwrthgyferbynnu â chymeriad yr Ardal Gadwraeth ac yn creu lefel uchel o annibendod stryd mewn rhai mannau.

Mae'r lonydd cefn mewn cyflwr gwael ac mae'r coblau wedi'u gorchuddio/clytio gan darmac.

### Coed a Thirlunio Meddal

Mae'r tirlunio meddal yn yr Ardal Gadwraeth wedi'i gyfyngu i arddangosfeydd o flodau ar hyd llain ganol Ffordd Churchill. Roedd coed yn nodwedd wreiddiol o arglawdd ffos gyflenwi'r dociau ar hyd Pembroke Terrace, ond fe'u tynnwyd ymaith yn 1947 pan ddechreuodd y gwaith ar y geuffos i greu Ffordd Churchill.



Mae rhai tai wedi cadw gwaith cerrig addurniadol â dylanwad Gothig.



Ffenestri bae o garreg Caerfaddon gyda phaneli addurniadol.



Carreg Caerfaddon wedi'i baentio a charreg Pennant wedi'i naddu â morthwyl.



Pileri carreg Caerfaddon wedi'u cerfio yn cynnal mynedfeydd bwaog.



Ffenestr ddormer bigfain yn arddull yr adfywiad Gothig.



Adferiad modern o risiau teils yn arwain i gynteddau pâr.



Capan drws wedi'i gynnal gan bennau pileri gyda gwaith maen addurnol uwch ei ben.



Ffenestr bae gyda theils addurniadol appliqué Fictoraidd.



Dormer ddwbl gydag addurniadau o garreg Caerfaddon a brics coch.

# 3 materion perthnasol a chyfleoedd

## 3.1 Addasiadau i Adeiladau

### Materion

- Mae datblygiadau mewnlenwi rhwng filâu wedi cael gwared ar y bylchau rhwng yr adeiladau pâr a throi'r stryd yn deras bron, gan newid cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

- Mae colli manylion pensaernïol fel ffenestri, drysau a grisiau blaen gwreiddiol a newidiadau amhriodol wedi erydu cymeriad ac ymddangosiad adeiladu hanesyddol a'r Ardal Gadwraeth.

- Mae nifer o eiddo wedi'u hestyn i'r cefn. Nid yw graddfa ac arddull gwaith newydd wastad yn gydnaws â maint a chyd-destun y filâu Fictoraidd a'r grid dinesig tynn y maent wedi'u gosod ynddo.

- Diflannodd waliau ffiniol a graddfa a rhythm y plotiau cynnar pan grëwyd llefydd parcio masnachol tu ôl i'r filâu.

- Mae colli waliau ffin blaen a rheiliau wedi cael effaith sylweddol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth ac ar y diffiniad o fannau cyhoeddus a phreifat ar hyd y stryd.

- Mae defnyddiau masnachol yn creu galw am arwyddion i hyrwyddo eu presenoldeb; ond mae arwyddion gormesol sydd wedi'u cynllunio'n wael yn cael effaith negyddol ar gymeriad ac ymddangosiad yr adeiladau a'r Ardal Gadwraeth.

- Oherwydd natur y defnyddiau masnachol yn yr ardal, gall fod angen gwella'r mynediad at rai adeiladau yn unol â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. O ran Adeiladau 'Rhestredig' yn enwedig, bydd yn rhaid ystyried hyn gyferbyn â'r hyn sy'n 'rhesymol' yn nhermau gwella mynediad ac effaith unrhyw ymyrraeth angenrheidiol ar rinwedd pensaernïol yr adeilad.

### Cyfleoedd i Wella

- Sicrhau bod newidiadau i adeiladau (gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â hysbysebu a manylion ffasgia) yn cael eu gwneud gan ystyried dyluniad a chymeriad gwreiddiol yr adeilad. Yn benodol, sicrhau bod lloriau gwaelod a lloriau uchaf yn cydweddu o ran cyfrannedd, nodweddion a'r defnydd o ddeunyddiau addas, fel bod y llawr gwaelod yn gydnaws â'r lefelau uchaf a'r adeilad yn cael ei weld fel un uned gyfan.

- Sicrhau bod gwaith datblygu/addasiadau i'r adeilad yn cydweddu â'r eiddo cyfagos (yn enwedig pan fyddant yn rhan o grŵp), ac â chyd-destun hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.







- Datblygiadau mewnlenwi rhwng filau
- Amrywiaeth o driniaethau ffiniau cyrtiau blaen
- Colli manylion gwreiddiol

- Sicrhau bod unrhyw newidiadau yn ymgorffori deunyddiau o ansawdd uchel wedi'u cyfuno â nodweddion a chynllunio pensaernïol o ansawdd uchel sy'n ategu'r adeiladau hanesyddol a chymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Sicrhau bod nodweddion gwreiddiol adeiladau hanesyddol yn cael eu cynnal a chadw, eu glanhau a'u hadnewyddu'n sensitif er mwyn amddiffyn a gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Ceisio cadw ac adfer manylion gwreiddiol adeiladau, gan gynnwys: grisiau blaen, drysau, ffenestri, waliau / rheiliau ffiniol a mannau caeedig.
- Ceisio cael gwared ar ychwanegiadau diolwg, gan gynnwys diangfeydd tân, estyniadau i'r cefn, ffasgia ac arwyddion ymestynnol, wrth i'r cyfleoedd godi.
- Ceisio cadw a gwella cymeriad hanesyddol y stryd a'r ffiniau rhwng mannau cyhoeddus a phreifat trwy gadw ac adfer waliau cerrig a rheiliau ffiniol yn nhu blaen y stryd ac yn y lonydd cefn.
- Adolygu'r canllawiau dylunio ar gyfer blaen siopau ac arwyddion ar adeiladau, yn enwedig arwyddion masnachol, i amddiffyn cymeriad arbennig yr ardal.
- Sicrhau mynediad corfforol i adeiladau hanesyddol heb ddinistrio'u cyfanrwydd pensaernïol nac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

## 3.2 Tir y Cyhoedd

### Materion

- Nid yw defnyddio cerrig pafin safonol ar hyd y palmant yn hyrwyddo nac yn gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Mae Lôn Wesley mewn cyflwr gwael gyda setiau/arwynebau coblau wedi'u gorchuddio â deunyddiau eraill.
- Nid yw celfi stryd ac arwyddion yn cydweddu â'i gilydd; maent wedi'u lleoli'n wael ac yn creu annibendod gweledol yn y stryd.
- Mae parcio ceir yn effeithio ar gymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth oherwydd presenoldeb parhaus cerbydau ar hyd y stryd.
- Mae gosodiad y baeau parcio yn golygu bod cerbydau yn parcio ar y palmant.
- Mae cwmpas ar gyfer gwella canol Ffordd Churchill. Nid yw cynllun tir y cyhoedd yn gwneud llawer o gyfeiriad os o gwbl at geuffos cyflenwi'r dociau ar hyd canol Ffordd Churchill.

### Cyfleoedd i Wella

- Defnyddio dull gweithredu sy'n cynnal ansawdd uchel wrth ddylunio cynlluniau ar gyfer tir y cyhoedd, fel eu bod yn diwallu anghenion modern ac yn ategu adeiladau a chyd-destun hanesyddol yr ardal.










- Y tir cyhoeddus presennol ar Ffordd Churchill
- Parcio ar y stryd trwy'r ardal
- Nid yw llwybr ffos gyflenwi'r dociau wedi'i hyrwyddo
- Arwyddion i gerddwyr ar Heol-y-Frenhines









- Palmant Pennant hanesyddol ym Mhlas Windsor
- Pafin newydd ar Rodfa'r Eglwys Gadeiriol
- Tir y cyhoedd wrth ochr Eglwys Ebeneser
- Nid oes gwyrddni parhaol yn yr ardal

- Annog y defnydd o gelfi stryd o ansawdd uchel a deunyddiau pafin naturiol fel carreg Pennant, sy'n ategu ac yn gydnaws â chymeriad yr Ardal Gadwraeth, y cyd-destun hanesyddol ac adeiladau rhestredig. Yn achos y lonydd cefn, cydnabod arwyddocâd setiau/coblau gwreiddiol a chynllun i'w cadw.
- Ceisio gwella ardaloedd o dir y cyhoedd sy'n amharu ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Sicrhau bod celfi stryd newydd (gan gynnwys arwyddion) yn ategu ac yn briodol ar gyfer pensaernïaeth a lleoliad yr Ardal Gadwraeth.
- Lleihau annibendod stryd, cael gwared ar unrhyw gelfi stryd diangen a gormodol (gan gynnwys arwyddion), ac adolygu lleoliad a gosodiad y celfi stryd presennol.
- Ceisio sicrhau nad yw unrhyw gelfi stryd (gan gynnwys arwyddion) yn cystadlu'n weledol â'r ffurf adeiledig a golygfa'r stryd.
- Ymchwilio i gyfleoedd i leihau effaith ffisegol a gweledol y cerbydau sy'n parcio ar hyd Ffordd Churchill.
- Ymchwilio i gyfleoedd i wella canol Ffordd Churchill. Pan fydd cyfleoedd yn codi, annog ymgorffori cyfeiriad at ffos gyflenwi'r dociau.

## 3.3 Symudiad

### Materion

- Does dim llawer o arwyddion yn hyrwyddo cysylltiadau i ardaloedd neu atyniadau cyfagos.
- Mae cysondeb plotiau'r adeiladau yn rhwystro cerddwyr rhag symud yn rhwydd rhwng Ffordd Churchill a Heol Charles.

### Cyfleoedd i Wella

- Adolygu cynnwys a lleoliad arwyddion presennol a hyrwyddo cysylltiadau ag ardaloedd a chyrchfannau cyfagos trwy wella'r arwyddion a marciau ffordd.
- Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer creu llwybr rhwng Heol Charles a Ffordd Churchill er mwyn gwella'r cysylltiadau i gerddwyr o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws y ddinas.

## 3.4 Hunaniaeth Leol

### Materion

- Nid yw'r cyd-destun hanesyddol na ffos gyflenwi'r dociau gynt yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol ar y stryd.

### Cyfleoedd i Wella

- Ceisio gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o hunaniaeth yr ardal trwy gyflwyno arwyddion, esboniadau a gwybodaeth i dwristiaid.

## 3.5 Tirlunio

### Materion

- Mae diffyg gwyrddni parhaol yn yr ardal.

### Cyfleoedd i Wella

- Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer plannu coed.

## 3.6 Golygfeydd

### Materion

- Mae gwrthgyferbyniad llwyr rhwng graddfa a chymeriad yr eiddo ar ochrau dwyreiniol a gorllewinol y ffordd.

### Cyfleoedd i Wella

- Gallai agwedd fwy cadran tuag at blannu coed yn y stryd trwy ledaenu'r palmentydd helpu i leddfu effaith y datblygiadau uchel ar ochr ddwyreiniol Ffordd Churchill a chyfrannu at 'wyrddni'r' stryd trwy gydol y flwyddyn.



# Heol-y-Frenhines

# cynnwys


## 1. CYFLWYNIAD..............................................

## 2. ASESU CYMERIAD YR ARDAL........................

2.1 Ansawdd Nodedig y Lle
- 2.1.1 Grwpiau o Adeiladau
- 2.1.2 Graddfa
- 2.1.3 Patrymau Defnydd
- 2.1.4 Golygfeydd
- 2.1.5 Symudiad

2.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod

2.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

2.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

2.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

2.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

## 3. MATERION PERTHNASOL A CHYFLEOEDD...

3.1 Addasiadau i Adeiladau

3.2 Tir y Cyhoedd

3.3 Symudiad

3.4 Tirlunio


3.5 Hunaniaeth Leol

3.6 Golygfeydd

# 1.0 Cyflwyniad

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Heol-y-Frenhines yn 1992, er mwyn cydnabod ei hansawdd hanesyddol a phensaernïol.

## Map 1: Ffin Ardal Gadwraeth Heol-y-Frenhines, dynodwyd 1992.



# 2 asesu cymeriad yr ardal

## 2.1 Ansawdd Nodedig y Lle


Heol-y-Frenhines yw'r brif heol siopa yng Nghaerdydd, gydag adeiladau'n wynebu'r stryd a nifer o strydoedd ochr yn bwyntiau mynediad ar ei hyd. Mae dyfnder a lled lleiniau mor amrywiol â golwg yr adeiladau â phob adeilad yn cael ei gynllunio'n unigol. Mae adeiladau'n agor i Heol-y-Frenhines ac o'r herwydd â pherthynas gref â thir y cyhoedd.

### 2.1.1 Grwpiau o Adeiladau

Mae rhai adeiladau, megis Arcêd Dominions, Adeiladau Andrews a Gwesty'r Park, wedi'u cynllunio i gynnwys nifer o fusnesau. Mae pob un o'r adeiladau hyn â wyneb blaen gwahanol, ond eto maent wedi'u huno gan ddyluniad cyffredinol yr adeilad, yn enwedig ar lefel y lloriau uchaf.

Mae hefyd nifer o adeiladau â'u nodweddion yn cyd-fynd ag adeiladau cyfagos i ffurfio grŵp diddorol: 4-8 Heol Sant Ioan; 29–39a Heol-y-Frenhines a 121-139 Heol-y-Frenhines.

## Map 2: Grwpiau o Adeiladau



## 2.1.2 Graddfa

Mae'r adeiladau a thir y cyhoedd ar Heol-y-Frenhines o raddfa sylweddol. Mae uchder yr adeiladau yn amrywio rhwng 3 a 5 llawr, â lled y lleiniau'n gymesur â'r uchder fel arfer, er i'r gorllewin o Heol-y-Frenhines (ochr ddeheuol yn unig) ac yn Heol Sant Ioan, mae lled y lleiniau'n cyd-fynd â chynllun y tir bwrdais hanesyddol.

Ar ochr ogleddol Heol-y-Frenhines mae'r adeiladau'n tueddu i fod yn fwy o ran graddfa na'r rheiny ar yr ochr ddeheuol, gan eu bod yn dalach yn gyffredinol ac ar leiniau lletach. Fel arfer yr adeiladau mwyaf trawiadol yw'r rheiny â'r raddfa fwyaf, sef y rhai â blaen o uchder a hyd sylweddol, megis Gwesty'r Park ac Adeiladau Andrews.

Mae tir y cyhoedd yn Heol-y-Frenhines yn sylweddol oherwydd ei led a'i hyd. Mae'r adeiladau ar ei hyd yn rhoi ymdeimlad cryf o fan caeedig â lled y stryd yn gwneud iawn am uchder yr adeiladau. Fel ei hadeiladau, mae graddfa tir y cyhoedd ar Heol-y-Frenhines yn rhan o gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Mae mwyafrif y strydoedd cefn o fewn yr Ardal Gadwraeth wedi'u ffinio'n gyffredinol gan ochrau'r adeiladau sy'n wynebu Heol-y-Frenhines. Pan fo'r strydoedd hyn yn gulach na Heol-y-Frenhines, mae adeiladau'n rhoi ymdeimlad cryfach o fan caeedig.

## 2.1.3 Patrymau Defnydd

Mae Heol-y-Frenhines yn ardal fasnachol, wedi'i dominyddu gan siopau a llefydd bwyta, sefydliadau ariannol a gwesty. Ac eithrio adeiladau masnachol, eu hardaloedd gwasanaethu cysylltiedig a rhai mannau parcio bychain, defnyddir gweddill y tir fel priffordd sydd wedi'i phedestreiddio gan fwyaf â dim ond elfen fach (strydoedd cefn) yn cael ei defnyddio gan gerbydau.

Mae celf gyhoeddus yn yr Ardal Gadwraeth gan gynnwys pedwar cerflun a ffrîs mawr. Mae llinell o balmant du yn dynodi lleoliad wal y dref gynt.

Gydol y flwyddyn defnyddir Heol-y-Frenhines gan fasnachwyr a diddanwyr stryd; defnyddir ardaloedd penodol ar gyfer arddangosiadau hyrwyddo a reidiau ffair bychain; defnyddir y Brodordy yn achlysurol ar gyfer stondinau marchnad ac mae stondin ffrwythau wrth y gyffordd â Lôn-y-Parc. Defnyddir cyffordd Heol-y-Frenhines a Ffordd Churchill ar gyfer reidiau mwy a digwyddiadau tymhorol.










- Uchder adeiladau a thir caeedig y stryd
- Tir y Cyhoedd ar Heol-y-Frenhines
- Stryd Gefn (Y Brodordy)
- Lleiniau Tir Bwrdais (Heol Sant Ioan)

## 2.1.4 Golygfeydd

Am fod Heol-y-Frenhines yn ymdroelli ychydig ac yn amrywio o ran ei lled, ceir golygfeydd newidiol ar ei hyd. Er bod coed yn rhwystro'r golygfeydd hyn ar adegau, mae sawl adeilad hanesyddol amlwg. Mae'r adeiladau hyn wedi'u lleoli ar gornel neu â llinell adeilad sy'n dilyn troad y stryd. Yr ardaloedd dan sylw yw: Adeiladau'r Principality (29 Heol-y-Frenhines), Adeiladau Andrews, 87 Heol-y-Frenhines, Gwesty'r Park, 94-96 Heol-y-Frenhines, 121-123 Heol-y-Frenhines, a 125-139 Heol-y-Frenhines.

Ceir nifer o olygfeydd a chipolygon pwysig i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys golygfeydd clir o: Westy'r Park; y Theatr Newydd; Castell Caerdydd; Eglwys Sant Ioan; Heol y Dug (sydd wedi cadw'r patrwm tir bwrdais hanesyddol), cipolwg o'r Ganolfan Ddinesig, Gerddi'r Orsedd a Gerddi'r Brodordy a golygfeydd o Heol-y-Frenhines o Blas Dumfries a Heol y Dug.

## Map 3: Golygfeydd



## 2.1.5 Symudiad


Mae lefel uchel o symudiad o fewn yr Ardal Gadwraeth, a hynny yn bennaf gan gerddwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r briffordd wedi'i phedestreiddio'n ffurfiol, er caniateir mynediad i gerbydau dosbarthu nwyddau, cerbydau glanhau a'r gwasanaethau argyfwng. Oherwydd bod rhai cerbydau'n cael defnyddio'r ardaloedd pedestraidd mae gwrthdaro rhwng defnyddwyr yn bosibl.

Mae rhwystrau ffisegol, megis blociau gwenithfaen a bolardiau, yn rhwystro mynediad i gerbydau i'r ardaloedd pedestraidd; fodd bynnag, gallai'r rhain beri rhwystr i gerddwyr, fel y gallai lleoliad y celfi stryd yn yr ardal.

Mae ffyrdd cerbydau ar hyd strydoedd cefn a nodwyd bod cerbydau'n aml yn lled-barcio ar balmentydd ac yn parcio / aros mewn mannau troi ac ar linellau dwbl melyn. Gall hyn achosi gwrthdaro rhwng defnyddwyr a rhwystro cylchrediad traffig.

Plas Dumfries a Ffordd y Brenin yw'r prif lwybrau traffig cerbydau o gwmpas canol y ddinas; fodd bynnag maent hefyd yn fannau mynediad allweddol ar gyfer cerddwyr i Heol-y-Frenhines . Mae'r ddarpariaeth croesfannau yn wael ac mae'r cerbydau'n cael blaenoriaeth dros y cerddwyr yn y mannau hyn.

## Map 4: Symudiad




## 2.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod

Ar gyfer y gwerthusiad hwn, adeilad tirnod yw un sydd â chysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol arwyddocaol gyda datblygiad yr ardal, sy'n unigryw yn ei leoliad, ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal.

Er bod rhai adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth yn meddu ar y rhinweddau hyn i ryw raddau, mae sawl adeilad yn eu harddangos yn fwy nag eraill; yr adeiladau hyn a nodwyd fel Adeiladau Tirnod a cheir disgrifiad cryno isod. Mae'r strwythurau hyn yn gyffredinol o'r ansawdd pensaernïol uchaf o fewn yr Ardal Gadwraeth.

# Map 5: Adeiladau Tirnod









## 2 Heol-y-Frenhines:

Adeilad cornel amlwg sy'n rhestredig yn lleol, o garreg Portland: Nodedig: y gwaith maen addurnol ar yr ystlys gornel.

## 4-6 Heol-y-Frenhines:

Adeilad rhestredig lleol Art Deco â wyneb carreg. Nodedig: ffenestr ganolog fawr ar bob lefel, to grisiog, manylion addurnol.





## Blaen 11-13 Heol-y-Frenhines:

Adeilad carreg Portland a godwyd rhwng y ddau ryfel, a restrwyd fel enghraifft dda o flaen siop adrannol clasurol. Nodedig: colofnau a manylion carreg.

## Siamberi Heol-y-Frenhines 24-26 Heol-y-Frenhines:

Adeiladwyd yn 1878 â charreg Portland a stwco a rhestrwyd fel enghraifft nodedig o bensaernïaeth Gothig Fenisaidd. Nodedig: nodweddion addurnol wedi'u mowldio a manylion y ffenestri.







## Adeiladau'r Principality 29 Heol-y-Frenhines:

Adeiladwyd yn 1914 â charreg Ridge Park (math o garreg Caerfaddon) â gwenithfaen Cernywaidd. Adeilad 5 llawr rhestredig lleol. Nodedig: Y tŵr cloc, mynedfa â cholofnau, ffenestri eang a gwaith maen addurnol.

## Banc Lloyds, 31 Heol-y-Frenhines:

Adeilad carreg Portland, larvikite glas a gwenithfaen coch a restrwyd fel adeilad masnachol Fictoraidd diweddar. Nodedig: y paneli rhwng ffenestri, y band o ffigyrau ac amrywiaeth y garreg.



## Tŷ Dominians (Arcêd) 33-39a Heol-y-Frenhines:

Adeilad 4 llawr mawreddog 1921 ag arcêd o siopau â blaen siopau o arddull priodol. Nodedig: arcêd a cherfiadau pen llew.




## HSBC 56-58 Heol-y-Frenhines:

Adeiladwyd yn 1919 â charreg Portland a gwenithfaen Cernywaidd llwyd; rhestrwyd fel adeilad masnachol enfawr o'r cyfnod pan oedd pŵer masnachol Caerdydd ar ei anterth. Nodedig: adeilad clasurol tal un llawr.




## Adeiladau Andrews 63 – 77 Heol-y-Frenhines:

Adeilad dyddiedig 1896 â blaen carreg Caerfaddon a restrwyd am ei flaen eang ac fel datblygiad uchelgeisiol gan Solomon Andrews. Nodedig: ffenestri oriel a'r manylion carreg.



## 83-85 Heol-y-Frenhines:

Adeiladwyd yn 1885 â charreg. Adeilad 4 llawr rhestredig lleol. Nodedig: y ffenestri bae a'r pennau dynol cerfiedig.




## 87 Heol-y-Frenhines:

Adeiladwyd yn 1899-1900 â wyneb tywodfaen Fforest Ddena llwyd.  Adeilad 4 llawr rhestredig lleol.  Nodedig: ffenestri bae a phaneli cerfiedig cerrig fertigol. Ynghyd â'r Siamberi Brenhinol mae'n adeilad cornel trawiadol.



## 2-6 Adeiladau Brenhinol:

(Gweddill 87 Heol-y-Frenhines), manylion gyferbyn, a elwir y Siamberi Brenhinol.   Nodedig: manylion y gynfynedfa a'r paneli cerfiedig.



## Gwesty'r Park, Plas-y-Parc / Heol-y-Frenhines:

Adeilad yn dyddio o 1884 o dywodfaen Fforest y Ddena (llawr gwaelod) a thywodfaen Pennant, carreg Caerfaddon a theracota (uchod). Mae penseiri blaenllaw lleol wedi'i restru fel gwesty yn arddull y Dadeni Ffrengig sydd wedi'i gadw'n dda.  Nodedig: to'r pafiliwn a'r manylion addurnol.




## Siopau Gwesty'r Park:

Rhestrwyd fel rhan allweddol o Westy'r Park.



## Banc Natwest, 94-96 Heol-y-Frenhines:

Adeilad cornel mewn carreg Caerfaddon (o'r math durol) sydd wedi cadw'r ffasâd llawr gwaelod gwreiddiol. Nodedig: y colofnau carreg Portland addurnol a'r gwaith maen addurnol.



## Banc Barclays, 121-123 Heol-y-Frenhines:

Adeilad cornel deniadol â wyneb carreg Portland. Nodedig: arwyddlun cerfiedig carreg a siâp yr adeilad.



## 125 – 137 Heol–y-Frenhines:

Gweddill yr adeilad y mae 139 Heol-y-Frenhines, manylion gyferbyn, yn rhan ohono. Nodedig: yr arddull Art Deco, manylion carreg addurnol a'r tro ysgafn yn llinell yr adeilad wrth iddo ddilyn aliniad y stryd.




## 139 Heol-y-Frenhines:

Adeiladwyd yn y 1920-1030au â charreg, yn yr arddull Art Deco. Adeilad Rhestredig Lleol. Nodedig: y manylion carreg addurnol a'r ffenestri cornel bwa, sy'n ei wneud yn adeilad cornel amlwg.

## 2.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

Yn gyffredinol mae modd adnabod mannau cyhoeddus a phreifat yn yr Ardal Gadwraeth; yn gyffredinol mae blaen adeiladau a thir caeedig ffiniol yn diffinio'r naill a'r llall.

I atgyfnerthu Heol-y-Frenhines fel prif heol siopa Caerdydd rhoddwyd ei hunaniaeth ei hun i dir y cyhoedd trwy ddefnyddio deunyddiau arwyneb a chelfi stryd penodol. Mae'r driniaeth hon yn sicrhau bod yr ardal sylweddol hon o dir y cyhoedd yn hawdd ei hadnabod.

## 2.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

Mae adeiladau hanesyddol Heol-y-Frenhines (cyn 1945) wedi'u hadeiladu'n bennaf o garreg, nodwedd o arddull y Dadeni Gothig pan ailddatblygwyd Heol-y-Frenhines ar ddiwedd y 19eg ganrif. Mae'r math o garreg yn amrywio o garreg Portland, Carreg Caerfaddon a charreg Pennant, yn aml wedi'u cerfio'n fanwl, i wenithfaen lliw. Yn ogystal â defnyddio carreg mae'r Siamberi Heol-y-Frenhines o arddull Fenisaidd yn cynnwys stwco sydd, er nad yw'n ddeunydd lleol neu anarferol o ansawdd uchel, yn ddeunydd effeithiol o'i gyfuno â manylion pensaernïol o ansawdd uchel. Yn yr un modd, mae brics, deunydd cyffredin, wedi'u cyfuno'n effeithiol â'r gwaith maen a'r manylion pensaernïol yn 6-7 Heol Sant Ioan, a theracota yn yr un modd ar Westy'r Park.

Mae adeiladau a godwyd ar ôl 1945 yn dangos amrywiaeth o ddeunyddiau, o goncrit a charreg i ddefnydd helaeth o wydr. Lle defnyddir carreg nodir nad yw mor drawiadol ag ar yr adeiladau hanesyddol gan nad yw wedi'i chyfuno â manylion pensaernïol o'r un ansawdd.

Yn gyffredinol, defnyddir deunyddiau mwy cyffredin / llai nodedig ar adeiladau ôl-1945 a pha bynnag ddeunyddiau a ddefnyddir, yn gyffredinol, maent yn llai effeithiol na'r rhai ar adeiladau cyn y rhyfel gan nad ydynt wedi'u cyfuno â manylion pensaernïol o'r un ansawdd.

## 2.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

Ar draws yr Ardal Gadwraeth mae cyfoeth o fanylion pensaernïol a welir gan fwyaf yn yr adeiladau hanesyddol. Mae hyn yn adlewyrchu dylanwadau a chyfoeth pensaernïol a oedd yn gyffredin yng Nghaerdydd yn ystod ailddatblygiad eang Heol-y-Frenhines yn yr 1880au i ddiwedd y 1930au. Fodd bynnag, nid oes arddull pensaernïol cyffredin na nodweddion cyffredin sy'n uno'r adeiladau hyn, gan fod yr adeiladau wedi'u cynllunio fel uned yn hytrach na fel rhan o ddatblygiad cynlluniedig ehangach, ac ar adegau gwahanol i'w gilydd. O'r herwydd mae arddull adeiladau'n amrywio o'r Diwygiad Gothig i Art Deco.

Mae nifer o adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth â rhinweddau pensaernïol. Mae llawer o rinweddau pensaernïol yr adeiladau hyn ar y lloriau uchaf. Mewn sawl achos mae blaen siopau llawr cyntaf yr adeiladau hyn wedi'u haddasu ac nid ydynt yn gydnaws â chymeriad yr adeilad (nodweddion, deunyddiau nac arddull) fel bod y lloriau uchaf a'r llawr gwaelod yn ymddangos fel petaent ar wahân. Mae hyn, ynghyd â'r coed sy'n cysgodi rhannau o'r lloriau uchaf, yn golygu na welir nifer o'r manylion pensaernïol arbennig.

Mae'r adeiladau hanesyddol â nodweddion / rhinweddau pensaernïol o ansawdd uchel ar lefel y lloriau uchaf wedi'u nodi isod (mae gan nifer o'r adeiladau hyn









- Adeiladau'n agor yn uniongyrchol ar Heol-y-Frenhines
- Mae gan dir y cyhoedd Heol-y-Frenhines ei hunaniaeth ei hun
- Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel yng Ngwesty'r Park
- Gwaith maen cerfiedig ar y lloriau uchaf









- Ffasad wedi'i adfer ar y lloriau uchaf (Adeiladau Andrews)
- Manylion to gwreiddiol yng Ngwesty'r Park
- Adeilad sy'n troi o amgylch cornel Plas-y-Parc
- Ffris ar loriau uchaf 36-38 Heol-y-Frenhines

nodweddion pensaernïol o ansawdd uchel ar y llawr gwaelod yn ogystal). Mae nifer ac arddull y nodweddion hyn yn amrywio o adeilad i adeilad. Wrth nodi adeiladau hanesyddol sydd â nodweddion o werth pensaernïol, gellir gwerthfawrogi cymeriad yr Ardal Gadwraeth, ei amddiffyn a'i wella.

## Map 6: Adeiladau Hanesyddol â Rhinweddau Pensaernïol




Mae nodweddion sy'n cyfrannu at gyfoeth pensaernïol ardal, ac felly ei gymeriad, yn cynnwys:

- Manylion gwreiddiol blaen adeilad ar y llawr gwaelod: y cyfan a rhan o flaen adeilad e.e. colofnau blaen siopau a nodweddion mynedfeydd.
- Manylion gwreiddiol ffenestri'r lloriau uchaf: maint, patrwm, manylion gwydr, math o ffenestr (oriel / crom / dormer, ac ati).
- Y driniaeth o ddeunyddiau adeiladu, e.e. cerfiadau carreg (colofnau, paneli, blaen, ac ati) naddiadau carreg, cyfuniad o ddeunyddiau, mowldin.
- Manylion to gwreiddiol: ar ongl, gwastad, grisiog, pafiliwn.
- Siâp yr adeilad: adeiladau sy'n troi corneli ac yn troi â siâp y stryd.

Yn gyffredinol, nid yw adeiladau ar ôl 1945 yn yr Ardal Gadwraeth â manylion pensaernïol o'r un ansawdd ag adeiladau cyn 1945. Mae adeiladau ar ôl 1945 yn adlewyrchu'r tueddiadau pensaernïol a oedd yn gyffredin yn y cyfnod y cawsant eu hadeiladu. Yn gyffredinol nid yw'r rhain â'r un manylion pensaernïol ag adeiladau cyn 1945.

Fodd bynnag, dylid tynnu sylw at y ffrîs ar 36-38 Heol-y-Frenhines (Boots). Er nad yw'r deunyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adeilad hwn yn nodedig, mae gwaith celf syml ar y lefelau uchaf yn sicrhau bod yr adeilad hwn yn ychwanegu diddordeb ac yn cyfrannu at hunaniaeth yr ardal.

Mae'n bwysig bod manylion pensaernïol gwreiddiol adeiladau hanesyddol yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwella mewn modd sensitif wrth i gyfleoedd godi i sicrhau y caiff asedau'r Ardal Gadwraeth eu hamddiffyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan nad yw datblygiadau newydd, ar y cyfan, yn cynnwys manylion pensaernïol o'r un ansawdd annifer â'r adeiladau a godwyd cyn 1945.



Manylion ffenestri Fictoraidd
yn Adeilad Andrews.



Manylion ffenestri Art Deco yn
125-137 Heol-y-Frenhines.



Ffrîs cerfiedig rhwng
ffenestri yn 87 Heol-y-Frenhines.



Tŵy Cloc yn Adeiladau'r
Principality, Heol-y-Frenhines.




Gwaith maen cerfiedig dros fynedfa,
Adeiladau Andrews.



Gwaith maen cerfiedig o gwmpas yr
agoriadau, 2 Heol-y-Frenhines.



Pennau cerfiedig yn
83-85 Heol-y-Frenhines.



Ffrîs Art Deco
4-6 Heol-y-Frenhines.



Stwco a charreg
yn yr arddull Gothig Fenisaidd,
24-26 Heol-y-Frenhines.



Cerfiadau carreg manwl yn y
Siamberi Brenhinol.



Ymyl ffenestr addurnol
yn 9 Heol-y-Frenhines.



Manylion llawr uchaf yn
4-6 Heol-y-Frenhines.



Ymyl ffenestr stwco a charreg
yn 24-26 Heol-y-Frenhines.



Manylion pen llew,
Dominions House / Arcêd
Dominions.




Nodwedd dros y fynedfa i
Arcêd Dominions.



Ffigurau cerfiedig yn
31 Heol-y-Frenhines.



Carreg gerfiedig o amgylch y
ffenestri, 56-58 Heol-y-Frenhines.



Addurniad to ar
Adeiladau Andrews.

# 2.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

Mae'r rhan fwyaf o dir y cyhoedd yn cynnwys tirlunio caled. Ar y cyfan mae gan dir y cyhoedd Heol-y-Frenhines ei hunaniaeth ei hun a gynhyrchir gan ddeunydd arwyneb a chelfi stryd penodol; mae'r arwyneb yn cynnwys blociau agreg sy'n wyn gan fwyaf gyda band llwyd ac ardaloedd sgwariog ar gyfer y celfi stryd. Mae'r celfi stryd yn fodern, wedi'u gwneud o ddur gwrthstaen a phren gan fwyaf. Mae'r celfi wedi'u lleoli mewn clystyrau ac ychwanegwyd atynt dros amser, e.e. yn y cyffyrdd â strydoedd ochr. Mewn amryw fannau gall y celfi hyn atal llif cerddwyr a gweithredu fel rhwystrau ac annibendod gweledol. Mae'r gyffordd â Ffordd Churchill yn parhau â hunaniaeth tir y cyhoedd yn Heol-y-Frenhines.

Ymgymerwyd â chynlluniau gwella tir y cyhoedd diweddar yn Heol Sant Ioan, Plas-y-Parc a Heol Charles, gan uwchraddio'r stryd a'r amgylchedd hanesyddol yn sylweddol. Rhoddwyd pwyslais ar ddefnyddio deunyddiau pafin naturiol. Defnyddiwyr gwenithfaen ar Heol Sant Ioan a Heol Charles. Mae Plas-y-Parc yn defnyddio carreg Pennant sy'n gydnaws â charreg yr adeiladau bob ochr i dir y cyhoedd, yn weledol a hanesyddol.

Nid oes gan dir y cyhoedd ar hyd y strydoedd ochr eraill nac yn y pwyntiau mynediad dwyreiniol a gorllewinol i Heol-y-Frenhines (Plas Dumfries a Ffordd y Brenin yn eu trefn) ei hunaniaeth ei hun. Maent yn cynnwys gwahanol fathau o ddeunydd pafin a chelfi stryd sy'n anghydnaws, yn anniben o ran eu golwg ac wedi'u dylunio yn arddull diwedd yr 20fed ganrif. Mae'r offer o arddull Fictorianaidd yn edrych yn flêr, yn ynysig ac, yn baradocsaidd, allan o le.

Mae amrywiaeth o goed wedi'u plannu ar hyd Heol-y-Frenhines, Ffordd Churchill, Plas-y-Parc a Heol Charles, gan liniaru'r amgylchedd adeiledig a chyfrannu at ei gymeriad yn gyffredinol. Ar hyd Heol-y-Frenhines, mae eu safle, uchder, canopi a throad y stryd yn golygu eu bod, o wahanol onglau, yn cuddio lloriau uchaf nifer o adeiladau, gan gelu rhannau o asedau hanesyddol a phensaernïol yr ardal. Mae cynwysyddion planhigion mawr modern hefyd yn lliniaru'r ardal, ond manet yn aneniadol os nad oes planhigion ynddynt. Gallant hefyd rwystro symudiad cerddwyr.









- Celfi stryd o fewn Heol-y-Frenhines
- Annibendod stryd wrth y gyffordd â Plas-y-Dumfries
- Celfi stryd mewn arddull Fictoraidd sydd wedi dyddio
- Coed stryd yn effeithio ar y golygfeydd o'r lloriau uchaf

# 3.0 materion perthnasol a chyfleoedd

## 3.1 Addasiadau i Adeiladau

### Materion








- Enghreifftiau o gydberthnasau rhwng blaen siopau llawr gwaelod a ffasadau hanesyddol llawr uchaf

- Mae lloriau uchaf y rhan fwyaf o adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth wedi'u haddasu'n helaeth. O ran adeiladau hanesyddol, nid yw mwyafrif yr addasiadau yn gydnaws â chymeriad yr ardal o ran eu nodweddion, deunyddiau neu arddull, ac mae mwyafrif yr addasiadau llawr gwaelod yn cynnwys blaen siopau ac arwyddion modern. Yn gyffredinol mae addasiadau o'r fath yn creu gwahaniaeth gweledol rhwng y llawr gwaelod a'r lloriau uchaf. O ganlyniad, mae'r addasiadau hyn yn amharu ar olwg adeiladau hanesyddol a chymeriad hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.

- O ystyried bod cerddwyr gan amlaf yn gweld lefel y llawr gwaelod yn gyntaf, (ategir hyn gan y coed sy'n cuddio golygfeydd o'r lloriau uchaf mewn mannau), mae'r addasiadau ansensitif hyn ar y lloriau gwaelod, ynghyd â delwedd fodern tir y cyhoedd a nifer o strwythurau o ddiwedd yr 20fed ganrif/dechrau'r 21ain ganrif, yn creu ymdeimlad cyfoes i'r ardal nad yw'n amddiffyn nac yn ategu cymeriad hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.

- Gall addasiadau i adeiladau hanesyddol hefyd arwain at golli nodweddion pensaernïol, gan erydu asedau hanesyddol a phensaernïol yr Ardal Gadwraeth. Gall hyn amrywio o addasiadau i flaen adeiladau llawr gwaelod i addasiadau i ffenestri ar lefel llawr uchaf, gan gynnwys blocio a newid y math o ffenestr, ei rhythm a maint yr agorfa. Mae addasiadau o'r fath yn newid golwg yr adeilad, ei nodweddion a'r cynllun cyffredinol. Mae colli manylion gwreiddiol yn amharu ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

- Mae defnyddiau masnachol yn creu galw am arwyddion i hyrwyddo'u presenoldeb. Gall arwyddion a gynlluniwyd yn wael effeithio'n negyddol ar gymeriad a golwg adeilad a'r Ardal Gadwraeth.

- Mae graddfa, yn enwedig uchder a nifer y lloriau, yn agwedd allweddol o adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth. Er bod adeiladau ar hyd ochr ogleddol Heol-y-Frenhines yn dalach na'r rheiny yn de fel arfer, mae adeiladau 3-5 llawr a welir gan fwyaf yn yr Ardal Gadwraeth. Mae rhai adeiladau'n dalach, ond fel arfer mae'r rhain yn adeiladau eithriadol sy'n nodweddion hanfodol o'r Ardal Gadwraeth. Mae graddfa'r adeiladau yn nodwedd unigryw y mae angen ei barchu i sicrhau na chyfaddawdir ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

- Oherwydd natur y defnyddiau masnachol yn yr ardal, gall fod angen gwella'r mynediad at rai adeiladau yn unol â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. O ran Adeiladau 'Rhestredig' yn enwedig, bydd yn rhaid ystyried hyn gyferbyn â'r hyn sy'n 'rhesymol' yn nhermau gwella mynediad ac effaith unrhyw ymyrraeth angenrheidiol ar rinwedd pensaernïol yr adeilad.

- Er nad ydyw o fewn yr Ardal Gadwraeth, mae'r Ganolfan Capitol yn nodwedd amlwg o ben dwyreiniol Heol-y-Frenhines, gan feddiannu llain sylweddol ar ei hyd. O'r herwydd mae gan gynigion sy'n effeithio ar olwg allanol yr adeilad hwn effaith uniongyrchol ar yr Ardal Gadwraeth.

## Cyfleoedd i Wella

Darparu canllawiau ar gyfer trin yr adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth i sicrhau y caiff cymeriad arbennig yr ardal ei gadw a'i wella. Mae hyn yn cynnwys canllaw ar adfer adeiladau, cynllunio blaen siopau, arwyddion a sut i drin y lloriau uchaf. Yn arbennig byddai angen i'r canllawiau:

- Sicrhau bod newidiadau i adeiladau (gan gynnwys y rhai ar gyfer hysbysebu a manylion ffasgia) yn cael eu gwneud gan ystyried dyluniad a chymeriad gwreiddiol yr adeilad. Yn benodol, sicrhau bod lloriau gwaelod a lloriau uchaf yn gydnaws o ran cyfrannedd, nodweddion a'r defnydd o ddeunyddiau addas, fel bod y llawr gwaelod yn gydnaws â'r lefelau uchaf a'r adeilad yn cael ei weld fel un uned gyfan.

- Sicrhau bod gwaith datblygu/addasiadau i'r adeilad yn gydnaws ag eiddo cyfagos (yn enwedig pan fyddant yn rhan o grŵp), ac â chyd-destun hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.

- Sicrhau bod unrhyw newidiadau yn ymgorffori deunyddiau o ansawdd uchel wedi'u cyfuno â nodweddion a chynllunio pensaernïol o ansawdd uchel sy'n ategu'r adeiladau hanesyddol a chymeriad yr Ardal Gadwraeth.

- Sicrhau bod lloriau uchaf a nodweddion gwreiddiol adeiladau hanesyddol yn cael eu hadnewyddu'n sensitif drwy aduno'r lloriau gwaelod a chynnal a chadw, glanhau ac adfer nodweddion gwreiddiol er mwyn amddiffyn a gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

- Gwrthsefyll cynigion a fyddai'n arwain at flaen adeiladau anweithredol, megis blocio ffenestri ar strydoedd ochr, cau blaen adeiladau yn ystod y dydd, a gorchuddio ffenestri siopau o'r tu mewn gan fod hyn yn tynnu oddi wrth gymeriad a golwg Ardal Gadwraeth ac yn gwneud yr ardal yn llai croesawgar a bywiog.

- Gwrthsefyll cynigion sydd ar raddfa amhriodol ac a fyddai'n amharu ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth i sicrhau na chyfaddawdir ar ei chymeriad na'i golwg.

- Sicrhau bod llinell adeiladau hanesyddol Heol-y-Frenhines yn cael ei hamddiffyn a hyrwyddo'r gwaith o gadw lleiniau tir bwrdais sydd wedi goroesi.

- Adolygu'r canllawiau dylunio ar gyfer blaen siopau ac arwyddion ar adeiladau, yn enwedig arwyddion masnachol, i amddiffyn cymeriad arbennig yr ardal.

- Ymchwilio ffynonellau cyllid ar gyfer mentrau gwella adeiladau.

- Arcêd Dominions: Annog y gwaith o uwchraddio'r arcêd unigryw hon o fewn yr Ardal Gadwraeth, yn enwedig trin y nenfwd a'r goleuadau, ac ymdrin â blaen adeiladau anweithredol. Hefyd, hyrwyddo presenoldeb yr arcêd gan bwysleisio'r mynedfeydd / nodweddion y mynedfeydd.

- Sicrhau mynediad corfforol i adeiladau hanesyddol heb ddinistrio'u cyfanrwydd pensaernïol nac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

- Ceisio sicrhau bod cynigion datblygu ar gyfer adeiladau tu allan i'r Ardal Gadwraeth, ond a fyddai'n effeithio arni, yn gydnaws â'i chymeriad a'i golwg.










- Y pwynt mynediad Dwyreiniol wrth y gyffordd â Plas Dumfries
- Y pwynt mynediad Gorllewinol wrth y gyffordd â Ffordd y Brenin
- Y Theatr Newydd, Adeilad Tirnod ar hyd Plas-y-Parc
- Arwyddion cyfeirio i'r ardaloedd o amgylch

# 3.2 Tir y Cyhoedd

## Materion Perthnasol

- Er bod cynlluniau gwella tir y cyhoedd a roddwyd ar waith yn ddiweddar wedi defnyddio deunyddiau pafin traddodiadol/ naturiol, yn gyffredinol mae llawer o dir y cyhoedd o fewn yr Ardal Gadwraeth o ddeunyddiau a dyluniad modern (diwedd yr ugeinfed ganrif a hwyrach). Yn gyffredinol trwy'r Ardal Gadwraeth, mae'r offer a phafinau yn amrywio o ran eu harddull a'u deunyddiau, gan adlewyrchu tueddiadau nodweddiadol y cyfnod y gosodwyd hwy.
- O fewn yr Ardal Gadwraeth, mae tir y cyhoedd Ffordd y Brenin, y Brodordy, Plas Windsor, Lôn Windsor a rhannau dwyreiniol a gorllewinol Heol-y-Frenhines yn flêr o ran golwg. Mae'r ardaloedd hyn yn dangos amrywiaeth o arddulliau a deunyddiau pafin a chelfi stryd anghydnaws.
- Mae celfi stryd i'w gweld trwy'r Ardal Gadwraeth, yn enwedig yn Heol-y-Frenhines mewn nifer o glystyrau ar ei hyd, gan gynnwys wrth y cyffyrdd â strydoedd cefn ac yn y naill ben a'r llall i Heol-y-Frenhines. Gall lleoliad a nifer y celfi atal llif cerddwyr a bod yn rhwystr gweledol.
- Mae strydoedd ochr lle caniateir cerbydau wedi'u dominyddu gan gerbydau a mesurau rheoli traffig.

## Cyfleoedd i Wella

O ystyried y cyfraniad a wna tir y cyhoedd i gymeriad yr Ardal Gadwraeth:

- Lleihau annibendod stryd, cael gwared ar unrhyw gelfi stryd diangen a gormodol (gan gynnwys arwyddion), adolygu lleoliad a gosodiad y celfi stryd presennol a rheoli'r nifer o eitemau newydd a gyflwynir i atal annibendod diangen.
- Defnyddio dull gweithredu sy'n cynnal ansawdd uchel wrth ddylunio cynlluniau ar gyfer tir y cyhoedd, fel eu bod yn diwallu anghenion modern ac yn ategu adeiladau a chyd-destun hanesyddol yr ardal.
- Annog defnyddio deunyddiau pafin o ansawdd uchel (deunyddiau pafin naturiol yn benodol, fel carreg Pennant) ac offer stryd (gan gynnwys celf gyhoeddus a nodweddion tirnod) sy'n cyfrannu at, ac yn parchu cymeriad yr Ardal Gadwraeth, y cyd-destun hanesyddol ac adeiladau rhestredig.
- Ceisio gwella ardaloedd o dir y cyhoedd sydd wedi dirywio yn eu hymddangosiad neu sy'n amharu ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Dylai'r gwaith o drin strydoedd cefn sicrhau eu bod yn cysylltu â Heol-y-Frenhines, er nad yw hyn o angenrheidrwydd yn golygu defnyddio'r un deunyddiau a chelfi stryd.
- Sicrhau bod celfi stryd newydd (gan gynnwys arwyddion) yn ategu ac yn briodol ar gyfer pensaernïaeth a lleoliad yr Ardal Gadwraeth.
- Ceisio sicrhau nad yw unrhyw gelfi stryd (gan gynnwys arwyddion) yn cystadlu'n weledol â'r ffurf adeiledig a golygfa'r stryd.
- Gwella ansawdd y pwyntiau mynediad dwyreiniol a gorllewinol ym mhob pen i Heol-y-Frenhines er mwyn creu tir y cyhoedd sy'n unigryw ac yn gydnaws â'r amgylchedd hanesyddol, yn cryfhau cysylltiadau â'r ardaloedd amgylchynol ac yn ymdrin â cherbydau a cherddwyr mewn

modd mwy cytbwys. Mae hyn yn cynnwys gwella'r croesfannau i gerddwyr yn Plas Dumfries a Ffordd y Brenin / Heol y Dug. Dylai'r gwaith o wella'r cysylltiadau gweledol a ffisegol i Gastell Caerdydd gael ei ystyried fel rhan o'r broses ddylunio.

- Ceisio gwella golwg a'r defnydd o ardaloedd 'uchel eu traffig' trwy ddefnydd ystyriol o ddeunyddiau arwyneb, nifer a lleoliad arwyddion, mesurau rheoli traffig a goleuadau.

- Ymchwilio i gyfleoedd i ddefnyddio goleuadau i amlygu adeiladau, hyrwyddo nodweddion o bwysigrwydd/diddordeb pensaernïol yn y nos a diffinio mynedfeydd 'pyrth' i mewn i'r ardal. Bydd hyn yn helpu i atgyfnerthu nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.

# 3.3 Symudiad

## Materion Perthnasol

- Mae'r rhan fwyaf o'r Ardal Gadwraeth wedi'i phedestreiddio; fodd bynnag, mewn ardaloedd lle caniateir cerbydau (strydoedd ochr) nodwyd bod cerbydau'n aml yn parcio ar balmantau ac yn parcio / aros mewn mannau troi ac ar linellau melyn dwbl. Gall hyn achosi gwrthdaro rhwng defnyddwyr a rhwystro cylchrediad traffig.

- Gall lleoliad a nifer y celfi stryd ar hyd yr ardal amharu ar symudiad cerddwyr trwy'r Ardal Gadwraeth. Mae'r celfi hyn yn cynnwys mesurau i rwystro mynediad i gerbydau, megis blociau gwenithfaen.

- Mae Plas Dumfries (y pwynt mynediad dwyreiniol) a Ffordd y Brenin / Heol y Dug (y pwynt mynediad gorllewinol) yn brif lwybrau traffig o amgylch canol y ddinas. O ganlyniad, mae cerbydau a mesurau rheoli traffig yn eu dominyddu. Fodd bynnag, maent hefyd yn bwyntiau mynediad allweddol i gerddwyr i mewn ac allan o Heol-y-Frenhines, er bod y croesfannau cerddwyr yn wael a'r cerbydau'n cael blaenoriaeth dros y cerddwyr. Mae Ffordd y Brenin / Heol y Dug, yn enwedig, yn gwahanu Heol-y-Frenhines oddi wrth Gastell Caerdydd mewn modd ffisegol a gweledol.

- Er bod arwyddion cyfeirio i'w gweld yn yr Ardal Gadwraeth nid ydynt bob amser yn amlwg ymysg y celfi stryd eraill oherwydd eu lleoliad, graddfa lai a'u dyluniad unigol. Mae Heol-y-Frenhines yn cynnig cysylltiadau i Orsaf Heol-y-Frenhines, yr Orsaf Ganolog, Castell Caerdydd, Heol Eglwys Fair a Bae Caerdydd, ac mae Plas-y-Parc a'r Brodordy yn cynnig cysylltiadau i'r Ganolfan Ddinesig a Gorsaf Cathays.

## Cyfleoedd i Wella

- Ymchwilio i fesurau eraill ar gyfer atal mynediad cerbydau i ardaloedd pedestraidd yn hytrach na'r bolardiau a'r blociau gwenithfaen presennol, fel bod yr ardal yn fwy agored i gerddwyr. Sicrhau nad yw unrhyw fesurau eraill yn amharu ar gymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

- Ymchwilio i'r posibiliadau ar gyfer adleoli'r celfi stryd sy'n rhwystro symudiad cerddwyr.

- Gwella cysylltiadau cerddwyr wrth y mynedfeydd i Heol-y-Frenhines ar draws Plas Dumfries (y Porth Dwyreiniol) a Ffordd y Brenin / Heol y Dug (y Porth Gorllewinol).

- Adolygu cynnwys a lleoliad yr arwyddion cyfeirio presennol a'r wybodaeth i dwristiaid sy'n ymweld neu'n siopa yn yr ardal. Hyrwyddo cysylltiadau









- Y ffordd rhwng Castell Caerdydd a Heol-y-Frenhines
- Arwyddion i gerddwyr wrth y gyffordd a Plas-y-Parc
- Effaith y blociau gwenithfaen yn y pwynt mynediad gorllewinol
- Blociau gwenithfaen ac offer stryd yn y pwynt mynediad dwyreiniol









- Golygfa ar hyd y Brodordy o dŵrcloc Neuadd y Ddinas
- Coed stryd ar hyd Heol-y-Frenhines
- Y Theatr Newydd, Adeilad Tirnod ar hyd Plas-y-Parc
- Planhigion tymhorol ar hyd ffasadau adeiladau

i'r ardaloedd a'r cyrchfannau amgylchynnol ag arwyddion a marciau cyfeirio gwell, gan gynnwys: hyrwyddo Plas-y-Parc a'r Brodordy fel y prif gysylltiadau i gerddwyr i'r Ganolfan Ddinesig a'r cysylltiadau i Orsaf Heol-y-Frenhines, yr Orsaf Ganolog, Castell Caerdydd, Heol Eglwys Fair / Heol Fawr a Bae Caerdydd.

# 3.4 Tirlunio

## Materion Perthnasol

- Mae Heol-y-Frenhines yn cynnwys nifer o goed sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardal. Er bod coed yn lliniaru'r amgylchedd adeiledig maent hefyd yn amharu'n rhannol ar olygfeydd a lloriau uchaf nifer o adeiladau, gan guddio rhannau o asedau hanesyddol a phensaernïol yr ardal. Mae canopi o leiaf un goeden yn cyffwrdd adeilad.

## Cyfleoedd i Wella

- Wrth gynnig plannu coed yn y dyfodol, bydd angen ystyried nodweddion hanesyddol, adeiladau a golygfeydd.

- Gofyn i'r rhaglenni cynnal a chadw coed sicrhau nad yw canopïau coed yn difrodi adeiladau hanesyddol.

# 3.5 Hunaniaeth Leol

## Materion

- Er bod llinell flaenorol wal y dref ganoloesol wedi'i darlunio mewn pafin du a'i marcio gan blac cyfagos, yn gyffredinol nid oes digon o ddeunydd ar y stryd yn hyrwyddo cyd-destun hanesyddol yr ardal.

## Cyfleoedd i Wella

- Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o dreftadaeth yr ardal a'r adeiladau rhestredig trwy gyflwyno a gwella arwyddion a gwybodaeth i dwristiaid a pharhau i hyrwyddo Llwybr Canmlwyddiant Caerdydd, y mae Heol-y-Frenhines yn rhan ohono.

# 3.6 Golygfeydd

## Materion

- Mae lleoliad y celfi stryd wrth y cyffyrdd â'r strydoedd cefn yn creu gwahaniad ffisegol rhwng y strydoedd ochr a Heol-y-Frenhines. Mae hyn yn effeithio ar batrymau symud cerddwyr ac, yn ei dro, ar y llinell welediad i olygfeydd a thirnodau pwysig yn yr ardaloedd cyfagos.

- Gastell Caerdydd y ceir un o'r prif olygfeydd o'r Ardal Gadwraeth. Mae'r priffyrdd prysur, Ffordd y Brenin a Heol y Dug, sy'n cael eu dominyddu gan gerbydau, yn creu gwahaniad ffisegol a gweledol rhwng pen mwyaf gorllewinol Heol-y-Frenhines a Heol Sant Ioan a'r Castell. Yn enwedig, mae'r cyfuniad o arwyddion stryd a mesurau rheoli traffig wrth y pwynt mynediad gorllewinol hwn, mewn perthynas â'r ffordd a'r ardaloedd pedestraidd, yn amharu ar yr olygfa o'r castell.

## Cyfleoedd i Wella

- Ceisio cadw golygfeydd pwysig a gwneud y mwyaf o / gwella'r golygfeydd presennol ar hyd llwybrau allweddol, er enghraifft, lleoliad y Theatr Newydd ar gornel Plas-y-Parc a'r olygfa o'r Castell o Heol-y-Frenhines.



Plas Windsor

# cynnwys


## 1. CYFLWYNIAD..............................................

## 2. ASESU CYMERIAD YR ARDAL........................

2.1 Ansawdd Nodedig y Lle
- 2.1.1 Grwpiau o Adeiladau
- 2.1.2 Graddfa
- 2.1.3 Rhythm
- 2.1.4 Patrymau Defnydd
- 2.1.5 Lleoliad a Ffurf y Stryd
- 2.1.6 Golygfeydd
- 2.1.7 Symudiad

2.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod
2.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat
2.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun
2.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel
2.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

## 3. MATERION PERTHNASOL A CHYFLEOEDD...

3.1 Addasiadau i Adeiladau
3.2 Tir y Cyhoedd
3.3 Symudiad
3.4 Tirlunio
3.5 Hunaniaeth Leol
3.6 Golygfeydd

## 1.1 Cyflwyniad

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Plas Windsor ym 1975, gan gydnabod ei hansawdd hanesyddol a phensaernïol.

### Map 1: Ffin Ardal Gadwraeth Plas Windsor dynodwyd 1975.



# 2 asesu cymeriad yr ardal

## 2.1 Ansawdd Nodedig y Lle


Mae Ardal Gadwraeth Plas Windsor wedi'i lleoli i'r gogledd o Heol-y-Frenhines, prif stryd siopa brysur Caerdydd.

Mae tri grŵp nodedig o adeiladau sy'n amlwg o fewn yr Ardal Gadwraeth oherwydd eu gosodiad, eu ffurf a'u nodweddion pensaernïol. Un o brif nodweddion Plas Windsor yw'r ddau deras o dai yn yr arddull clasurol sy'n wynebu ei gilydd ar draws stryd lydan â choed bob ochr iddi. Mae parau o dai Fictoraidd yn yr arddull Gothig â nodweddion pensaernïol tebyg yn amgylchynu'r ardal hirgrwn ganolog yng Nghilgant St Andrew. Prif nodwedd Plas-y-Parc yw'r casgliad o adeiladau sydd oll ychydig yn wahanol i'w gilydd, ac weithiau'n eithaf eclectig o ran steil, ond yn debyg o ran graddfa, y deunyddiau adeiladu cydategol a'u perthynas â'r stryd.

### 2.1.1 Grwpiau o Adeiladau

Mae'r adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth wedi eu gosod mewn blociau perimedr penodol, gyda phlotiau cul, rheolaidd, a pherthynas gref â thir y cyhoedd.


### Map 2: Grwpiau o Adeiladau



## 2.1.2 Graddfa

Tai Fictoraidd 3 llawr yw'r rhan fwyaf o'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth – fe'u gwelir ym Mhlas Windsor a Chilgant St Andrew – gydag adeiladau mwy sylweddol 3 neu 4 llawr ym Mhlas-y-Parc. Defnyddiwyd yr un uchder adeiladau, sef 3-4 llawr, wrth adeiladu'r swyddfeydd modern yn Stuttgarter Strasse, fodd bynnag mae'u ôl troed a'u cydosodiad yn rhoi graddfa lawer mwy dominyddol i'r Ardal Gadwraeth, sy'n wahanol iawn i gymeriad preswyl hanesyddol y lle.

Mae graddfa a chyfrannedd y strydoedd yn cyfrannu llawn cymaint at gymeriad yr Ardal Gadwraeth ag a wna graddfa'r adeiladau oddi mewn iddi.




Cynlluniwyd Plas Windsor a Chilgant St Andrew yn bwrpasol ac yn ofalus, fel llwybr pwysig i'r ganolfan fasnachu, ac i greu awyrgylch pleserus i'r masnachwyr cyfoethog a breswyliai yno. Ym Mhlas Windsor, mae cyfrannedd clasurol yr adeiladau, strydoedd llydan a phlanhigion stryd niferus yn dangos y bwriad hwn. Er bod y strydoedd yn llydan, mae gosodiad yr adeiladau ynghyd â lonydd coed yn rhoi ymdeimlad cryf o fod mewn man caeedig.

## 2.1.3 Rhythm

Mae gan ddatblygiadau o fewn yr Ardal Gadwraeth rythm clir a diffiniedig; mae hyn i'w weld yn bennaf ym Mhlas Windsor gyda'i blotiau sy'n gyson o ran eu lled a lleoliad rheolaidd y drysau a ffenestri yn ffasâd y rhes o dai.

Mae rhythm cryf hefyd i'w weld yn yr eiddo pâr yng Nghilgant St Andrew a Phlas-y-Parc, ac ym manylion fertigol adeiladau tirnod megis y Theatr Newydd.

## 2.1.4 Patrymau Defnydd

Er mai tai o statws uchel a adeiladwyd yn wreiddiol yn yr ardal hon, mae cofnodion o 1889 ymlaen yn dangos cynnydd ym mhresenoldeb busnesau proffesiynol megis cyfreithwyr, yn sgîl sefydlu'r Llys yn y Ganolfan Ddinesig. Mae hyn yn adlewyrchiad o pa mor gyflym yr ehangodd y ddinas, a phwysigrwydd Heol-y-Frenhines fel canolfan fasnachol.









- Plas Windsor
- Cilgant St Andrew
- Plas-y-parc
- Stuttgarter Strasse









- Swyddfeydd, Ciligant St Andrew
- Parcio y tu ôl i swyddfeydd – Lôn-y-Parc
- Mynediad a ramp – Eglwys Unedig Ddiwygiedig y Ddinas
- Cyswllt i gerddwyr rhwng Plas Windsor a Chilgant St Andrew

Ar hyn o bryd, swyddfeydd ac adeiladau at ddefnydd hamdden sydd yn yr ardal gan fwyaf. Yn ogystal â newid yr adeiladau cyfredol yn swyddfeydd, codwyd adeiladau swyddfeydd modern a phwrpasol.

Mae'r galw am swyddfeydd ychwanegol a seilwaith cynhaliol wedi cael effaith ffisegol ar yr Ardal Gadwraeth. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys: estyniadau sylweddol i ochr a chefn Cilgant St Andrew, ac i gefn Plas Windsor, yn aml yn cael eu hadeiladu dros lawer o'r plotiau sy'n weddill; colli ffiniau blaen ym Mhlas Windsor a Chilgant St Andrew; a llefydd parcio ac eiddo masnachol ar hyd Plas-y-Parc.

Mae'r defnydd masnachol a chymunedol yn yr ardal yn galw am fynediad i'r cyhoedd, a daw hynny o dan awdurdodaeth y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, 1995. Yn Eglwys Unedig Ddiwygiedig y Ddinas ym Mhlas Windsor, rhoddwyd pafin dyrchafedig yn lle'r grisiau o flaen y brif fynedfa er mwyn gwella mynediad i'r adeilad. Ar y cyfan, effaith fach a gafwyd ar gyfanrwydd pensaernïol yr adeilad.

## 2.1.5 Lleoliad a Ffurf y Stryd

Ym Mhlas Windsor, mae lled y stryd yn y pen gogleddol ac aliniad llinellol yr eiddo yn creu echelin gref o'r gogledd i'r de, gan roi ffurfioldeb i'r stryd cyn hyd yn oed ystyried yr adeiladau eu hunain. Mae'r ffurfioldeb hwn yn cael ei atgyfnerthu gan osodiad cyson a rheolaidd y coed stryd.

Yng Nghilgant St Andrew, caiff y siâp hirgrwn ei greu gan ffiniau blaen yr eiddo sy'n wynebu'r pafin allanol yn hytrach na chan aliniad yr adeiladau. Mae'r llain las hirgron sy'n amgylchynu'r eglwys a'r canopi o goed ar y perimedr yn atgyfnerthu ffurf hirgrwn y Cilgant.

## 2.1.6 Golygfeydd

Mae'r golygfeydd pwysig o fewn, ac i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys:

- Cipolygon ar y Ganolfan Ddinesig ar draws Gerddi'r Orsedd.
- Golygfeydd o'r Theatr Newydd o Heol-y-Frenhines a Phlas-y-Parc.
- Cipolygon ar Blas Windsor o Heol-y-Frenhines.
- Golygfeydd o Eglwys Dewi Sant yng Nghilgant St Andrew o Blas Windsor.


## 2.1.7 Symudiad

Mae nifer sylweddol o lwybrau i gerbydau sy'n cyfeirio'r traffig yn lleol ac i rannau eraill o'r ddinas gan groesi trwy Ardal Gadwraeth Plas Windsor.


Mae'r strydoedd ffurfiol yn llwybrau deniadol i gerddwyr gael mynediad at y busnesau niferus sydd yn yr ardal, ac yn darparu llwybrau o'r ardaloedd preswyl cyfagos i Ganol y Ddinas, y Brifysgol a'r Ganolfan Ddinesig.

Mae Plas Windsor a Chilgant St Andrew yn darparu echelin gogledd-de gref i gerddwyr; fodd bynnag, ymyrrir ar y llwybr pwysig hwn gan y llwybrau dominyddol i gerbydau, yn enwedig Stuttgarter Strasse a Phlas Dumfries. Mae'r ffyrdd llydan hyn, sydd â lefel uchel o draffig, yn rhwystr i gerddwyr oherwydd y dewis cyfyngedig o bwyntiau croesi diogel.

I ffwrdd o'r llwybrau trwodd hyn, mae'r cylchrediad cerbydau yn cydfodoli'n gymharol heddychlon gyda llif y cerddwyr. Mae cerbydau'n teithio'n arafach wrth chwilio am lefydd parcio neu geisio dod o hyd i fusnesau. Gall natur agos a chyfyngedig y llefydd parcio hefyd helpu i arafu cyflymder gyrwyr.




Map 3: Golygfeydd
Park Grove
St Andrew's Place
Civic Centre
Gorsedd Gardens
Park House
Eglwys Dewi Sant
St Andrews Crescent
25-33 Windsor Place
Dumfries Place
Stuttgarter Strasse
Boulevard De Nantes
Windsor Place
Dock Feeder
Y Theatr Newydd
City United Reform Church
Greyfriars Road
11-24 Windsor Place
Sefydliad Peirianwyr De Cymru
3-11 Park Place
Queen Street
Golygfeydd Uniongyrchol
Cipolygon

Map 4: Symudiad
Park Grove
St Andrew's Place
St Andrews Crescent
Gorsedd Gardens
Stuttgarter Strasse
Boulevard De Nantes
Dumfries Place
Windsor Place
Dock Feeder
New Theatre
Greyfriars Road
Queen Street
Symudiad Cerddwyr Allweddol
Symudiad Cerbydau
Llwybrau Troed
Cysylltiadau â'r Ardaloedd Cyfagos

# 2.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod

## Map 5: Adeiladau Tirnod








## 11-24 Plas Windsor a 25-33 Plas Windsor:

Y tai rhes Fictoraidd hyn yw'r tai sydd wedi'u cadw orau o ganol y 19eg Ganrif yng nghanol Caerdydd, ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae'r ddwy res o dai yn wynebu ei gilydd ar draws stryd lydan â choed wedi'u plannu ar hyd y naill ochr a'r llall. Mae rhai o'r eiddo wedi cadw eu balconïau sydd â gwaith haearn addurnedig.



## Eglwys Unedig Ddiwygiedig y Ddinas, Plas Windsor:

Mae gan yr eglwys feindwr wythochrog tal a chyntedd trawiadol dros y drws deheuol. Mae cynllun Gothig Seisnig gynnar iddi, ond mae rhannau ohoni wedi eu dylanwadu gan bensaernïaeth gogledd yr Eidal yn ogystal.



## Eglwys Dewi Sant (Eglwys St Andrew gynt), Cilgant St Andrew:

Mae'r eglwys hon yn ganolog i Gilgant St Andrew, ac yn darparu cyswllt gweledol pwysig ar draws Stuttgarter Strasse.



## 3-11 Plas-y-Parc:

Grŵp o dai Fictoraidd tal, dosbarth canol yng nghanol y ddinas sydd wedi'u cadw'n dda ac a gynlluniwyd gan yr un pensaer. Maent wedi eu rhannu yn bedwar pâr o dai ac un tŷ ar wahân; mae'r tai hyn yn nodedig fel grŵp unedig ond hefyd yn unigol oherwydd eu nodweddion pensaernïol a'r manylion sy'n amrywio o bâr i bâr.



## 20 Plas-y-Parc (Park House):

Adeiladwyd ym 1871-1875 a chynlluniwyd gan William Burgess. Ystyrir y tŷ hwn un o'r enghreifftiau gorau o dŷ tref a gynlluniwyd gan y pensaer, ac mae'r adeilad yn adlewyrchu arddull unigryw ac eclectig Burgess. Mae'r adeilad rhestredig Gradd I hwn yn unigryw o fewn yr Ardal Gadwraeth ac wedi dylanwadu'n gryf ar bensaernïaeth ddomestig diwedd cyfnod Fictoraidd/dechrau'r cyfnod Edwardaidd yng Nghaerdydd.



## Sefydliad Peirianwyr De Cymru, Plas-y-Parc:

Codwyd yr adeilad ym 1893 i gynllun E. W. M. Corbett. Mae'r cyferbyniad rhwng lliw cyfoethog y brics gwasgedig a'r mowldin teracota yn rhoi presenoldeb bywiog i'r stryd




## Y Theatr Newydd, Plas-y-Parc:

Mae bae crwm y fynedfa sy'n estyn i fyny dri llawr, y colofnau uwchben yr ail lawr a'r cromenni wythochrog ar y to yn ei gwneud yn hawdd adnabod y theatr hon, sy'n dirnod hanfodol o fewn yr Ardal Gadwraeth.

## 2.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

Yn hanesyddol, diffiniwyd y tir preifat a chyhoeddus yn glir o flaen adeiladau, gyda waliau ffin a rheiliau yn gwahaniaethu rhwng y tir preifat a thir y cyhoedd. Mae tystiolaeth glir bod y ffiniau hyn wedi diflannu ledled yr Ardal Gadwraeth.

Mae'r darn hirgrwn o dir a gaiff ei ddiffinio gan ffiniau blaen yn Nghilgant St Andrew wedi dirywio dros y blynyddoedd oherwydd newidiadau a cholli'r waliau terfyn o flaen yr adeiladau. Mae waliau a rheiliau terfyn ym Mhlas Windsor hefyd wedi eu colli.

Mae'r erydiad hwn yn eithriadol o amlwg tu ôl i'r eiddo, ble mae perchnogion wedi gwneud y mwyaf o'r llefydd i barcio y gellir eu cyrraedd o'r lonydd cefn.

## 2.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

Y prif ddeunyddiau adeiladu yn yr Ardal Gadwraeth yw brics coch neu garreg Pennant wedi'i naddu, gyda thriniaethau mewn carreg Caerfaddon neu stwco a thoi llechi.

Rhai eithriadau amlwg yw 20 Plas-y-Parc, sydd â manylion gwenithfaen pinc wedi'i lathru; Sefydliad Peirianwyr De Cymru, sydd â mowldin teracota; eiddo ag arwyneb stwco yn 18-19 a 21-28 Plas-y-Parc; carreg binc Radur a ddefnyddir ym manylion ffenestri a drysau Eglwys Unedig Ddiwygiedig y Ddinas; a gweddill y rheiliau haearn a balconïau ym Mhlas Windsor.

Gosodwyd cerrig Pennant yn y palmant mewnol o amgylch Eglwys Dewi Sant yn Nghilgant St Andrew ac mae'r palmentydd ym Mhlas Windsor wedi eu huwchraddio'n rhannol gyda cherrig Pennant.









- Waliau a rheiliau terfyn, Plas-y-Parc
- Rheiliau terfyn wedi diflannu, Plas Windsor
- Adeilad o garreg Pennant gyda thriniaethau carreg Caerfaddon.
- Rheiliau haearn, Plas Windsor


# 2.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

Mae manylion pensaernïol safonol yn amlwg yn yr Ardal Gadwraeth, sy'n adlewyrchiad o lewyrch ac optimistiaeth Caerdydd yn y cyfnod Fictoraidd. Er bod amrywiaeth o arddulliau a manylder bensaernïol i'w cael yn yr Ardal Gadwraeth, gan cynnwys gwaith stwco wedi'i baentio, triniaethau carreg syml neu gerfiedig, colofnresi a bargodion wedi'u haddurno, mae nifer o nodweddion cyffelyb sy'n tynnu'r gwahanol arddulliau ynghyd, gan roi cymeriad deniadol a chydlynol i'r Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio pwyslais fertigol cryf, cyfrannedd, seilio ac hierarchaeth yn y ffasadau.

Mae llawer o'r manylion pensaernïol yn canolbwyntio ar y prif fynedfeydd a'r ffenestri i'r prif ystafelloedd ar y llawr gwaelod ar weddlun blaen y tai. Fodd bynnag, mae llawer o dystiolaeth amlwg o ddiddordeb pensaernïol ychwanegol ar y lloriau uchaf, ar y to ac ar ochrau'r adeiladau. Er enghraifft, mae prif fynedfa Park House gyda'r cyntedd a gynhelir gan golofnau o wenithfaen pinc wedi ei leoli ar ochr y tŷ. Caiff nifer o'r adeiladau eu bywiogi gan gyfuniad a chyferbyniad y deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer y manylion pensaernïol.

Mae rhai manylion pensaernïol allanol megis ffenestri, drysau, balconïau, cyrtiau blaen a rheiliau wedi diflannu dros y blynyddoedd. Efallai i reiliau a balconïau gael eu colli oherwydd yr angen am haearn yn ystod yr Ail Ryfel Byd; a newidiwyd drysau a ffenestri oherwydd yr angen am wella effeithlonrwydd ynni. Mae'r dirywiad mewn argaeledd sgiliau traddodiadol, a'r ddibyniaeth gynyddol ar eitemau, megis ffenestri a drysau, sydd wedi'u masgynhyrchu, hefyd wedi cyfrannu at golli manylion gwreiddiol dros y blynyddoedd.

## Map 6: Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel





Ffenestri bae yn 3 - 4 Plas-y-Parc, gyda tho pyramidaidd ar lefel yr atig.



Manylion ar ffenestri dormer a'r simneiau  yn rhifau 5 a 6 Plas-y-Parc.



Tyredau wythochrog gyda manylion addurnedig i goroni to'r Theatr Newydd.



Cwfl carreg Caerfaddon dros ddrws gyda manylion addurnedig sy'n cynnwys parapet rhwyllog a cherfwaith ffigurol.





Manylion clasurol, cynnil yn fframio drws ym Mhlas Windsor.



Plas Windsor – ffenestr ddalennog ar y llawr cyntaf gyda manylion clasurol mewn carreg Caerfaddon



Bwa pigog addurnedig, a chwfl carreg Caerfaddon dros ddrws cilfachog – Plas-y-Parc



Defnyddir manylion Carreg Caerfaddon i greu effaith ddramatig o amgylch ffenestr llawr uwch - Park House



Mae siâp cryf pen uchaf y ffenestri'n wahanol ar bob llawr – 9 a 10 Plas-y-Parc.



Park House – Mae colofnau o wenithfaen pinc a bwâu o garreg Caerfaddon yn ffurfio arcêd ar y gweddlun blaen.



Plas-y-Parc – Mae'r cyrn simnai corbelog a'r ffenestri yn gwneud y gweddlun ochr yn fwy diddorol.




Mae rhai o'r adeiladau ym Mhlas Windsor wedi cadw eu balconïau â rheiliau haearn.



Defnyddir carreg binc Radur fel rhan o'r manylion o gwmpas y prif ddrws – Eglwys Unedig Ddiwygiedig y Ddinas



Mowldin teracota o blanhigyn yn addurno pilastr yn Sefydliad Peirianwyr De Cymru.



Pilastr o garreg Caerfaddon gyda phen colofn a chorbel wedi'u cerfio'n gain – drws rhif 3, Plas-y-Parc.



Gargoel wedi'i gerfio yng nghornel adeilad Park House.



Teils yn cael eu defnyddio i greu patrwm siecrog uwchben ffenestr llawr uchaf yn 11 Plas-y-Parc.



Pen peipen a pheipen ddŵr o haearn bwrw – Eglwys Unedig Ddiwygiedig y Ddinas.

# 2.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

## Tirlunio Caled.

Mae ansawdd a chysondeb y deunyddiau pafin yn amrywio ledled yr Ardal Gadwraeth. Mae'r ffaith bod y pafin gwreiddiol o garreg Pennant wedi ei gadw yn y darn hirgrwn canolog yng Nghilgant St Andrew ac ar ochr ddwyreiniol Plas Windsor wedi cyfrannu'n sylweddol at gymeriad a ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth. Mae ardaloedd eraill wedi colli eu deunyddiau pafin gwreiddiol, sydd wedi'u disodli gan amrywiaeth o ddeunyddiau pafin cyfoes, gan gynnwys cerrig pafin concrit, blociau pafn a choncrit wedi ei arllwys.

Mae cerrig pafin gwreiddiol y palmant allanol yn Nghilgant St Andrew wedi diflannu wrth i wahanol eiddo dynnu eu waliau terfyn blaen er mwyn ei gwneud yn haws parcio. Mae'r deunyddiau pafin newydd yn amrywio o ran deunydd, ansawdd, cynllun ac ymdriniaeth, ac o ganlyniad wyneb anwastad, tameidiog sydd i bafin y Cilgant.

Yn sgîl creu llefydd parcio ar flaengyrtiau Cilgant St Andrew cafwyd problemau gyda slabiau yn cracio neu dorri ac olew yn gollwng ar bafin y stryd.

Drwy'r ardal, bu tuedd i ddefnyddio deunyddiau o safon isel, gan gynnwys gwaith atgyweirio neu welliannau sydd hefyd o safon isel. Mae'r effaith gyffredinol yn amharu ar ansawdd gweledol ac ymddangosiad yr ardal.

Yn bennaf, tarmac du a ddefnyddir ar gyfer gosod arwyneb newydd ar y ffordd, gyda llinellau wedi eu paentio i ddynodi llefydd parcio. Mae'r lonydd cefn hefyd mewn cyflwr gwael, a llawer ohonynt â choblau sydd wedi eu gorchuddio neu eu clytio â tharmac.

Ym Mhlas Windsor a Chilgant St Andrew, mae'r goleuadau stryd Fictoraidd traddodiadol yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal; fodd bynnag, mewn nifer o leoliadau, mae'r celfi stryd ac arwyddion anhrefnus yn gwneud i'r stryd edrych yn anniben. Ym Maes St. Andrew er enghraifft, mae nifer o eitemau sydd wedi eu gosod driphlith draphlith o amgylch y blwch postio coch deniadol, traddodiadol, gan amharu ar ymddangosiad y man hwnnw.

## Coed a Thirlunio Meddal.

Mae'r ddwy res o goed pisgwydd aeddfed, deg bob ochr i Blas Windsor, yn hanfodol i gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Cynlluniwyd a phlannwyd y coed gwreiddiol ar yr un pryd ag yr adeiladwyd y rhesi o dai, tua 1860. Mae cyfran sylweddol o'r coed gwreiddiol yn dal i oroesi; fodd bynnag, erbyn hyn maent tua 140 mlwydd oed ac yn cyrraedd diwedd eu hoes.

Mae nifer o goed wedi eu newid ar yr heol, ond mae'r difrod i goed ifanc gan gerbydau wedi atal nifer ohonynt rhag tyfu'n llwyddiannus. Bellach mae bylchau i'w cael ble mae coed ifanc wedi methu â thyfu, ble bu canopi di-dor o goed unwaith. Mae difrod damweiniol i'r coed ym Mhlas Windsor hefyd yn achosi iddynt golli eu siâp. Mae'r tyllau lle plannwyd coed newydd yn aflwyddiannus wedi eu llenwi â tharmac.

Plannwyd y coed a'r llain las o amgylch Eglwys Dewi Sant yng Nghilgant St Andrew tua'r un pryd â'r datblygiadau cyfagos, rhwng 1860 ac 1880. Mae'r casgliad hirgrwn o goed yng Nghilgant St Andrew yn dal yno, ond mae'r coed yn hen iawn bellach. Dyma'r unig lain las arwyddocaol yn yr Ardal Gadwraeth ac mae'n ardal werdd ganolog bwysig sy'n gwneud cyfraniad gweledol cryf i'r ardal. Yn anffodus, mae'r mannau parcio talu ac arddangos o amgylch ymyl y llain yn difetha'r effaith weledol.

Does dim lleiniau glas arwyddocaol eraill yn yr ardal, ar wahân i'r ardd fach, ddeniadol ger yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig a'r ardal fechan ger Caerwys House. Mae'r rhan fwyaf o'r gerddi blaen caeedig a oedd i'w cael yn yr Ardal Gadwraeth bellach wedi diflannu, er bod coed pwysig i'w cael mewn rhai gerddi blaen, ym Mhlas-y-Parc yn enwedig.









- Blociau pafin amhriodol yng Nghilgant St Andrew
- Gwaith clytio o ansawdd wael Lon-y-Parc
- Coed Pisgwydd ym Mhlas Windsor
- Coed Pisgwydd a lawnt yng Nghilgant St Andrew

# 3 materion perthnasol a chyfleoedd








- Rheiliau terfyn wedi diflannu ym Mhlas Windsor
- Parcio ar gwrt blaen yng Nghilgant St Andrew
- Arwyddion arwahanol

## 3.1 Addasiadau i Adeiladau

### Materion

- Oherwydd colli manylion pensaernïol fel ffenestri, balconïau a rheiliau gwreiddiol, ac addasiadau amhriodol, collwyd peth o gymeriad yr Ardal Gadwraeth ac amharwyd ar ymddangosiad rhai o'r adeiladau hanesyddol.
- Mae colli ffiniau blaen yng Nghilgant St Andrew a Phlas Windsor wedi cael effaith sylweddol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth ac ar y diffiniad o fannau cyhoeddus a phreifat.
- Mae defnyddiau masnachol yn creu galw am arwyddion i hyrwyddo eu presenoldeb; ond mae arwyddion sydd wedi'u cynllunio'n wael yn gallu cael effaith negyddol ar gymeriad ac ymddangosiad yr adeilad a'r Ardal Gadwraeth.
- Oherwydd natur y defnyddiau masnachol a chymunedol yn yr ardal, gall fod angen gwella'r mynediad at rai adeiladau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. O ran Adeiladau 'Rhestredig' yn enwedig, bydd yn rhaid ystyried y gofyniad hwn gyferbyn â'r hyn sy'n 'rhesymol' yn nhermau gwella mynediad ac effaith unrhyw ymyrraeth angenrheidiol ar rinwedd pensaernïol yr adeilad.

### Cyfleoedd i Wella

- Sicrhau bod newidiadau i adeiladau (gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â hysbysebu a manylion ffasgia) yn cael eu gwneud gan ystyried dyluniad a chymeriad gwreiddiol yr adeilad. Yn benodol, sicrhau bod lloriau gwaelod a lloriau uchaf yn cydweddu o ran cyfrannedd, nodweddion a'r defnydd o ddeunyddiau addas, fel bod y llawr gwaelod yn gydnaws â'r lefelau uchaf a'r adeilad yn cael ei weld fel un uned gyfan.
- Sicrhau bod datblygiadau/addasiadau i adeiladau yn gydnaws â'r eiddo cyffiniol (yn enwedig pan fyddant yn rhan o grŵp), ac â chyd-destun hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.
- Sicrhau bod unrhyw newidiadau yn ymgorffori deunyddiau o ansawdd uchel wedi'u cyfuno â nodweddion a chynllunio pensaernïol o ansawdd uchel sy'n ategu'r adeiladau hanesyddol a chymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Sicrhau bod nodweddion gwreiddiol adeiladau hanesyddol yn cael eu cynnal a chadw, eu glanhau a'u hadnewyddu'n sensitif er mwyn amddiffyn a gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Ceisio cadw a gwella cymeriad hanesyddol y Stryd a'r diffiniad o fannau cyhoeddus a phreifat trwy gadw ac adfer waliau terfyn.
- Adolygu'r canllawiau dylunio ar gyfer blaen siopau ac arwyddion ar adeiladau, yn enwedig arwyddion masnachol, i amddiffyn cymeriad arbennig yr ardal.
- Sicrhau mynediad corfforol i adeiladau hanesyddol heb ddinistrio'u cyfanrwydd pensaernïol nac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

# 3.2 Tir y Cyhoedd

## Materion

- Mae diffyg cysondeb wrth gynnal a chadw tir y cyhoedd wedi arwain at golli pafin carreg Pennant hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.

- Mae celfi ac arwyddion stryd yn doreithiog, yn anghydlynol, wedi eu lleoli'n wael ac yn amharu'n weledol ar ymddangosiad y stryd.

- Mae darnau mawr o darmac ym Mhlas Windsor a Chilgant St Andrew yn cael effaith negatif ar gymeriad yr ardal.

- Mae Stuttgarter Strasse yn gwahanu Plas Windsor a Chilgant St Andrew yn ffisegol ac yn weledol ac yn effeithio ar eu cymeriad hanesyddol. Byddai tir y cyhoedd, ac yn enwedig y groesfan i gerddwyr sy'n cysylltu'r ddwy ardal, yn elwa o welliannau.

- Mae'r llefydd parcio cyhoeddus ar y stryd yn Mhlas Windsor ac yng Nghilgant St Andrew wedi cael effaith negatif ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth, yn weledol ac oherwydd y gwrthdaro rhwng cerbydau a cherddwyr, yn ogystal â thrwy beri difrod i goed y stryd.

- Mae cynllun y ffordd a lleoliad y celfi stryd ym mhen deheuol Plas Windsor yn creu rhwystr ffisegol sy'n gwahanu Plas Windsor oddi wrth Heol-y-Frenhines. Mae hyn yn effeithio ar batrymau symud cerddwyr ac yn ei dro yn effeithio ar y llinell gweledigad i mewn a thrwy'r Ardal Gadwraeth.

- Mae'r lonydd cefn mewn cyflwr gwael gyda setiau/arwynebau coblau wedi'u gorchuddio â deunyddiau eraill.

## Cyfleoedd i Wella

- Defnyddio dull gweithredu sy'n cynnal ansawdd uchel wrth ddylunio cynlluniau ar gyfer tir y cyhoedd, fel eu bod yn diwallu anghenion modern ac yn ategu adeiladau a chyd-destun hanesyddol yr ardal.

- Annog y defnydd o gelfi stryd o ansawdd uchel a phafin pennant naturiol, sy'n cyfrannu at, ac yn parchu cymeriad yr Ardal Gadwraeth, y cyd-destun hanesyddol a'r adeiladau rhestredig. Yn achos lonydd cefn, cydnabod arwyddocâd setiau/coblau gwreiddiol a chynllunio ar gyfer eu cadw.

- Ceisio gwella rhannau o dir y cyhoedd sydd wedi dirywio yn eu hymddangosiad neu sy'n amharu ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

- Sicrhau bod celfi stryd newydd (gan gynnwys arwyddion) yn ategu ac yn briodol ar gyfer pensaernïaeth a lleoliad yr Ardal Gadwraeth.

- Lleihau annibendod stryd, cael gwared ar unrhyw offer stryd diangen a gormodol (gan gynnwys arwyddion), ac adolygu lleoliad a gosodiad y celfi stryd presennol.

- Ceisio sicrhau nad yw unrhyw gelfi stryd (gan gynnwys arwyddion) yn cystadlu'n weledol â'r ffurf adeiledig a'r golygfeydd o'r stryd.

- Ceisio gwella tir y cyhoedd rhwng Plas Windsor a Chilgant St Andrew i wella'r cyswllt cerddwyr ar hyd Stuttgarter Strasse ac ailddiffinio cyd-destun hanesyddol yr ardal.









- Defnydd anghyson o ddeunyddiau pafin
- Llecyn eang o darmac ym Mhlas Windsor
- Parcio ar y stryd trwy'r ardal
- Darllenadwyedd gwael rhwng Heol-y-Frenhines a Phlas Windsor









- Mae Stuttgarter Strasse yn gwahanu Plas Windsor oddi wrth Ciligant St Andrew
- Pafin pennant gwreiddiol
- Coed stryd aeddfed
- Golygfa o Blas Windsor o Heol-y-Frenhines

- Cadw a gwella cymeriad hanesyddol Plas Windsor gan gynnwys: adfer pafin pennant, parhau gyda'r rhaglen cynnal a chadw coed y stryd a, lle bo'n briodol, plannu coed newydd i greu ffiniau cwrt blaen o ansawdd uchel a lleihau effaith cerbydau ar yr ardal.
- Ceisio gwella tir y cyhoedd yn y gyffordd rhwng Plas Windsor a Heol-y-Frenhines er mwyn rhoi gwell blaenoriaeth i gerddwyr, gwella'r golygfeydd a gwella darllenadwyedd.

## 3.3 Symudiad

### Materion

- Gellid hyrwyddo'r cysylltiadau â'r ardaloedd amgylchynol yn well.
- Mae'r prif lwybr traffig ar hyd Stuttgarter Strasse yn gwahanu Plas Windsor oddi wrth Gilgant St Andrew ac yn effeithio ar eu cymeriad hanesyddol.
- Mae'r groesfan i gerddwyr yn y gyffordd rhwng Plas Windsor a Stuttgarter Strasse yn gallu achosi gwrthdaro rhwng cerddwyr a cherbydau sy'n gadael Plas Windsor.
- Byddai'r cysylltiadau i gerddwyr ar draws Heol y Brodyr Llwydion, Stuttgarter Strasse a Maes St Andrew yn elwa o welliannau.
- Plas Windsor a Phlas-y-Parc yw'r ddau brif lwybr i gerddwyr gyrraedd Heol-y-Frenhines; fodd bynnag, mae'r llwybrau cysylltu hyn wedi eu diffinio'n wael ac yn dioddef oherwydd y celfi stryd sydd o ansawdd isel.
- Nid yw Plas-y-Parc yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol fel llwybr cyswllt i'r Ganolfan Ddinesig, Parc Cathays a'r Brifysgol. Cyfyngir ar fynediad cerddwyr gan ansawdd a lleoliad y pwynt croesi yn Boulevard de Nantes.

### Cyfleoedd i Wella

- Adolygu cynnwys a lleoliad yr arwyddion presennol a hyrwyddo cysylltiadau ag ardaloedd a chyrchfannau cyfagos trwy wella'r arwyddion a marciau ffordd.
- Gwella cynllun y groesfan i gerddwyr yn y gyffordd rhwng Plas Windsor a Stuttgarter Strasse i leihau'r potensial am wrthdaro rhwng cerddwyr a cherbydau sy'n gadael Plas Windsor.
- Gwella'r cysylltiadau i gerddwyr ar draws Heol y Brodyr Llwydion, Stuttgarter Strasse a Maes St Andrew.
- Gwella Plas-y-Parc fel y prif gyswllt i gerddwyr rhwng Heol-y-Frenhines a'r Ganolfan Ddinesig a Phlas Windsor fel y prif gyswllt i Heol-y-Frenhines.

## 3.4 Tirlunio

### Materion

- Mae'r coed stryd ym Mhlas Windsor a Chilgant St Andrew bellach yn hen ac yn cyrraedd diwedd eu hoes.
- Mae parcio mewn cyrtiau blaen yng Nghilgant St Andrew wedi arwain at golli gerddi a waliau terfyn blaen.
- Mae'r ardal agored o amgylch Eglwys Dewi Sant a Chilgant St Andrew yn gwneud cyfraniad gweledol i'r Ardal Gadwraeth; fodd bynnag mae'r mannau parcio o'i amgylch yn tynnu oddi ar brydferthwch yr ardal.

### Cyfleoedd i Wella

- Sefydlu rhaglen i gynnal a chadw a phlannu coed stryd newydd sy'n addas o ran math a maint, i sicrhau eu bod yn parhau i gyfrannu at gymeriad a phrydferthwch yr ardal.
- Ceisio cadw a gwella cymeriad hanesyddol y stryd trwy gadw ac adfer waliau terfyn o ansawdd uchel ac annog ailsefydlu gerddi.

## 3.5 Hunaniaeth Leol

### Materion

- Nid yw cyd-destun hanesyddol yr ardal yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol ar y stryd.
- Nid yw llawn botensial pensaernïaeth ddiddorol yr adeiladau yn cael ei gyflawni, o ran eu cyfraniad i dir y cyhoedd.

### Cyfleoedd i Wella

- Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o dreftadaeth yr ardal a'r adeiladau rhestredig trwy gyflwyno a gwella arwyddion a gwybodaeth i dwristiaid.
- Ystyried goleuo adeiladau o bwys pensaernïol er mwyn diffinio'r mynedfeydd i'r ardal a chryfhau hunaniaeth nodedig yr Ardal Gadwraeth, gan bwysleisio'r cysylltiadau rhwng yr ardaloedd.

## 3.6 Golygfeydd

### Materion

- Mae'r ardal yn cynnwys nifer o adeiladau tirnod; ond mae strydlun gwael a llwybrau traffig prysur yn andwyo golygfeydd allweddol o'r adeiladau hyn.

### Cyfleoedd i Wella

- Gwneud y mwyaf o'r golygfeydd presennol ar hyd llwybrau allweddol, er enghraifft, lleoliad y Theatr Newydd ar gornel Plas-y-Parc.









- Croesfan i gerddwyr ym Mhlas Windsor
- Diffyg amddiffyniad o amgylch coed stryd
- Parcio ar stryd o amgylch Ciligant St Andrew
- Amrywiaeth o gelfi stryd

# fframwaith ar gyfer gweithredu

## Cyflwyniad

Mae adrannau blaenorol o'r ddogfen yn disgrifio'r nodweddion sy'n creu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac yn nodi'r potensial ar gyfer eu gwella. Ar ôl ei fabwysiadu, defnyddir yr asesiad a'r canllaw i:

- Ddarparu arweiniad ar rinweddau arbennig pob ardal a sut i'w cadw a'u gwella,
- Creu cynllun gwella i arwain datblygiad yn yr ardaloedd,
- Fel sail i asesu ceisiadau cynllunio yn unol â Pholisi 2.53 o'r Cynllun Datblygu Unedol a gyflwynwyd hyd nes y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei fabwysiadu,
- Gosod blaenoriaethau ar gyfer rheoli a gwella tir y cyhoedd yn y dyfodol,

a:

- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn sensitif i gymeriad yr Ardaloedd Cadwraeth ac yn cyd-fynd yn dda gyda'r ffurfiau a'r cynlluniau presennol.
- Mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwerthfawrogiad o gymeriad a hanes arbennig canol y ddinas,
- Darparu cymorth i berchnogion eiddo, busnesau, grwpiau ac arweinwyr cymunedol yn eu hymdrechion i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth,
- Eu cadw'n llefydd deniadol i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.

## Gweithio mewn Partneriaeth

**Perchnogion Tir ac Eiddo.** Y ffordd fwyaf effeithiol o wella Ardal Gadwraeth yw sicrhau bod y rheiny sy'n cynllunio gwaith neu ddatblygiadau yn deall cymeriad yr ardal. Mae Adrannau 2-6 o'r ddogfen hon yn amlinellu cymeriad pum Ardal Gadwraeth yng nghanol y ddinas.

**Y Cyngor**. Er bod Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i baratoi cynllun ar gyfer gwella Ardal Gadwraeth, nid oes cyllideb na dull penodol ar gael i gyflawni hyn. Mae hyn yn golygu, er mwyn sicrhau gwelliannau, bod yn rhaid gweithio â strategaethau eraill ar y cyd â Gwasanaethau eraill y Cyngor neu mewn partneriaeth ag eraill.

Drwy'r cynlluniau canlynol, gallai'r Cyngor fod yn allweddol wrth ddylanwadu ar welliannau a'u rhoi ar waith.

- Defnyddio'r Gwerthusiadau fel deunydd ystyriaeth i arwain yr asesiad dros geisiadau cynllunio. Bydd disgwyl i Ddatganiadau Cynllunio a gyflwynir i gefnogi ceisiadau cynllunio ddangos bod datblygiadau wedi ystyried y cymeriad a nodir yn y ddogfen hon.

- Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol i ofalu am flaenau siopau ac arwyddion presennol ac arwain y gwaith o ddylunio rhai newydd.

- Trwy reoli a chynnal a chadw stad y Cyngor gan gynnwys eiddo, parciau a gerddi.

- Trwy hyrwyddo dealltwriaeth o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol yr ardal, a hynny drwy gysylltiadau ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru, ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau cymunedol eraill a Strategaeth Celf Gyhoeddus y Cyngor.

- Rheoli cyllideb bresennol y Cyngor yn effeithiol, er enghraifft wrth drwsio adeiladau, gwella a thrwsio priffyrdd a rheoli traffig.

- Rhoi cymorth i fentrau i gryfhau a gwella rôl twristiaeth, siopa a busnes yr ardal trwy fentrau a nodir o fewn Strategaeth Canol y Ddinas a'i brif amcanion.

Mae Strategaeth Canol y Ddinas yn nodi nifer o brif amcanion. Mae'r canlynol wedi eu mabwysiadu yn dilyn ymgynghoriad ar ddarganfyddiadau'r gwerthusiad:

- Cadw adeiladau a strwythurau hanesyddol,
- Cadw a gwella cymeriad ac ymddangosiad ardaloedd cadwraeth yng nghanol y ddinas,
- Hyrwyddo cysylltiadau hanesyddol rhwng pobl, llefydd a digwyddiadau yng nghanol y ddinas,
- Cyfeirnodi hanes diwydiannol ac arforol Caerdydd yn well trwy ddatblygiadau newydd, gwybodaeth i ymwelwyr a gweithiau celf gyhoeddus,
- Canfod cyfleoedd ariannu ychwanegol ar gyfer diogelu asedau hanesyddol Caerdydd.

## Argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi'r camau i'w cymryd wrth fabwysiadu:

- Asesiadau cymeriad a'r argymhellion uchod i'w cadarnhau fel sail ar gyfer integreiddio amgylchedd hanesyddol o fewn y Fframwaith a ddarperir gan Strategaeth Canol Dinas, a'r gwerthusiadau o'r ardaloedd cyfagos.

- Sicrhau bod y gwerthusiad yn fframwaith i asesu ceisiadau cynllunio yn unol ag Adran 72 y Ddeddf.

## Ymgynghori

**Mabwysiadwyd y ddogfen hon yn dilyn ymgynghoriad lleol.**

Gellir cael manylion am adeiladau rhestredig ynghyd â dogfennau polisi eraill gan y Tîm Cadwraeth ar 02920 873485.

# geirfa

| | |
|---|---|
| **Adeilad rhestredig** | Adeilad neu adeiledd arall sydd o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol penodol ac sy'n cael ei ddiogelu'n statudol gan Cadw. |
| **Adeilad Rhestredig Lleol** | Adeiladau nad ydynt wedi'u rhestru gan Cadw ond sy'n haeddu cydnabyddiaeth oherwydd eu cyfraniad i'r amgylchedd adeiledig lleol. |
| **Ardal Gadwraeth** | Ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, sy'n ddymunol i ddiogelu neu wella ei chymeriad neu ei hymddangosiad. |
| **Arddull Eidalaidd** | Roedd yr arddull Eidalaidd yn gyfnod amlwg yn y 19eg Ganrif a ysbrydolwyd gan gyfnod y Dadeni Eidalaidd. |
| **Bric Gwasgedig** | Mae hwn yn ddull drytach o wneud briciau gan ddefnyddio cymysgedd llawer mwy trwchus o glai a mwy o rym wrth eu gwasgu. Y canlyniad yw brics mwy cywir, gydag ochrau mwy miniog. |
| **Bwrdeisiaeth** | Ffurf daliadaeth ganoloesol a oedd yn berthnasol i eiddo o fewn ffiniau'r ddinas (bwrdeistref). Byddai'r eiddo gan amlaf yn cynnwys tŷ ar lain hir a thenau o dir, gyda'r pen cul yn wynebu'r stryd. |
| **Bwtres** | Wal gerrig neu frics i roi sefydlogrwydd ychwanegol i wal neu i wrthsefyll gwthiad ochrol o fwa, to neu gromen. |
| **Cadw** | Adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. |
| **Canllaw** | Rhes o bileri neu bedestalau sy'n cynnal canllaw grisiau neu'n ffurfio math o barapet. |
| **Carreg ddiddos** | Mowldin dros ben agorfa. |
| **Carreg Nadd** | Carreg ag wyneb gorffenedig i'w defnyddio ar gorneli, agoriadau neu nodweddion eraill. |
| **Colofnres** | Rhes o golofnau sy'n cynnal strwythur uwch ei ben. |
| **Corbel** | Cerrig neu frics sy'n ymwthio o wal sy'n cynnal rhywbeth uwch ei ben, er enghraifft lwfer dros ddrws. |
| **Cornis** | Silff ymestynnol lorweddol gyda mowldin addurnol ar yr ochr isaf, sy'n coroni adeilad neu nodwedd er enghraifft ffenestr neu ddrws. |

| | |
|---|---|
| **Conglfeini** | Cerrig neu frics a ddefnyddir fel nodwedd addurniadol ar gorneli adeilad. Mae'r cerrig fel arfer yn cael eu gosod mewn patrwm bach a mawr am yn ail. |
| **Cwpola** | Cromen addurniadol fechan ar ben to neu dros lygaid cromen fwy. |
| **Cyfarwyddyd Erthygl 4** | Gorchymyn a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad neu'r awdurdod cynllunio lleol sy'n gwahardd hawliau datblygu arferol a all olygu bod angen caniatâd cynllunio ar newidiadau bach hyd yn oed. |
| **Eglurder** | Y rhinwedd o allu deall strwythur a natur lle, er enghraifft, gallu darganfod ffordd trwy strwythur cydlynol o strydoedd gyda thirnodau adnabyddadwy. |
| **Estyll Tywydd** | Bwrdd wedi'i osod o dan fondo talcen tŷ a all fod yn blaen neu wedi'i gerfio'n fanwl neu'n rhwyllog. |
| **Ffasgia** | Wyneb fertigol sy'n pontio ar hyd pen colofnau neu ar draws pen waliau. Mae bwrdd ffasgia yn fwrdd fertigol sy'n cloi diwedd trawstiau ar y bondo. |
| **Ffenestr Oriel** | Ffenestr bae sy'n sefyll allan o'r brif wal ar lawr uwch. Cânt eu cynnal gan amlaf gan fracedi neu gorbelau. |
| **Ffenestri bae ar oleddf** | Ffenestri bae sy'n cysylltu â'r brif wal ar ongl o 45o yn hytrach nag ar ongl sgwâr. |
| **Ffrynt anactif** | Ffrynt stryd ag adeiladau neu safleoedd gwag, adeiladau segur, defnyddiau heb fynediad cyhoeddus, adeiladau â ffasadau gwag, muriau terfyn sy'n uwch na lefel y llygad. |
| **Gorchymyn Cadw Coed** | sy'n diogelu coed sydd wedi'u nodi yn y gorchymyn. |
| **Graddfa** | Cyfrannedd adeilad. |
| **Llin-gwrs** | Band neu fowldin llorweddol sy'n ymestyn o arwyneb y wal. |
| **Lintel** | Trawst dros agoriad, megis drws neu ffenestr. |
| **Modrwyen** | Band llorweddol â manylion o amgylch colofn. |
| **Naddu â Morthwyl** | Carreg a gaiff ei forthwylio i edrych yn anwastad. |
| **Parapet** | Wal neu rwystr isel sydd ar ochr balconi neu do. |
| **Pediment** | Talcen trionglog isel. |

| | |
|---|---|
| **Pen Colofn** | Rhan uchaf colofn neu bilastr sydd wedi ei addurno gan amlaf. |
| **Pendrawst** | Mowldin o amgylch agoriad drws neu ffenestr. |
| **Pilastr** | Rhan fflat o golofn sydd ynghlwm i'r wal, yn betryalog o ran siâp ac yn sefyll allan ychydig. |
| **Portico** | Cyntedd gyda'r to a phediment yn aml a gynhelir gan golofnau. |
| **Pedeirdalen** | Siâp cymesurol, treswaith fel arfer ac yn cynnwys amlinelliad o gylchoedd sy'n gorgyffwrdd sy'n ffurfio llabedau (mae gan bedairdalen 4 llabed). Mae amrywiaethau eraill ar gael, gan gynnwys y feillionen (3 llabed) a'r pumbys (5 llabed). |
| **Rendro** | Gorchudd plastr, calch neu sment ar waliau allanol. |
| **Stwco** | Gwaith plastro manwl â chalch ar waliau allanol y gellir ei wneud yn arwyneb llyfn. |
| **Talcen** | Darn triongl o wal yr adeilad, rhwng ochrau to ar oleddf sy'n cynnal strwythur y to. |
| **Teracota** | Clai llosg wedi'i fowldio a ddefnyddir ar gyfer manylion pensaernïol. |
| **Ti Caeedig** | Adeiladau, strwythurau, coed neu nodwedd arall yn amgylchynu gwagle i greu man canfyddadwy. |
| **Wyneb Creigiog** | Carreg wedi'i gorffen gyda golwg garw. |
| **Y Llinell Adeiladu** | Llinell wedi'i gosod ar bellter penodol o flaen a/neu ochrau llain sy'n dangos safle'r adeilad. Gall y llinell hon fod yn sefydlog i gynhyrchu cynllun adeiladu unffurf ar gyfer stryd. |

# Cyfeiriadau


- Buildings of Wales: Glamorgan. J Newman, Penguin Books, 1995.
- Cardiff The Making of a City Centre. P. Riden, 1993.
- The Oxford Dictionary of Architecture. James Stevens Curl, Oxford University Press, 1999.
- Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (Datganiad Ysgrifenedig Adneuol). Cyngor Dinas Caerdydd, 2003.
- Strategaeth Canol y Ddinas 2007 – 2010. Cyngor Dinas Caerdydd, 2007.
- Asesiad Cymeriad Ardal Gadwraeth Plas Windsor. Cyngor Dinas Caerdydd, 2000.
- Ardal Plas Windsor: Canllaw Dylunio Tir y Cyhoedd (Drafft Ymgynghori). Dinas a Sir Caerdydd, 2001.
- Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth. Cyngor Dinas Caerdydd, 1997.
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 – Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol.


# Diolchiadau


- Grŵp Cynghori (Canol y Ddinas) Ardaloedd Cadwraeth.
- Archifdy Morgannwg.
- Cadw.


# Manylion Cyswllt a Gwybodaeth


Y Tîm Cadwraeth
Cynllunio Strategol
Ystafell 227
Neuadd y Sir,
Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd, CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 3231


# Mapiau:


Yn seiliedig ar fapiau'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achosion sifil. Cyngor Sir Caerdydd. 100023376 (2005).

# atodiad 1: cyd-destun hanesyddol

## Rhufeinig


Sefydlwyd Caerdydd gan y Rhufeiniaid yn ystod ail hanner y ganrif gyntaf OC, fel caer a safle i fasnachu mewn man strategol ar gyfer croesi Afon Taf. Safai caer bren Rufeinig ar y safle o tua 55-60 OC, ac fe'i hailadeiladwyd nifer o weithiau. Tua 280, adeiladwyd caer garreg, ac mae waliau'r castell presennol wedi'u hadeiladu ar sylfeini'r gaer honno.

## Normanaidd / Canoloesol

Wedi i'r Normaniaid oresgyn Cymru, adeiladwyd caer newydd ar y sylfeini Rhufeinig a sefydlwyd tref gaerog yn y ddeuddegfed ganrif. Parhaodd y dref i ffynnu fel canolfan farchnad fechan ond llwyddiannus.

Gellir gweld gwreiddiau canoloesol y ddinas yn y patrwm stryd o gwmpas Eglwys Ioan Fedyddiwr a Chastell Caerdydd; y strydoedd cul, afreolaidd megis Stryd Womanby, olion tir bwrdais (plot hir o dir yn rhedeg ar ongl sgwâr o du blaen stryd mewn tref) ac enwau strydoedd fel Stryd y Cei, sy'n adlewyrchu gweithgareddau cynnar yr ardal.

## Nodweddion o Ddiddordeb Hanesyddol











- Gweddillion y Wal Rufeinig
- Porth Gorllewinol Castell Caerdydd
- Enghraifft o Dir Bwrdais









- Tir Bwrdais ar Heol y Dug
- Lleoliad hen waliau'r dref
- Eglwys Ioan Fedyddiwr
- Castell Caerdydd


# 1500 – 1800

Yng nghanol yr 16eg ganrif, Caerdydd oedd tref sirol sir newydd Morgannwg. Er gwaethaf ei phwysigrwydd gweinyddol cynyddol, roedd Caerdydd yn parhau i fod yn dref gymharol fechan gyda phoblogaeth llai niferus nag Aberhonddu, Caerfyrddin ac Abertawe, a oedd yn borthladd llawer prysurach o ddiwedd yr 17eg ganrif os nad ynghynt.

Ni fu llawer o dwf yn y cyfnod hwn; roedd yr adeiladau wedi'u hamgáu o fewn waliau'r dref a maestref Canoloesol Crockherbtown, a oedd tu allan i furiau'r dref tua'r dwyrain (Heol-y-Frenhines erbyn heddiw).

Mae cynlluniau hanesyddol a mapiau yn dangos mai dim ond hanner deheuol Heol Eglwys Fair a newidiodd yn sylweddol rhwng 1600 a 1800. Roedd Afon Taf yn symud yn gynyddol tua'r dwyrain ac erbyn canol yr 17eg ganrif, roedd unrhyw amddiffynfeydd a wnaed gan ddyn ar yr ochr honno o'r Bwrdeistref wedi diflannu. Erbyn 1678 roedd yr addolwyr wedi symud o Eglwys Santes Fair i Eglwys Ioan Fedyddiwr. Yn ystod 18fed ganrif, golchwyd Eglwys Santes Fair i ffwrdd pan orlifodd Afon Taf.

## map John Speed, 1610



Yn ystod y 18fed ganrif, rhoddodd yr Arglwydd Mountstuart gyfarwyddyd i'r Castell gael ei ddymchwel a'i ailadeiladu, a oedd am i'w fab fyw yno. Cyflogodd Arglwydd Mountstuart Henry Holland a Lancelot "Capability" Brown trwy gydol yr 1770au ac 1780au i ailadeiladu adain y gogledd, ychwanegu adain y de ac ailfodelu ystafelloedd y tŷ, clirio Ward y Castell, tirlunio Llain y Castell, archebu coed newydd a llenwi'r ddyfrffos. Ni phreswyliodd mab Arglwydd Mountstuart erioed yn y tŷ, a bu farw yn 1794. Cwblhawyd y gwaith yn 1814 a defnyddiwyd y Castell unwaith eto.

## Fictoraidd - Edwardaidd


Wrth i Gaerdydd ddatblygu fel tref fasnach a phorthladd pwysig, datblygodd ei seilwaith hefyd. Adeiladwyd camlas trwy'r dref rhwng 1794—1798 yn mynd o'r gogledd tua'r de. Yn y 1830au adeiladwyd ffos gyflenwi'r dociau, sydd i'w gweld o hyd ar Boulevard de Nantes ac sydd bellach yn geuffos o dan Plas-y-Parc a Ffordd Churchill, ac adeiladwyd Rheilffordd Dyffryn Taf yn 1840-41.

Gyda'r seilwaith gwell daeth rhagor o gyfleoedd masnachu a thwf sylweddol ym mhoblogaeth y dref, a dyfodd ar ei degfed rhwng 1801 a 1851 ( o ryw 1,800 i 18,000), er nad ehangodd yr ardal adeiledig ond ychydig. Adeiladwyd rhai maestrefi newydd ychydig tu hwnt i Gamlas Morgannwg, ond yn gyffredinol llwyddwyd i gynnwys y boblogaeth gynyddol o fewn yr hen waliau trwy ddwysáu'r datblygiadau, e.e. adeiladu tai teras bach o fewn cyrtiau tu ôl i wyneb blaen y strydoedd.

Yn 1851, cafwyd twf anferthol yn y fasnach haearn a glo, ac o'r herwydd datblygwyd rheilffordd yn cysylltu maes glo De Cymru â dociau newydd Caerdydd.

Cynyddodd y boblogaeth ar ei degfed unwaith yn rhagor rhwng 1851 a 1911. Trawsnewidiwyd Caerdydd o dref o 18,000 yn ddinas o 180,000, ac ehangodd yr ardal adeiledig yn gyflym iawn, gyda maestrefi megis y Rhath, Sblot, Treganna, Grangetown a thu hwnt yn cael eu creu o amgylch canol y ddinas.

## Caerdydd, ar diwedd y 1830au











- Camlas Morgannwg
- Dociau Bute, i'r de o Fasn y Rhath
- Yr hen ffos gyflenwi yn Boulevard de Nantes
- Ffordd Churchill, 1947










- Hen Ddociau Caerdydd
- Plas Windsor
- Neuadd y Ddinas, Parc Cathays
- Gerddi'r Brodordy

Er bod y maestrefi amgylchynol hyn yn amrywio'n fawr o ran eu cymeriad cymdeithasol, roedd eu pensaernïaeth yn gyson iawn o ran ei arddull, diolch i bolisi prydlesu Ystâd Bute a'r tirfeddianwyr mawr eraill. Gwelir tystiolaeth o'r camau cyntaf yn nhwf y maestrefi ym Mlas-y-Parc a Phlas Windsor.

Wrth i'r ddinas dyfu a'r ardaloedd preswyl symud tua'r maestrefi, dechreuwyd canolbwyntio ar fasnachu a gweinyddu yn adeiladau canol y dref. O ddiwedd y 19eg ganrif ymlaen, cafwyd nifer sylweddol o fusnesau proffesiynol yn defnyddio'r tai ym Mhlas Windsor. Oherwydd y rheilffordd a ffos gyflenwi'r dociau, daeth Crockherbtown yn lleoliad masnachol deniadol, gyda mwy a mwy o fusnesau'n ei ddefnyddio.

Erbyn canol y 19eg Ganrif, Caerdydd oedd tref arfordirol fwyaf De Cymru, ac roedd ei phwysigrwydd fel canolfan weinyddol yn tyfu. Yn y cyfnod hwn, roedd swyddogaethau gweinyddol y dref wedi'u canoli o amgylch y Castell a Neuadd y Dref, yng nghanol Heol Eglwys Fair.

## Caerdydd, 1851



Daeth yr angen am ganolfan ddinesig yn amlwg, a bu sôn mor gynnar â'r 1850au am brynu Parc Cathays oddi wrth Ystad Bute ar gyfer defnydd cyhoeddus. Fodd bynnag, ni phrynwyd Parc Cathays i'r diben hwnnw tan 1897.


Cyn hynny, parc preifat y teulu Bute oedd yma, â waliau o'i amgylch. Fe'i defnyddiwyd yn bennaf ar gyfer tir pori, ac roedd planhigfa a gardd gegin yno hefyd. Yn y parc roedd rhodfa o goed llwyfan yn arwain o fin y gogledd i ffin y de, ac ar hyd y llinell hon y lleolwyd y brif ffordd arfaethedig trwy'r parc, sef Rhodfa'r Brenin Edward VII.

Gosododd yr Arglwydd Bute amodau ar y gwerthiant, sef bod rhaid cadw'r rhodfa o goed llwyfen; y dylid ymatal rhag adeiladu ar y plot siâp triongl sydd bellach yn Erddi'r Brodordy; ac y dylid plannu coed ar hyd arglawdd gogleddol ffos gyflenwi'r dociau a'i hamgáu.


Roedd cynlluniau manwl ar gyfer y parc wedi'u paratoi erbyn 1903, a dyna pryd y dechreuodd y gwaith o ddatblygu'r Ganolfan Ddinesig a'i gerddi.

Yn y cyfnod rhwng 1880 a dechrau'r 1900au y cafwyd y gwaith ailadeiladu mwyaf dwys yng nghanol y ddinas, gan gynnwys cynlluniau masnachol mawr megis Adeiladau'r Farchnad, siop adrannol James Howell a Gwesty'r Royal a'r Arcedau Fictoraidd cywrain (Arcêd Wyndham, Arcêd y Castell ac Arcêd Heol Fawr), - y nodwedd mwyaf diddorol yng nghraidd masnachol Caerdydd. O ganlyniad i'r ailadeiladu helaeth hyn, ychydig sy'n weddill o'r adeiladau a fodolai cyn 1850.

Yn 1865, penododd Ardalydd Bute bensaer y Diwygiad Gothig, William Burges, i baratoi adroddiad am wal ddeheuol y Castell a sut y gellid ei hadfer. Dros y 16 mlynedd ddilynol, cydweithiodd y ddau i greu un o adeiladau Fictoraidd mwyaf trawiadol Prydain.



## Parc Cathays 1880




## Parc Cathays 1920









- Tŵr Cloc Castell Caerdydd
- Hen Neuadd y Dref Caerdydd ar Heol Eglwys Fair
- Heol Eglwys Fair, diwedd y 19eg Ganrif
- Arcêd Morgan, 1914

# Yr 20fed a'r 21ain Ganrif

O ryw 1900 tan 1950, roedd tramiau yn rhedeg ledled y ddinas, yn darparu trafnidiaeth fforddiadwy a chyffyrddus i bobl Caerdydd. Er na welir unrhyw olion y traciau tram heddiw, mae'r llwybrau a ddilynwyd gan y cerbydau hyn yn dilyn y prif strydoedd a ddefnyddir hyd heddiw – Cilgant St Andrew, Plas Windsor, Heol-y-Frenhines, Heol y Dug, Heol Eglwys Fair, Stryd Wood a Heol y Tollty.

Yn ychwanegol at ddatblygiad a darfyddiad y rhwydwaith tramiau, cafwyd newidiadau arwyddocaol eraill yn seilwaith y ddinas yn ystod yr 20fed ganrif.

Yn 1947, gorchuddiwyd ffos gyflenwi'r dociau i'r de o Heol-y-Frenhines. Bryd hynny roedd Ffordd Churchill wedi datblygu yn ddau deras ar wahân; Pembroke Terrace ar yr arglawdd gorllewinol ac Edward Terrace ar ochr y dwyrain. Erbyn 1949, roedd Pembroke Terrace ac Edward Terrace wedi cyfuno, ac fe'u henwyd yn Ffordd Churchill.

Yn y 1970au, newidiwyd cymeriad canol y ddinas yn fawr gan y ffyrdd newydd, Stuttgarter Strasse a Boulevard de Nantes. Lledaenwyd Plas Dumfries a Lôn Dumfries, a oedd eisoes yno, a'u hestyn ar draws Cilgant St Andrew ac o flaen Parc Cathays i gysylltu â Ffordd y Brenin, gan ddarparu llwybr teithio arall ar draws y ddinas o'r dwyrain i'r gorllewin ac, yn y pen draw, ei gwneud yn haws pedestreiddio Heol-y-Frenhines. Newidiodd hyn gymeriad y stryd honno'n fawr, gan ei galluogi i ddod yn brif stryd siopa'r ddinas.

Yn 1887 y soniwyd gyntaf yn gyhoeddus am sefydlu Caerdydd yn Brifddinas Cymru, ac yn 1905 enillodd statws dinas. Yn 1955, daeth Caerdydd yn Brifddinas Cymru.

Trwy gydol yr 20fed Ganrif a hyd heddiw mae'r newidiadau mawr wedi parhau yn y ddinas, gyda phlotiau'n cael eu cyfuno i greu unedau mwy a datblygiadau modern mawr megis Arcêd y Frenhines, Canolfan Dewi Sant, Stadiwm y Mileniwm a Dewi Sant 2.









- Castell Caerdydd – Wal y De
- Heol-y-Frenhines 1915
- Ffordd Churchill tua 1947
- Stadiwm y Mileniwm


# atodiad 2: adolygiadau o ffiniau

## Parc Cathays

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Parc Cathays yn 1975, ac estynnwyd yr ardal yn 1992 i gynnwys Fferm Blackweir i'r gorllewin, Tŷ Nasareth i'r Gogledd ac Adeilad Yswiriant Prudential a Baltic House (Gwesty'r Hilton bellach) i'r de.

Mae'r adolygiad o'r Ardal Gadwraeth a'i chyffiniau agos yn cadarnhau bod yr Ardal Gadwraeth yn parhau i feddu ar gymeriad arbennig a bod yr Ardal gadwraeth yn parhau i fod â diddordeb pensaernïol a hanesyddol amlwg. Felly, ni chynigir unrhyw newidiadau i ffin yr Ardal Gadwraeth.

### Map1: Ffiniau Ardal Gadwraeth Parc Cathays, dynodwyd 1975, estynnwyd 1992




# Heol Charles

Dynodwyd Heol Charles yn Ardal Gadwraeth ym mis Hydref 1988, gan gydnabod ansawdd hanesyddol a phensaernïol adran ddeheuol y stryd, sy'n dyddio o'r 1850au.

Mae adolygiad o'r Ardal Gadwraeth a'i chyffiniau agos yn cadarnhau bod yr Ardal Gadwraeth yn parhau i fod o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol amlwg. I'r dwyrain, mae'r ardal yn ymuno ag Ardal Gadwraeth Ffordd Churchill ac i'r gogledd mae datblygiad cyfoes sylweddol sydd o raddfa a chymeriad gwahanol iawn. Am y rhesymau hyn, ni chynigir newid ffin yr Ardal Gadwraeth.

## Map1: Ffin Ardal Gadwraeth Heol Charles, dynodwyd 1988




# Ffordd Churchill

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Ffordd Churchill ar 27 Tachwedd 1991, gan gydnabod ei rhinweddau hanesyddol a phensaernïol yn wyneb pwysau cynyddol ar gyfer ailddatblygu yn yr ardal.

Adolygwyd ffin yr Ardal Gadwraeth er mwyn sicrhau bod yr ardal Gadwraeth yn parhau i feddu ar nodweddion pensaernïol a hanesyddol amlwg.

Mae'r asesiad o'r Ardal Gadwraeth yn cadarnhau bod gan yr ardal gymeriad arbennig o hyd. Er bod datblygu yn parhau i ddigwydd yn Ffordd Churchill, ystyrir, yn gyffredinol, bod adeiladau o werth hanesyddol a phensaernïol arbennig wedi'u hamddiffyn. Does dim lle i ymestyn y ffin i'r dwyrain lle mae adeiladau o raddfa wahanol iawn wedi datblygu dros y ddegawd ddiwethaf. Mae tamaid o'r teras hanesyddol sy'n gyfagos i'r adeilad Masonaidd rhestredig ar Gilgant Guildford yn parhau i fod yno. Ond mae'r teras ymhell oddi wrth y grŵp sy'n ganolbwynt i'r Ardal Gadwraeth ac mae wedi bod yn destun mân newidiadau sydd wedi cael effaith gronnus dros amser. Felly nid oes unrhyw estyniad wedi'i argymell i gynnwys y tamaid hwn.

## Map1: Ffin Ardal Gadwraeth Ffordd Churchill, dynodwyd 1991




# Heol-y-Frenhines

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Heol-y-Frenhines yn 1992, er mwyn cydnabod ei hansawdd hanesyddol a phensaernïol.

Cynhaliwyd adolygiad o ffiniau Ardaloedd Cadwraeth i sicrhau bod nodweddion pensaernïol a hanesyddol amlwg yn dal i berthyn i Ardal Gadwraeth Heol-y-Frenhines.

Mae'r asesiad o'r Ardal Gadwraeth a'r tir o'i hamgylch yn cadarnhau bod gan yr ardal gymeriad arbennig o hyd. Er bod datblygu rhoi'n pwysau cyson, ar y cyfan, mae adeiladau o werth hanesyddol a phensaernïol wedi'u diogelu. Mae nifer o adeiladau sy'n ffinio â'r Ardal Gadwraeth yn ffurfio rhan o'r ardaloedd cadwraeth eraill ac mae'r rheiny nad ydynt yn rhan o Ardal Gadwraeth â chymeriad gwahanol i Ardal Gadwraeth Heol-y-Frenhines. Ni chynigir addasiadau i ffin Ardal Gadwraeth Heol-y-Frenhines felly.

## Map 1: Ffin Ardal Gadwraeth Heol-y-Frenhines, dynodwyd 1992




# Plas Windsor

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Plas Windsor ym 1975, gan gydnabod ei hansawdd hanesyddol a phensaernïol.

Mae ffin yr Ardal Gadwraeth wedi'i hadolygu i sicrhau bod nodweddion pensaernïol a hanesyddol amlwg yn dal i berthyn i'r Ardal Gadwraeth.

Mae'r asesiad o'r Ardal Gadwraeth a'r tir o'i hamgylch yn cadarnhau bod gan yr ardal gymeriad arbennig o hyd. Yn gyffredinol, mae'r adeiladau sydd â gwerth hanesyddol a phensaernïol arbennig wedi'u diogelu ac mae'r dynodiad hwn wedi amddiffyn adeiladau anrhestredig yn ogystal â thir y cyhoedd. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i ffin yr Ardal Gadwraeth felly.

## Map 1: Ffin Ardal Gadwraeth Plas Windsor, dynodwyd 1975



**Am fanylion cyswllt a gwybodaeth:**

**Y Tîm Cadwraeth**
**Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd**
**Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell 227,**
**Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd,**
**Caerdydd. CF10 4UW.**
**Ffôn: (029) 2087 3231**